Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion



© Hawlfraint y Goron 2018 WG36306 ISBN digidol 978-1-78964-376-3

**Cynnwys**

**1.1 Beth yw Uned Cyfeirio Disgyblion?** .......... **5**
**1.2 Beth yw pwyllgor rheoli?** .......... **5**
**1.3 Beth yw aelod pwyllgor rheoli?** .......... **6**
**1.4 Categorïau o aelodau pwyllgor rheoli** .......... **7**
Aelodau rhieni .......... 7
Aelodau staff .......... 7
Aelodau awdurdod lleol .......... 8
Aelodau cymuned .......... 8
Aelodau nawdd (dewisol) .......... 8
Cyfranogiad disgylbion .......... 8
**1.5 Cyfansoddiad y pwyllgorau rheoli** .......... **9**
**1.6 Rolau priodol yr awdurdod lleol a'r pwyllgor rheoli** .......... **10**
**1.7 Sut mae aelodau pwyllgor rheoli yn cyflawni eu dyletswyddau?** .......... **18**
**1.8 Cefnogaeth i aelodau pwyllgor rheoli** .......... **18**
**1.9 Beth ydw i angen ei wybod?** .......... **19**
Beth yw fy atebolrwydd cyfreithiol fel aelod? .......... 20
Pa ymrwymiad a ddisgwylir gan aelod pwyllgor rheoli? .......... 20
Alla'i gael amser o'r gwaith oherwydd fy mod yn aelod pwyllgor rheoli? .......... 21
Sut all aelod sicrhau bod rhywbeth yn cael ei drafod yn y cyfarfod? .......... 21
Ydw i'n gallu ymweld â'r Uned Cyfeirio Disgyblion ar unrhyw adeg? .......... 21
Beth ydy fy nghyfrifoldeb dros ddiogelwch personol? .......... 22
Ydw i'n gallu cael fy niswyddo os ydw i'n gwneud rhywbeth o'i le? .......... 23
Beth all fy ngwahardd? .......... 23
Atal aelodau dros dro .......... 23
**1.10 Beth yn union mae pwyllgorau rheoli yn ei wneud?** .......... **24**
**1.11 Atebolrwydd cyhoeddus a aelodau pwyllgor rheoli** .......... **31**
I bwy mae'r pwyllgor rheoli yn atebol? .......... 31
ATODIAD A – Arfer Effeithiol .......... 34
Cefnogi disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn effeithiol .......... 34
Helpu pobl ifanc i reoli emosiynau a pherthnasoedd .......... 34
**2.1 Cyfrifoldebau corfforaethol y pwyllgor rheoli** .......... **35**
**2.2 Rôl y Cadeirydd a clerc** .......... **37**
Cadeirydd y pwyllgor rheoli .......... 37
**2.3 Beth i'w ddisgwyl mewn cyfarfod pwyllgor rheoli** .......... **38**

**2.4 Agenda ar gyfer cyfarfodydd** .......... **38**
Ymddiheuriadau am absenoldeb .......... **39**
Cofnodion y cyfarfod diwethaf .......... **39**
Materion yn codi o'r cofnodion .......... **40**
Datganiad buddiant mewn eitem ar yr agenda .......... **40**
Materion gwelliant yr Uned Cyfeirio Disgyblion (e.e. adroddiad yr athro/athrawes mewn gofal) .......... **40**
Monitro a gwerthuso perfformiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion .......... **40**
Presenoldeb disgyblion .......... **40**
Adroddiadau pwyllgorau .......... **40**
Adroddiadau gan staff .......... **40**
Adroddiadau gan ddisgyblion / llais disgyblion .......... **40**
Diogelu.......... **40**
Adroddiad gan yr ALI / CRh .......... **41**
Hyfforddiant a datblygiad .......... **41**
Gohebiaeth .......... **41**
Eitemau a ystyrir yn gyfrinachol ..........**41**
Unrhyw fater arall (os cytunir i'w dderbyn) ..........**42**
Dyddiad y cyfarfod nesaf .......... **42**
**2.5 Cyfrinachedd** .......... **42**
**2.6 Beth ellir ei ddirprwyo?** .......... **43**
**2.7 Is-bwyllgorau** .......... **43**
Sefydlu pwyllgor .......... **43**
Cylch gwaith .......... **44**
**2.8 Gweithio mewn partneriaeth** ..........**44**
**2.10 Cyfarfodydd effeithiol o'r pwyllgor rheoli** .......... **46**
**2.11 Digwyddiadau neu gyfrifoldebau aelodau sydd angen sylw blynyddol** .......... **47**
ANNEX A – Cynnwys adroddiad gan yr athro/athrawes mewn gofal i aelodau'r pwyllgor rheoli ..........**51**
**3.1 Tair prif rôl y pwyllgor rheoli** .......... **57**
Enghraifft o gefnogi a herio sydd ar gael gan Estyn: .......... **59**
**3.2 Y dystiolaeth y dylai pwyllgorau rheoli chwilio amdanynt a'u gwerthuso** .......... **59**
Gwerth Ychwanegol ..........**60**
**3.3 Cynllun datblygu'r Uned Cyfeirio Disgyblion**.......... **62**
Beth ydyw? .......... **62**
Pwy sy'n ei lunio? .......... **62**
Pa feysydd a gynhwysir ynddo? .......... **62**
Sut mae'r cynllun datblygu yn cael ei lunio? .......... **63**
Oes rhaid i'r pwyllgor rheoli ymgynghori ar y cynllun datblygu? ..........**63**

Pwy sy’n derbyn copi o’r cynllun datblygu? ........................................................................64
Pwy sy'n monitro, gwerthuso ac adolygu’r cynllun datblygu?........................................................ 64
I bwy yr adroddir cynnydd tuag at gyrraedd nod y cynllun datblygiad? ..........................................64
Mae’r diagram canlynol yn dangos cylch cynllunio datblygu Uned Cyfeirio Disgyblion: ....................65
**3.4 Adroddiad hunanwerhuso uned cyfeirio disgyblion…………………………………………… 15**
**3.5 Sicrhau bod eich pwyllgor rheoli yn effeithiol ........................................................................ 67**
**4.1 Derbyniadau a phrosesau ......................................................................................................... 76**
**4.2 Staffio ........................................................................................................................................ 76**
Arweinyddiaeth ................................................................................................................................ 77
Gweithdrefnau cwyno, disgyblu/diswyddo a gallu .......................................................................... 78
Adnoddau ........................................................................................................................................ 78
Rheolaeth perfformiad staff ............................................................................................................ 78
Monitro cynnydd .............................................................................................................................. 79
**4.3 Sut i ddelio gyda chwyn ............................................................................................................ 79**
**4.4 Y pwyllgor rheoli a’i gyllideb ..................................................................................................... 81**
Paratoi’r gyllideb (h.y. cynllun gwario’r Uned Cyfeirio Disgyblion) .................................................... 81
Cynllun Datblygu Uned Cyfeirio Disgyblion ....................................................................................... 82
**4.5 Y cwricwlwm ............................................................................................................................... 82**
Y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol .......................................................................................... 83
Addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd ..................................................................................................... 83
Addysg rhyw ........................................................................................................................................ 84
Materion gwleidyddol .......................................................................................................................... 84
Addysg bersonol a chymdeithasol ...................................................................................................... 84
**4.6 Arolwg Uned Cyfeirio Disgyblion ................................................................................................. 85**
Diben arolwg ........................................................................................................................................ 85
Adroddiad Hunan Werthuso ................................................................................................................ 86
Cyn yr arolwg ....................................................................................................................................... 87
Yn ystod yr arolwg ............................................................................................................................... 87
Ar ôl yr arolwg ...................................................................................................................................... 88
**4.7 Anghenion addysgol arbennig ..................................................................................................... 89**
**4.8 Disgyblion a Llesiant .................................................................................................................... 90**
Cefnogi disgyblion ................................................................................................................................ 90
Gwaharddiadau - trosolwg ................................................................................................................... 91
Pwyllgor disgyblu disgyblion ................................................................................................................. 91
Y panel apêl annibynnol........................................................................................................................ 92
Polisi ymddygiad Uned Cyfeirio Disgyblion .......................................................................................... 92
Presenoldeb disgyblion ........................................................................................................................ 92

**4.9 Diogelu ....................................................................................................................................94**
**4.10 Cyfranogiad disyblion ........................................................................................................ 94**
Rôl aelodau pwyllgor rheoli ........................................................................................................ **95**
Beth yw ystyr cyfranogiad disgyblion .......................................................................................... **95**
Y rhesymau wrth wraidd mwy o gyfranogiad disgyblion ............................................................**95**
Sut all Uned Cyfeirio Disgyblion ddatblygu cyfranogiad disgyblion, yn ôl eu hanghenion ac amgylchiadau ....................................................................................................................................**95**
**4.11 Llesiant Staff ....................................................................................................................... 96**
**4.12 Darparu cyfleusterau a chymorth ........................................................................................ 96**

## 1.1 Beth yw Uned Cyfeirio Disgyblion?

Uned Cyfeirio Disgyblion ydy math o ysgol a sefydlir gan yr Awdurdod Lleol (ALl) sydd â dyletswydd i ddarparu addysg addas i blant a phobl ifanc nad ydyn nhw efallai, oherwydd salwch, gwaharddiad neu fel arall, yn derbyn addysg o'r fath mewn ysgol prif ffrwd.

Mae yna amrywiaeth eang o Unedau Cyfeirio Disgyblion. Maent yn wahanol o ran y nifer a'r math o ddisgyblion y maent yn darparu ar eu cyfer, hyd arferol yr arhosiad, y trefniadau ar gyfer derbyn a throsglwyddo i addysg arall, natur y cwricwlwm a hyd y diwrnod ysgol.

Datblygir y gwahanol fodelau o ddarpariaeth Unedau Cyfeirio Disgyblion i gwrdd ag amgylchiadau lleol ac yn unol â pholisïau lleol. Mae'r modelau darpariaeth a allai gael eu cynnwys o fewn y term cyffredinol 'Uned Cyfeirio Disgyblion' yn cynnwys:

- darpariaeth ar un safle
- darpariaeth ar nifer o safleoedd dan un strwythur rheoli
- gwasanaeth cyfeirio disgyblion peripatetig (mewn ardaloedd gwledig yn fwyaf arbennig)
- darpariaeth 'e-ddysgu' sy'n defnyddio TGCh ac adnoddau ar y we
- gwasanaethau addysgu mewn ysbyty ac yng nghartrefi disgyblion, neu rannau ar wahân o wasanaeth sy'n darparu addysg mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion neu leoliad tebyg i ysgol
- rhai darpariaethau mewn ysbytai
- darpariaeth ar wahân i famau ifanc/disgyblion beichiog
- darpariaeth ambarél i gofrestru disgyblion sy'n dilyn rhaglenni unigol.[1]

Cyfrifoldeb yr ALl ydy cynnal Unedau Cyfeirio Disgyblion a sicrhau bod ganddyn nhw adnoddau addas a'u bod wedi eu trefnu i ddarparu addysg o safon uchel.

## 1.2 Beth yw pwyllgor rheoli?

Mae'r pwyllgor rheoli yn chwarae rhan strategol ac ymgynghorol mewn nodi a chynnal gweledigaeth, nodau ac amcanion yr Uned Cyfeirio Disgyblion ar y cyd gyda'r ALl. Diben hyn ydy sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ddiogel, bod eu hanghenion yn cael eu diwallu, eu bod yn gwneud cynnydd priodol ac yn derbyn safon addysg da. Swyddogaethau craidd Unedau Cyfeirio Disgyblion, fel a nodir yn y fframwaith deddfwriaethol, ydy:

[1] Paragraffau 8-9, *Cynhwysiant a Chefnogaeth Disgyblion*, Llywodraeth Cymru
canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf

- cynnal yr Uned Cyfeirio Disgyblion e.e. monitro addysgu a dysgu, rheolaeth staff, disgyblion ac adnoddau, ymddygiad o ddydd i ddydd, llesiant, presenoldeb ac yn y blaen.

- nodi nodau ac amcanion priodol

- nodi neu ddatblygu polisïau, yn cynnwys targedau a blaenoriaethau

- nodi trefniadau i fonitro ac adolygu nodau ac amcanion, a gweld os ydy'r polisïau, targedau a blaenoriaethau yn cael eu cyflawni

- ymateb i gwynion yn ymwneud â'r cwricwlwm

- cyfrifoldeb dros y polisi disgyblu disgyblion a'r pwyllgor cysylltiedig

- arfarnu staff addysgu Uned Cyfeirio Disgyblion.

Dylai'r pwyllgorau rheoli gymryd cyngor ar y swyddogaethau hyn oddi wrth yr athro/athrawes mewn gofal cyn gwneud eu penderfyniadau. Lle mae'n briodol dylai pwyllgorau rheoli hefyd ymgynghori gyda'r ALl ac/neu gyda'r consortiwm rhanbarthol. Fe fydd aelodau pwyllgorau rheoli yn defnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i adolygu cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd a gwerthuso os ydy eu hamcanion, cynllunio a pholisïau strategol yn gweithio neu a oes angen eu newid.

Mae yna ganllaw statudol i ALl ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ar y cyfansoddiad, rolau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli, yn ogystal â gweithdrefnau pwyllgorau rheoli.[2]

## 1.3 Beth yw aelod pwyllgor rheoli?

Mae aelod pwyllgor rheoli yn rhywun sydd:

- yn wirfoddolwr (ac eithrio'r athro/athrawes mewn gofal/aelodau staff)

- yn poeni am addysgu, dysgu a phlant

- yn cynrychioli pobl gyda diddordeb allweddol yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, yn cynnwys rhieni/gofalwyr, staff, y gymuned leol a'r ALl

- yn aelod o dîm sy'n derbyn cyfrifoldeb am bopeth y mae Uned Cyfeirio Disgyblion yn ei wneud, ynghyd â'r ALl fel bo'n briodol

- ag amser i'w roi i gyfarfodydd ac achlysuron eraill eraill pan fo angen

- yn fodlon dysgu

---

[2] *Canllawiau statudol - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014*, Llywodraeth Cymru
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/canllawiau-statudol-rheoliadau-addysg-unedau-cyfeirio-disgyblion-pwyllgorau-rheoli-ac-ati-cymru-2014.pdfhttps://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/canllawiau-statudol-rheoliadau-addysg-unedau-cyfeirio-disgyblion-pwyllgorau-rheoli-ac-ati-cymru-2014.pdf

- yn gallu cefnogi a herio'r Uned Cyfeirio Disgyblion, gofyn cwestiynau am sut mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn gweithio a'r safonau a gyflawnir

- yn ddolen gyswllt rhwng rhieni, y gymuned leol, yr ALI a'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

## 1.4 Categorïau o aelodau pwyllgor rheoli

Mae sawl math o berson yn dod yn aelod pwyllgor rheoli. Fel chi, fe fydd ganddyn nhw reswm neilltuol dros wasanaethu. Mae gan pob pwyllgor rheoli grŵp craidd o aelodau yn cynnwys:

- aelodau rhieni[3]
- aelodau staff (yn cynnwys yr athro/athrawes mewn gofal)
- aelodau awdurdod lleol  aelodau cymuned
- aelodau nawdd.

Mae'r holl aelodau yn rhannu'r un pwerau a nodau, sef diogelu ansawdd yr addysgu a'r dysgu a ddarperir gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion, i godi safonau cyflawniad a chyrhaeddiad y disgyblion a'r staff a bod yn atebol i'r gymuned leol ac i'r ALI am effeithlonrwydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

Fe fyddwch yn darganfod bod y cyfrifoldebau y mae pob aelod o'r pwyllgor rheoli yn eu rhannu yn llawer mwy sylweddol na'r amrywiadau rhwng y gwahanol fathau o aelodau pwyllgor rheoli.

O dro i dro fe fydd angen i chi atgoffa eich hun nad oes gennych ddim pwerau fel unigolyn yn ôl y gyfraith. Mae'r gyfraith yn gosod pwerau gyda'r pwyllgor rheoli cyfan, ac rydych yn un aelod ohono.

Mae angen i'r holl aelodau gymryd rhan llawn yng ngweithgaredd y pwyllgor rheoli a sicrhau parhad drwy fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd.

**Aelodau rhieni**
Mae rhieni, yn cynnwys gofalwyr, disgyblion cofrestredig yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, yn gymwys i sefyll etholiad ar gyfer aelodaeth rhieni.[4] Gall aelod rhiant barhau i wasanaethu am eu tymor mewn swydd o bedair blynedd fel aelod o'r Pwyllgor Rheoli (neu am unrhyw gyfnod llai sydd wedi'i nodi yn Offeryn Llywodraethu'r Pwyllgor Rheoli), hyd yn oed os ydy'r plentyn yn gadael yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn ystod y cyfnod hwnnw. Gall aelodau rhieni fynegi eu barn bersonol yng nghyfarfodydd y pwyllgor rheoli. Ond, mae'n bwysig pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud bod aelodau unigol o'r pwyllgor rheoli yn ymarfer eu dyfarniad gorau wrth gyfrannu at benderfyniad y pwyllgor rheoli. Ni all

[3] Trwy'r llawlyfr yma, mae'r term 'rhiant' hefyd yn golygu unrhyw berson neu gorff sydd â chyfrifoldeb rhiant yn ôl diffiniad y Ddeddf Plant a Chylchlythyr Rhif 12/2007 Rhieni a Chyfrifoldeb Rhiant, yn cynnwys y rhai sydd yn gweithredu fel gwarcheidwaid, rhieni/gofalwyr maeth neu ofalwyr.

[4] Mae unigolyn yn anghymwys i gael ei ethol neu ei benodi'n aelod rhiant o Uned Cyfeirio Disgyblion os yw'n aelod etholedig o'r awdurdod lleol neu os yw'n gweithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion am dros 500 awr mewn blwyddyn academaidd.

eraill orfodi aelodau rhieni i ddadlau neu i bleidleisio mewn modd sydd yn gwrthdaro gyda'u dyfarniad gorau.

Rhaid i'r ALl wneud pob ymdrech rhesymol i lenwi'r lle gwag yma trwy ddefnyddio proses etholiad. Os nad oes digon o rieni/gofalwyr yn sefyll etholiad, gall pwyllgorau rheoli benodi aelodau rhieni.

**Aelodau staff**
Etholir aelodau staff fel cynrychiolwyr buddiannau'r staff yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, ac mae'n cynnwys yr athro/athrawes mewn gofal. Mae athrawon a staff cefnogi yn gymwys i'w hethol i'r categori hwnnw. Er y gallent ar adegau fynegi barn y staff wrth y pwyllgor rheoli, maen nhw yr un mor rhydd i fynegi eu barn bersonol ac ymarfer eu dyfarniad gorau pan fo penderfyniadau'n cael eu gwneud, fel unrhyw aelod arall o'r pwyllgor rheoli, yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynir iddyn nhw.

Os bydd yr aelod o'r staff yn rhoi'r gorau i weithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, yna byddant yn anghymwys i barhau yn ei swydd fel aelod o'r staff.

Weithiau ni fydd barn yr aelod staff yr un fath â barn yr athro/athrawes mewn gofal. Os felly, efallai y bydd yr aelod staff yn dymuno ystyried hysbysu'r Athro/Athrawes mewn Gofal o ran cwrteisi, cyn i'r mater gael ei drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli.

**Aelodau awdurdod lleol**
Penodir aelodau ALl gan yr ALl sydd yn cynnal yr Uned Cyfeirio Disgyblion.[5] Gall aelodau ALl gyflwyno barn yr ALl ond dydyn nhw ddim yn ddirprwyon yr ALl ac ni all yr ALl eu gorfodi i gymryd barn neilltuol. Blaenoriaeth yr aelod ydy sicrhau bod penderfyniadau'r pwyllgor rheoli er lles yr Uned Cyfeirio Disgyblio, ei staff a'i disgyblion.

**Aelodau cymuned**
Mae aelodau cymuned yn cyfrannu o'u profiad a'u harbenigedd eu hunain i'r pwyllgor rheoli ac maen nhw'n gallu gweithredu fel dolen rhwng y gymuned y mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ei gwasanaethu. Fel rheol mae aelodau cymuned yn byw neu yn gweithio yn y gymuned a wasanaethir gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac maen nhw'n ymroddedig i lwyddiant yr Uned Cyfeirio Disgyblion.[6] Dylai ALl i ddechrau geisio penodi cynrychiolwyr o ysgolion lleol, i helpu i sicrhau bod ysgolion 'sy'n bwydo' neu ysgolion partner yn cadw 'perchnogaeth' o'r disgyblion ac yn gallu monitro a chefnogi eu cynnydd. Mae cynyddu cynrychioliad ysgolion ar bwyllgorau rheoli yn helpu i sicrhau parhad addysg disgybl ac yn codi lefel cyflawniad.

**Aelodau nawdd (dewisol)**[7]
Dyma unigolyn sydd wedi rhoi neu sydd yn rhoi cymorth ariannol sylweddol i'r Uned Cyfeirio Disgyblion, sydd wedi darparu neu sydd yn darparu gwasanaethau sylweddol i'r Uned Cyfeirio Disgyblion, neu sydd yn cynrychioli buddiannau corff neu fusnes sydd wedi darparu nawdd. Caiff yr aelod nawdd ei benodi gan y pwyllgor rheoli neu gan yr awdurdod lleol ar ôl creu'r pwyllgor rheoli.

**Cyfranogiad disgylbion**
Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ac mae wedi gwneud hyn yn gydnaws gyda'i nodau craidd. Dywed Erthygl 12 o'r UNCRC bod gan 'blant a phobl ifanc yr hawl i ddweud beth maen nhw'n feddwl ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sydd yn effeithio arynyn nhw a bod eu barn yn cael ei gymryd i ystyriaeth."

Dylai pwyllgorau rheoli annog cyfranogiad disgyblion yng nghyfarfodydd y pwyllgor rheoli fel bod barn disgyblion yn cael ei gynrychioli yn y broses o wneud penderfyniadau. Gellir hwyluso hyn drwy'r cyngor disgyblion.

[5] Mae unigolyn yn anghymwys i gael ei ethol fel aelod ALl os ydyn nhw'n gymwys i fod yn aelod staff. [6] Mae unigolyn yn anghymwys i gael ei ethol neu ei benodi'n aelod cymuned os ydyn nhw'n gymwys i fod yn aelod staff neu yn aelod etholedig o'r ALl.
[7] Penodir yn ôl dewis yr Awdurdod Lleol (rheoliad 5(b) neu'r Pwyllgor Rheoli (rheoliad 13)

## 1.5 Cyfansoddiad y pwyllgorau rheoli

Yr ALl sydd yn nodi cyfansoddiad y pwyllgor rheoli, mewn "offeryn llywodraethu". Fe fydd yr offeryn llywodraethu yn pennu maint ac aelodaeth y pwyllgor, a fydd rhwng 7 ac 20 aelod (ac eithrio aelodau nawdd). Fe fydd yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol hefyd:

(a) enw'r uned (neu'r grŵp o unedau)

(b) enw'r pwyllgor

(c) (i) nifer yr aelodau ym mhob categori o aelod a
(ii) chyfanswm nifer aelodau'r pwyllgor, gan gynnwys unrhyw noddwr-aelodau

(d) tymor mewn swydd ar gyfer categori o aelodau (os bydd hwnnw'n llai na 4 blynedd – os bydd y tymor yn un safonol o 4 blynedd, yna nid oes angen cynnwys hwn)

(e) enwau'r aelodau nawdd (fel bo'n briodol) a manylion y corff enwebu

(f) y dyddiad pan fydd yr offeryn llywodraethu yn cymryd effaith.

I Unedau Cyfeirio Disgyblion a sefydlir mewn ysbyty, dylai'r offeryn llywodraethu hefyd nodi enw'r corff sydd â hawl i enwebu person ar gyfer ei benodi fel aelod cymuned.

Wrth gyfrifo'r nifer o aelodau staff sydd eu hangen, rhaid cynnwys yr athro/athrawes mewn gofal (neu lle mae yna grŵp o unedau, athro/athrawes mewn gofal pob uned) os ydy'r person yna wedi ymddiswyddo o'u haelodaeth ai peidio. O'r cyfanswm aelodau[5]

(a) rhaid i o leiaf un ond dim mwy nag un rhan o bump fod yn aelodau rhieni

---

[5] Wrth gyfrifo'r nifer o aelodau angenrheidiol ym mhob categori, rhaid gwneud y rhif i fyny neu i lawr at y cyfanrif llawn agosaf.

(b) rhaid i o leiaf un ond dim mwy nag un rhan o dair fod yn aelodau staff

(c) rhaid i o leiaf un ond dim mwy nag un rhan o dair fod yn aelodau a benodir gan yr ALI

(d) gall o leiaf un ond dim mwy na dau fod yn aelodau nawdd

(e) rhaid i nifer yr aelodau cymuned fod yn fwy na'r holl aelodau eraill a restrir yn is-baragraffau (a) i (d).

Gall y pwyllgor rheoli a'r ALI adolygu'r offeryn llywodraethu ar unrhyw adeg ar ôl iddo gael ei wneud.

## 1.6 Rolau priodol yr awdurdod lleol a'r pwyllgor rheoli

Mae ALI yn chwarae rhan bwysig mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Mae'n ddyletswydd ar yr ALI i wneud trefniadau ar gyfer darpariaeth addysg addas yn yr ysgol neu fel arall i bob plentyn o oedran ysgol na fyddai oherwydd salwch, gwaharddiad neu fel arall, yn derbyn addysg oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud.

Dylai'r Awdurdodau Lleol weithio'n agos gydag Unedau Cyfeirio Dsgyblion, gan helpu i ddatblygu cysylltiadau gyda phartneriaid, arweinwyr cefnogi a chyfrannu at ddatblygiad staff. Gellir defnyddio partneriaethau gydag ysgolion ac asiantaethau eraill yn effeithiol i wella'r cwricwlwm a datblygiad personol.

Er mai'r pwyllgor rheoli sydd yn gyfrifiol am ymddygiad a safonau'r Uned Cyfeirio Disgyblion, mae gan yr ALI gyfrifoldeb dros safonau a chyflawni cyfrifoldebau strategol dros ddarpariaeth cyffredinol gwasanaethau addysg yn eu hardal neilltuol. Mae ALI yn darparu gwasanaethau strategol a chefnogol i bwyllgorau rheoli sydd yn helpu i greu lefel o arferion cynllunio polisi cyffredin y gall Unedau Cyfeirio Disgyblion eu rhannu. Dylai'r pwyllgorau rheoli felly dalu sylw i rolau a chyfrifoldebau eu ALI yn y modd y maen nhw'n cynnal eu hunain ac wrth wneud rhai penderfyniadau.

Mae'r cynllunydd penderfyniadau yma yn nodi'r swyddogaethau allweddol a'r tasgau cysylltiedig sydd yn berthynol i'r Unedau Cyfeirio Disgyblion, ac mae hefyd yn dangos pwy sydd yn gyfrifol am gyflawni'r tasgau hyn.

| **Allwedd i lefelau penderfyniadau** | |
|---|---|
| **Lefel 1** | penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol |
| **Lefel 2** | penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol (argymhellir yn gryf y dylid gofyn i'r pwyllgor rheoli am gyngor hefyd) |
| **Lefel 3** | penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor rheoli yn unig (e.e. dirprwyir y swyddogaeth/tasg i'r pwyllgor rheoli) |

| | |
|---|---|
| **Lefel 4** | penderfyniadau a wneir gan y pwyllgor rheoli (argymhellir yn gryf y dylid gofyn i'r awdurdod lleol am gyngor hefyd) |
| **Lefel 5** | penderfyniad a wneir gan yr athro/athrawes mewn gofal |

## Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllidebau** | 1 | Awdurdodau lleol i lunio polisi cyllideb a chyllid ar gyfer eu Hunedau Cyfeirio Disgyblion | | ✓ | | | | Nid oes gan Unedau Cyfeirio Disgyblion gyllideb ddirprwyedig, a'r Awdurdod Lleol sy'n pennu cyllideb pob un o'u Hunedau. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylai'r awdurdodau lleol fod â pholisi cyllideb a chyllid ar gyfer eu Hunedau, ac y dylid gofyn am farn y pwyllgor rheoli wrth bennu cyllidebau. Dylid annog pwyllgorau rheoli i gyflawni rhai o'r tasgau cysylltiedig, e.e. rhoi cyngor ar unrhyw ymarferion tendro neu drafodaethau ar gontractau. |
| | 2 | Cymeradwyo cynllun y gyllideb bob blwyddyn ariannol | ✓ | | | | | |
| | 3 | Monitro gwariant misol | | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| | 4 | Sefydlu polisi codi tâl a rhyddhad rhag talu | | ✓ | | | | |
| | 5 | Penderfyniadau ariannol amrywiol (nodwyd yn y polisi) | | ✓ | | | | |
| | 6 | Ymrwymo i gontractau (nodwyd yn y polisi) | ✓ | | | | | |
| | 7 | Gwneud taliadau (nodwyd yn y polisi) | ✓ | | | | | |

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Staffio** | 1 | Penodi athro/athrawes mewn gofal | | ✓ | | | | Cyflogir staff sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion gan Awdurdodau Lleol; ac mae deddfwriaeth bresennol yn darparu ar gyfer cyflawni pob swyddogaeth staffio gan yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys materion yn ymwneud â thâl.<br><br>Cyflogir rhai athrawon / hyfforddwyr ar delerau tebyg i'r rhai mewn ysgolion a gynhelir – yn unol â thâl ac amodau athrawon – ac eraill ar delerau tebyg i staff eraill yr Awdurdod Lleol. |
| | 2 | Penodi dirprwy athro/athrawes mewn gofal | | ✓ | | | | |
| | 3 | Penodi athrawon eraill | | ✓ | | | | |
| | 4 | Penodi staff heb fod yn staff addysgu | | ✓ | | | | |
| | 5 | Cytuno ar bolisi tâl | | ✓ | | | | |
| | 6 | Disgreswin dyfranu tâl | | ✓ | | | | |
| | 7 | Sefydlu gweithdrefnau disgyblu/gallu staff | | ✓ | | | | |
| | 8 | Diarddel athro/athrawes mewn gofal | | ✓ | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 9 | Diarddel aelodau staff eraill | | ✓ | | | | Disgwylir i bwyllgorau rheoli helpu i wella effeithiolrwydd Unedau Cyfeirio Disgyblion. Dylid eu hannog, felly, i helpu i benderfynu ar strwythurau staffio, helpu i benodi unigolion i swyddi allweddol yn yr Uned, a helpu gyda materion eraill yn ymwneud â staffio. |
| | 10 | Gwahardd athro/athrawes mewn gofal | | ✓ | | | | |
| | 11 | Gwahardd staff (ac eithrio'r athro/athrawes mewn gofal) | | ✓ | | | | |
| | 12 | Dod â gwaharddiad i ben (athro/athrawes mewn gofal) | | ✓ | | | | |
| | 13 | Dod â gwaharddiad i ben (ac eithrio'r athro/athrawes mewn gofal) | | ✓ | | | | |
| | 14 | Penderfynu ar gyfanswm y staff | | ✓ | | | | |
| | 15 | Penderfynu ar daliadau diswyddo/ymddeoliad cynnar | ✓ | | | | | |
| | 16 | Sicrhau bod gwiriadau cofnodion troseddol wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ar gyfer staff. | ✓ | | | | | Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol gael tystysgrifau gwiriad troseddol manylach ar gyfer aelodau o staff sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. |

## Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwricwlwm** | 1 | Sefydlu polisi cwricwlwm (eang a chytbwys, nid y cwricwlwm cenedlaethol o reidrwydd) | | ✓ | ✓ | | ✓ | Mae'r rheoliadau yn darparu ar gyfer yr Awdurdod Lleol, y pwyllgor rheoli a'r athro/athrawes mewn gofal i gydweithio i gytuno ar bolisi cwricwlwm ar gyfer eu Huned Cyfeirio Disgyblion, ac adolygu'r polisi o dro i dro. Argymhellir y dylent wneud hynny o leiaf unwaith y flwyddyn.<br><br>Felly, dylai'r polisi egluro'r gweithdrefnau ar gyfer gweithredu a monitro'r polisi hefyd.<br><br>Argymhellir ar ba lefel(au) y dylid cyflawni tasgau 2 i 6. |
| | 2 | Gweithredu polisi'r cwricwlwm | | | | | ✓ | |
| | 3 | Monitro polisi'r cwricwlwm | | | ✓ | | | |
| | 4 | Bod yn gyfrifol am safonau addysgu | | | ✓ | | ✓ | |
| | 5 | Penderfynu pa bynciau y dylid eu haddysgu o ystyried yr adnoddau sydd ar gael, a gweithredu darpariaeth ar gyfer hyblygrwydd yn y cwricwlwm (gan gynnwys gweithgareddau y tu allan i'r diwrnod ysgol) | | | ✓ | | ✓ | |
| | 6 | Cyfrifoldeb am addysg plant unigol | | | ✓ | | ✓ | |
| | 7 | Gwneud polisi addysg rhyw ysgrifenedig a'i ddiweddaru | | ✓ | | | ✓ | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 8 | Gwahardd cyflyru gwleidyddol a sicrhau bod materion gwleidyddol yn cael eu trin yn gytbwys | | ✓ | | ✓ | ✓ | |

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli perfformiad** | 1 | Llunio polisi rheoli perfformiad | | ✓ | | | | Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am reoli perfformiad staff sy'n gweithio mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.<br><br>Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylid gofyn am farn y pwyllgor rheoli ynglŷn â phob tasg yn ymwneud â rheoli perfformiad, a bod y Pwyllgor rheoli a'r athro/athrawes mewn Gofal yn gyfrifol am roi'r polisi ar waith. |
| | 2 | Sefydlu polisi rheoli perfformiad | | ✓ | | | | |
| | 3 | Gweithredu'r polisi rheoli perfformiad | | ✓ | | | | |
| | 4 | Adolygu'r polisi rheoli perfformiad bob blwyddyn | | ✓ | | | | |
| | 5 | Rhoi rheoli perfformiad ar waith | | | | ✓ | ✓ | Hefyd, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol benodi partneriaid gwella ysgolion i ddarparu cyngor ar wella safonau'r Uned i'r Awdurdod Lleol, y pwyllgor rheoli a'r athro/athrawes mewn gofal. |

## Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gosod targedau** | 1 | Pennu targedau ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion unigol (cynlluniau dysgu), gan gynnwys strategaeth ymadael. | | | | | ✓ | Dylai bod gan bob disgybl gynllun dysgu sy'n seiliedig ar gyrhaeddiad blaenorol a chyrhaeddiad disgwyliedig yn y dyfodol. Dylai'r athro/athrawes mewn gofal ac aelodau staff eraill fod yn bennaf gyfrifol am y dasg hon. |

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblu/ gwahardd** | 1 | Sefydlu polisi disgyblu | | | ✓ | | | Mae'r pwyllgor rheoli yn gyfrifol am sefydlu ac adolygu polisïau disgyblu. Mae'n rhaid i'r pwyllgor rheoli gytuno ar fesurau i sicrhau bod safonau ymddygiad a disgyblaeth uchel yn cael eu hyrwyddo a'u gweithredu.[9] |
| | 2 | Adolygu polisi disgyblu disgyblion | | | ✓ | | | |
| | 3 | Adolygu'r defnydd o wahardd disgyblion, gan gofio y gallant golli'r cyfle i sefyll arholiad cyhoeddus | | | ✓ | | | |
| | 4 | Peri i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd gael eu derbyn yn ôl (Gellir dirprwyo hyn i'r Cadeirydd/Isgadeirydd mewn achosion brys) | | | ✓ | | | O safbwynt gwahardd disgyblion, bydd angen i'r pwyllgor rheoli ystyried a ddylid cymeradwyo penderfyniadau i wahardd disgyblion yn barhaol neu'r rhai sy'n cael eu gwahardd am gyfnodau penodol o fwy na 15 diwrnod mewn tymor. Pe bai disgybl yn colli'r cyfle i sefyll arholiad oherwydd gwaharddiad, mae'n rhaid i'r pwyllgor rheoli (neu'r Cadeirydd/Is-gadeirydd mewn achosion brys) ystyried a ddylid derbyn y disgybl yn ôl. |

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Derbyniadau** | 1 | Polisi derbyniadau (a strategaeth ymadael) | | ✓ | | | | Er mai'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion, byddai'n synhwyrol i'r pwyllgor rheoli allu cynghori'r Awdurdod Lleol ar bob mater yn ymwneud â derbyn disgyblion, e.e. y nifer fwyaf o ddisgyblion y dylid eu derbyn a'r math(au) o anghenion i ddarparu ar eu cyfer, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael (fel y nodir yng nghynllun y gyllideb). |

[9] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/exclusion/?skip=1&lang=cy

## Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **AAA** | 1 | Ystyried canllawiau'r Cod Ymarfer ar AAA | | ✓ | | | ✓ | Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol, y pwyllgor rheoli a'r athro/athrawes mewn gofal ystyried canllawiau statudol y Cod wrth ddiwallu anghenion disgyblion ag AAA |
| | 2 | Sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag AAA | | ✓ | | | ✓ | Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol hysbysu'r Athro â Gofal, y staff perthnasol a'r pwyllgor rheoli (neu aelod o'r pwyllgor sy'n gyfrifol am ddisgyblion ag AAA) am AAA penodol disgyblion sy'n mynychu'r Uned Cyfeirio Disgyblion er mwyn diwallu eu hanghenion yn effeithiol. |
| | 3 | Sicrhau bod athrawon yn nodi disgyblion ag AAA ac yn darparu'n effeithiol ar eu cyfer | | ✓ | | | ✓ | |
| | 4 | Cydgysylltu darpariaeth AAA ag ysgolion eraill. | | ✓ | | | ✓ | Os yw'n fanteisiol cydgysylltu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA, dylai pwyllgorau rheoli ymgynghori â'r Awdurdod Lleol ac ysgolion lleol (gan gynnwys ysgolion arbennig) i sicrhau bod darpariaeth effeithiol ar gael ar gyfer pob disgybl o'r fath yn yr ardal. |

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safleoedd ac yswiriant** | 1 | Yswiriant adeiladau ac atebolrwydd personol | ✓ | | | | | Fel perchennog y safle, mae'n rhaid i'r Awdurdod |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 | Datblygu strategaeth neu uwchgynllun ar gyfer adeiladau'r ysgol a chyfrannu yn ôl yr angen at drefniadau Cynllunio Rheoli Asedau'r Awdurdod Lleol | | ✓ | | | | Lleol ddarparu yswiriant addas.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n awgrymu y dylai'r Awdurdod Lleol a'r pwyllgor rheoli ddatblygu strategaeth adeiladau ar y cyd. |
| | 3 | Caffael a chynnal a chadw adeiladau, gan gynnwys datblygu cynllun cynnal a chadw a ariennir yn briodol | | ✓ | | | | |

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Iechyd a diogelwch** | 1 | Sefydlu polisi iechyd a diogelwch | | ✓ | | | | |
| | 2 | Sicrhau y dilynir rheoliadau iechyd a diogelwch | | | ✓ | | ✓ | |

## Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trefniadaeth ysgol** | 1 | Cynnig i newid neu gau Uned Cyfeirio Disgyblion | | ✓ | | | | Mae ymgynghori â phwyllgorau rheoli yn ogystal â staff a rhieni yn arfer da pan fo'r Awdurdod Lleol yn cynnig cau Uned Cyfeirio Disgyblion neu wneud newidiadau sylweddol i Unedau.<br><br>Er mai'r Awdurdod Lleol sy'n penderfynu dyddiadau tymhorau a gwyliau, mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid gofyn am farn y pwyllgor rheoli. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol a'r pwyllgor rheoli benderfynu amseroedd sesiynau ysgol ar y cyd. |
| | 2 | Pennu amseroedd sesiynau ysgol a dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol | | ✓ | ✓ | | | |
| | 3 | Sicrhau bod yr ysgol yn cynnal y nifer o sesiynau y cytunwyd arnynt mewn blwyddyn | | | ✓ | | | |

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithdrefnau'r pwyllgor rheoli** | 1 | Llunio offeryn llywodraethu ac unrhyw ddiwygiadau dilynol iddo | ✓ | | | | | |
| | 2 | Penodi (a diarddel) y Cadeirydd a'r Isgadeirydd | | | ✓ | | | |
| | 3 | Penodi a diswyddo clerc y pwyllgor rheoli | | | | ✓ | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 4 | Sicrhau bod o leiaf tri chyfarfod o’r pwyllgor rheoli yn cael eu cynnal mewn blwyddyn ysgol | | | ✓ | | | |
| | 5 | Penodi a diarddel aelodau cymuned neu aelodau nawdd | | | | ✓ | | |
| | 6 | Creu Cofrestr Buddiannau Busnes yr Aelodau | | | | ✓ | | |
| | 7 | Ystyried a ddylid dirprwyo swyddogaethau i unigolion neu isbwyllgorau | | | ✓ | | | |
| | 8 | Rheoleiddio gweithdrefnau’r pwyllgor rheoli (os nad ydynt wedi’u nodi mewn cyfraith) | | | ✓ | | | |
| | 9 | Sefydlu gweithdrefn gwyno | ✓ | | | | | Mae’n arfer da sefydlu gweithdrefn gwyno sy’n egluro sut i wneud cwyn am unrhyw agwedd ar waith Uned Cyfeirio Disgyblion. Yn achos cwynion am y cwricwlwm, dylai’r pwyllgor rheoli |
| | | | | | | | | sefydlu gweithdrefn gwyno. |

## Swyddogaethau a chyfrifoldebau pwyllgorau rheoli

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu cyfleusterau a chymorth** | 1 | Penderfynu cynnig gweithgareddau ychwanegol a natur y gweithgareddau hynny | | | | ✓ | | Mae’r rheoliadau yn caniatáu i bwyllgorau rheoli ddarparu gwasanaethau ychwanegol sy’n diwallu anghenion y gymuned leol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, bydd rhaid i bwyllgorau rheoli gael caniatâd yr Awdurdod Lleol cyn ystyried gwneud hynny. Os yw gwasanaethau ychwanegol o’r fath yn cael eu darparu, mae’n rhaid i’r pwyllgor rheoli sefydlu a hysbysebu gweithdrefnau i fynd i’r afael â chwynion yn ymwneud â’r gwasanaethau hyn. |
| | 2 | Rhoi’r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir ar waith | | | ✓ | | | |
| | 3 | Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu cyflwyno | | | ✓ | | | |
| | 4 | Rhoi’r gorau i ddarparu darpariaeth ysgol estynedig | | | ✓ | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5 | Penderfynu darparu cyngor ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol | | | | ✓ | | Gall y pwyllgor rheoli ddarparu cyngor neu gymorth ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion lleol ac awdurdodau lleol. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol wrth weithio gyda disgyblion mewn ysgolion lleol er mwyn ceisio mynd i'r afael â materion penodol, e.e. ymddygiad. |

| Swyddogaeth allweddol | Rhif | Tasgau | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lles** | 1 | Hyrwyddo lles disgyblion a chydlynu cymunedol | | | ✓ | | | Fel rhan o'u cyfrifoldeb i reoli Unedau Cyfeirio Disgyblion yn dda, mae gan bwyllgorau rheoli ddyletswydd i hyrwyddo lles disgyblion a chydlynu cymunedol. Yn yr un modd ag ysgolion, disgwylir i Unedau Cyfeirio Disgyblion gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau lleol drwy ystyried y Cynllun Plant a Phobl Ifanc lleol – er enghraifft wrth wneud penderfyniadau ar drefniadau gofal plant. |

## 1.7 Sut mae aelodau pwyllgor rheoli yn cyflawni eu dyletswyddau?

Anogir aelodau pwyllgor rheoli i gymryd cyfrifoldeb hyd yn oed yn fwy dros eu Huned Cyfeirio Disgyblion a chyflawni eu gwaith mewn nifer o ffyrdd. Gall rhai o'r cyfrifoldebau hyn fod yn fwy cyfarwydd i rai aelodau nag i eraill. Yn gyffredinol, rhaid i aelodau:

- fynychu cyfarfodydd, pwyllgorau ac efallai, o dro i dro, cymryd rhan mewn gweithgorau bychain
- ymweld â'r Uned Cyfeirio Disgyblion i gael profiad uniongyrchol o ansawdd yr addysgu a dysgu ac ymddygiad disgyblion
- cyflwyno gwybodaeth fel pwyllgor rheoli, fel bo'n briodol i rieni/gofalwyr a derbyn eu hymatebion a'u barn, e.e. adroddiad blynyddol, arolygon rhieni ac yn y blaen.
- bod yn ymwybodol o'r tueddiadau a datblygiadau mewn addysg ac yn arbennig o unrhyw newidiadau yn y gyfraith sy'n effeithio ar Unedau Cyfeirio Disgyblion
- dod yn rhan o dîm effeithiol o aelodau pwyllgor rheoli all wneud y defnydd gorau o'u talentau unigol a defnyddio eu cydgryfderau

- cymryd rhan yn arolwg eu Huned Cyfeirio Disgyblion a llunio cynllun gweithredu mewn ymateb i adroddiad yr arolwg

- gynnal cyfrinachedd pan ofynnir iddynt.

Sylwch nid yw hon yn rhestr derfynol.

## 1.8 Cefnogaeth i aelodau pwyllgor rheoli

Gall fod hyfforddiant a chefnogaeth ar gael i bob aelod pwyllgor rheoli i’ch cynorthwyo i gyflawni eich dyletswyddau yn effeithiol. Dylai ALl ddarparu hyfforddiant ac fe’i hargymhellir yn gryf i’r holl aelodau, newydd neu brofiadol.

Mae gan rai rhaglenni ALl a phwyllgorau rheoli ddigwyddiadau wedi’u hanelu’n benodol at helpu rhieni, staff, y gymuned neu aelodau ALl i deimlo'n fwy hyderus am eu rôl a’u cyfraniad i’r pwyllgor rheoli.

Yn yr un modd, mae hyfforddiant neu sesiynau briffio i’r pwyllgor rheoli cyfan i gynorthwyo aelodau i ddeall eu cyfrifoldebau yn ddull ardderchog o ddysgu rhagor am y rôl. Mae angen i aelodau hefyd ystyried beth ydy eu hanghenion ar sail rheolaidd a sut y bydd hyfforddiant yn eu helpu i ddiwallu’r anghenion hynny.

Cysylltwch gyda’ch ALl am wybodaeth.

## 1.9 Beth ydw i angen ei wybod?

Mae nifer o bethau y bydd angen i chi eu gwybod i gyflawni eich rôl fel aelod pwyllgor rheoli yn effeithiol ond mae’n amhosib i chi ddysgu popeth o nodyn cyfarwyddyd. Fe fydd yn cymryd amser a phrofiad. Beth am ddechrau gyda Egwyddorion ymddygiad ar gyfer aelodau pwyllgor rheoli yng Nghymru.

Er mwyn i aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau a’u dyletswyddau’n effeithiol ac effeithlon mae’n bwysig i cael set o egwyddorion arweiniol. Dylai aelodau:

- sicrhau bod eu gweithredoedd yn adlewyrchu yr hyn a ystyrir yn fuddiannau gorau’r Uned Cyfeirio Disgyblion a’i disgyblion

- mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd

- ar ôl eu penodi neu ethol, mynychu unrhyw hyfforddiant perthnasol

- ar ôl eu penodi neu ethol, ymgyfarwyddo gyda gwaith yr Uned Cyfeirio Disgyblion a chadw’r wybodaeth hon yn gyfredol

- cynnal eu gwybodaeth o bolisi, rheoliadau a chanllawiau addysg cyfredol ac ehangu eu sgiliau trwy gymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant pwyllgor rheoli cyfan a digwyddiadau eraill

- arddangos ymrwymiad i gyfle cyfartal ac adlewyrchu hynny wrth ddatblygu a chymhwyso'r polisïau y mae'n ofynnol i'r Uned Cyfeirio Disgyblion eu cael mewn perthynas â rhyw, gogwydd rhywiol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, anabledd neu oedran (fel y diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010)

- darparu cefnogaeth a her i'r rhai hynny sydd â chyfrifoldebau proffesiynol yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, gan gofio cyfrifoldeb y pwyllgor rheoli ei hun i hybu cyflawniad addysgol o safon uchel

- bod yn ymwybodol o, a gweithredu o fewn, cyfyngiadau cyfrifoldebau'r pwyllgor rheoli a, ble bo angen, chwilio am a rhoi ystyriaeth ddigonol i wybodaeth, cyngor a chanllawiau proffesiynol

- parchu'r cyfrifoldeb yr athro/athrawes mewn gofal i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd i reoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion

- ufuddhau i gyd gyfrifoldeb trwy gefnogi penderfyniadau democrataidd y pwyllgor rheoli

- parchu hawl y pwyllgor rheoli i bennu bod rhai materion yn gyfrinachol, cyfyngu trafodaeth ynghylch materion o'r fath, boed y tu mewn neu y tu allan i gyfarfodydd y pwyllgor rheoli, yn unig i gyd aelodau ac mewn achosion priodol, yn unig i drafodaethau oddi mewn i bwyllgorau'r pwyllgor rheoli

- datblygu gweledigaeth glir i'r Uned Cyfeirio Disgyblion gyda chydweithwyr ar y pwyllgor rheoli

- sicrhau bod eu cyfraniad i benderfyniadau pwyllgor rheoli yn canolbwyntio ar yr hyn sydd o fudd gorau i'r disgyblion, a bod yn ymwybodol y dylai lles disgyblion fod yn flaenoriaeth bob amser o ran amddiffyn plant, iechyd a diogelwch a helpu pob plentyn i ddatblygu i'w botensial llawn

- annog a chyfranogi mewn systemau sy'n darparu cyfathrebu agored ac effeithiol, gan helpu i sefydlu gweledigaeth eglur o ddatblygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion

- bod yn ymwybodol bod pob aelod yn gyfartal a pharchu barn eraill ac adlewyrchu hynny yn eu hymddygiad wrth ddelio gyda chyd aelodau

- bod yn ymwybodol eu bod yn atebol i rieni/gofalwyr ac eraill yn y gymuned leol a cheisio dyfeisio deialog effeithiol gyda phawb sydd â diddordeb yng ngweithrediad a safonau'r Uned Cyfeirio Disgyblion

- ufuddhau i bob protocol a gweithdrefn a gytunir gan ALl a'r pwyllgor rheoli

- bod yn agored, gonest, gwrthrychol, teg a diduedd ac yn barod i wynebu'r rhagfarnau personol a all amharu ar wneud penderfyniadau gwybodus gan gynnwys gwrthdaro buddiannau

- cofio eu bod yn gynrychiolwyr y pwyllgor rheoli ac yn rhan o gorff corfforaethol. Mae'r cynnydd ym mhoblogrwydd safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn her benodol mewn perthynas â hyn. Mae'n

synhwyrol felly i aelodau gynnal lefel neilltuol o arwahanrwydd ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, gan y gallai hyn greu gwrthdaro/sefyllfaoedd anodd yn y dyfodol.

**Beth yw fy atebolrwydd cyfreithiol fel aelod?**

Dyma gwestiwn sy'n cael ei ofyn yn aml gan aelodau newydd a phrofiadol. Nid oes gan aelodau pwyllgor rheoli unrhyw bwerau i weithredu fel unigolion, oni bai bod tasgau penodol wedi'u dirprwyo iddyn nhw gan eu pwyllgor rheoli. Mae swyddogaethau pwyllgor rheoli yn cael eu hymarfer yn gorfforaethol. Hynny ydy, mae'r penderfyniadau a wneir yn benderfyniadau i'r pwyllgor rheoli cyfan, gan ymarfer cyfrifoldeb ar y cyd. Yn gyffredinol, caiff hawliadau eu gwneud yn erbyn y pwyllgor rheoli / yr Uned Cyfeirio Disgyblion fel cyrff yn hytrach nag yn erbyn aelodau unigol. Felly, ar yr amod bod aelodau'n gweithredu'n ddidwyll, yn ymarfer gofal rhesymol a synnwyr cyffredin, ac yn gweithredu oddi mewn i'w pwerau fel aelod o'r pwyllgor rheoli, ni ddylai unrhyw atebolrwydd personol godi.

Os ydych yn aelod o gorff proffesiynol, fel cyfrifydd, fe all atebolrwydd godi o ganlyniad i chi gael eich ystyried i fod wedi gweithredu yn rhinwedd eich swydd broffesiynol tra hefyd yn gweithredu fel aelod ar yr un pryd. Os yw hyn yn berthnasol i chi fe fyddai'n ddoeth gofyn i'ch corff proffesiynol beth yw'r ffordd orau o ddiogelu eich buddiannau proffesiynol.

Dylai pwyllgorau rheoli wirio gyda'u ALI i sicrhau bod cynlluniau yswiriant digonol mewn bodolaeth.

**Pa ymrwymiad a ddisgwylir gan aelod pwyllgor rheoli?**

Dylai'r cyfrifoldebau a ymgymerir gan aelodau pan gânt eu penodi neu eu hethol gael eu hystyried yn ofalus iawn. Bydd angen i chi allu ymrwymo eich diddordeb, brwdfrydedd ac amser i'r tasgau sydd angen eu cyflawni fel aelod. Bydd disgwyl i chi:

- gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd (neu lai[6]) er y gallwch ymddiswyddo ar unrhyw adeg y dymunwch
- mynychu o leiaf un cyfarfod pwyllgor rheoli yn ystod pob tymor ac efallai y bydd gofyn i chi fynychu cyfarfodydd pwyllgorau
- bod yn barod i gymryd rhan fel aelod o bwyllgor gwaith neu bwyllgor o bryd i'w gilydd
- bod yn barod i neilltuo amser i ymweld â'r Uned Cyfeirio Disgyblion er mwyn arsylwi ar waith yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn uniongyrchol. Fel person lleyg, ni ofynnir i chi wneud arfarniadau, dim ond cael gwell dealltwriaeth o waith yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- mynychu cyrsiau hyfforddi a drefnir gan yr ALI sydd ar gael am ddim ac a fydd yn gwella eich sgiliau ac yn cyfrannu at eich datblygiad personol.

**Alla'i gael amser o'r gwaith oherwydd fy mod yn aelod pwyllgor rheoli?**

[6] Gall y pwyllgor rheoli benderfynu gosod tymor mewn swydd byrrach ar gyfer un neu ragor o gategorïau o aelodau, ond dim llai na blwyddyn. Nid yw hynny'n berthnasol i aelod o staff sy'n athro/athrawes â chyfrifoldeb am uned – gall yr unigolyn hwnnw ddal y swydd honno cyhyd ag y bo'n gweithredu fel athro/athrawes â chyfrifoldeb am yr uned.

Mae Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 yn rhoi hawl i weithwyr cyflogedig gael amser o'r gwaith i gyflawni dyletswyddau cyhoeddus – cyn belled â bod yr amser hwnnw'n "rhesymol" yn yr amgylchiadau neilltuol. Os ydych yn gyflogedig fe ddylech holi'ch cyflogwr beth yw'r amodau ar gyfer rhyddhau gweithwyr cyflogedig o'r gwaith ac a fyddai hyn gyda neu heb dâl.

**Sut all aelod sicrhau bod rhywbeth yn cael ei drafod yn y cyfarfod?**

Dylai'r aelod ofyn i'r mater gael ei osod ar yr agenda er mwyn iddo gael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor rheoli. Dylech roi gwybod i'r clerc, yn ysgrifenedig, ymhell cyn dyddiad y cyfarfod. Gall fod gan y pwyllgor rheoli 'ddyddiad cau' ar gyfer ceisiadau o'r fath, felly holwch beth ydy hynny.

Y peth gorau i'w wneud yw siarad gyda'r Cadeirydd ac, os yn briodol, yr athro/athrawes mewn gofal am faterion yr hoffech eu rhoi ar yr agenda, cyn y cyfarfod. Os oes tri neu fwy o aelodau eisiau trafod mater mae ganddynt hawl i wneud cais ysgrifenedig i'r clerc i alw cyfarfod a rhaid i'r clerc drefnu cyfarfod cyn gynted a bo hynny'n resymol ymarferol.

**Ydw i'n gallu ymweld â'r Uned Cyfeirio Disgyblion ar unrhyw adeg?**

Bydd gan lawer o Unedau Cyfeirio Disgyblion bolisi neu brotocol ar gyfer ymweliadau gan aelod pwyllgor rheoli. Mae'n bwysig bod aelod o staff gyda gwiriad DBS yn mynd gydag aelodau'r Pwyllgor Rheoli pan maen nhw'n ymweld âr Uned Cyfeirio Disgyblion. Dylech drefnu amser a dyddiad gyda'r athro/athrawes mewn gofal sydd yn gyfleus i chi a'r ysgol er mwyn i chi gael dysgu am waith o ddydd i ddydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Dylech ddweud wrth yr athro/athrawes mewn gofal beth ydy pwrpas eich ymweliad pan yn trefnu'r apwyntiad. Unwaith i ddyddiad gael ei drefnu, ceisiwch beidio â'i newid ond os oes rhaid gohirio yna gadewch i'r Uned Cyfeirio Disgyblion wybod cyn gynted ag y gallwch.

Os ydych yn aelod pwyllgor rheoli, ond hefyd â phlentyn yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, mae'n siŵr eich bod yn ymwelydd cyson â'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn eich rôl fel rhiant. Os felly, mae'n arbennig o bwysig bod yr athro/athrawes mewn gofal a staff yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn gallu gwahaniaethu'n glir rhwng eich ymweliadau 'swyddogol' fel aelod pwyllgor rheoli i'r Uned Cyfeirio Disgyblion a'ch ymweliadau fel rhiant.

Pan gyrhaeddwch yr Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer, eich ymweliad dylech chi fynd i ddweud wrth y swyddfa dderbynfa neu'r ysgrifennydd eich bod wedi cyrraedd. Mae hyn nid yn unig yn fater o gwrteisi i'r athro/athrawes mewn gofal a'r staff, ond hefyd yn cyfrannu at ddiogelwch yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

Bydd y mwyafrif o athrawon wrth eu bodd yn cwrdd ag aelod pwyllgor rheoli sy'n dangos gwir ddiddordeb yn eu gwaith a gwaith eu disgyblion. Fodd bynnag, mae'n siŵr y byddant eisiau paratoi ar gyfer eich ymweliad, er enghraifft trwy drefnu enghreifftiau o waith y disgyblion i chi eu gweld. Bydd llawer o athrawon yn croesawu aelod pwyllgor rheoli yn gwylio eu gwersi ayb. Dylai pwrpas eich ymweliad gael ei gytuno, ac fe fydd yr athro/athrawes mewn gofal yn hysbysu'r aelod o staff y byddwch yn eu cyfarfod. Nid arolygydd mohonoch ac ni ddylech ymddwyn fel y byddech yn disgwyl i arolygydd ymddwyn.

Ar y cyfan mae aelodau yn darganfod bod eu hymweliadau gyda'u Huned Cyfeirio Disgyblion yn brofiadau cadarnhaol a chyfoethog. Ond, os oes pryderon yn codi o'ch ymweliad yna dylid eu trafod gyda'r athro/athrawes mewn gofal ac ni ddylid eu trafod yn uniongyrchol gyda'r staff na'r disgyblion.

Gall fod yn ddefnyddiol pe bai aelodau unigol yn paratoi adroddiad byr o'u hymweliad i gyfarfod nesaf y pwyllgor rheoli. Mae'n ddefnyddiol i'r pwyllgor rheoli gynhyrchu fformat adrodd safonol.

Dylech weithio i sefydlu perthynas gyda staff sy'n cynnig cefnogaeth a beirniadaeth adeiladol ble bo'n addas. Mae'r berthynas yn annhebygol o fod yn gynhyrchiol os nad yw staff yn eich gweld fel rhywun sy'n haeddu eu hymddiriedaeth a'u hyder, sydd yn cymryd amser i'w adeiladu a gellir ei ddinistrio gyda sylw anffodus neu weithred annoeth.

**Beth ydy fy nghyfrifoldeb dros ddiogelwch personol?**

Wrth gyflawni eich dyletswyddau, dylech chi, drwy'r iaith a ddefnyddiwch a'ch gweithrediadau, ddelio gydag eraill yn barchus, teg, effeithiol, prydlon, effeithlon a sensitif hyd eithaf eich gallu. Fe gynghorir i sicrhau eich diogelwch personol eich bod:

- yn glynnu at bolisi diogelwch yr Uned Cyfeirio Disgyblion bob amser
- nad ydych o dan unrhyw amgylchiadau yn rhoi manylion personol i unrhyw un o'r bobl ifanc na'u teuluoedd
- yn ymarfer integriti, gonestrwydd, diwydrwydd ac ymddygiad priodol bob amser
- datgelu ar y cyfle cynharaf unrhyw berthynas, amgylchiadau neu fuddiannau busnes arbenig allai ddylanwadu neu lesteirio, neu y gellir ei weld gan eraill yn dylanwadu neu lesteirio, eich safle, barn neu wrthrychedd
- darparu cefnogaeth ac arweiniad mewn modd cyfeillgar anfeirniadol sydd yn galluogi'r pwyllgor rheoli i wneud penderfyniadau
- cadw unrhyw wybodaeth a ddarperir i chi yn gyfrinachol, ac eithrio materion amddiffyn plant na ellir eu cadw'n gyfrinachol ond dylid eu datgelu yn y dull cywir (cyfeirier at adran 2.5 Rhan 2 o'r Llawlyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion).
- ymgysylltu gyda person ifanc dan 18 oed ar sail un i un dim ond os oes oedolyn cyfrifol yn bresennol.

**Ydw i'n gallu cael fy niswyddo os ydw i'n gwneud rhywbeth o'i le?**

Ydych. Gall y person neu'r corff a'ch penododd eich diswyddo, h.y. gall yr ALI ddiswyddo aelodau ALI. Os ydych yn aelod cymunedol neu aelod rhiant wedi penodi, gall y pwyllgor rheoli basio cynnig i'ch diarddel o'ch swydd. Fodd bynnag, ni allwch gael eich diswyddo gan eich cyd aelodau am nad ydynt yn eich hoffi; neu am nad ydych yn ddigon da. Ni ellir diswyddo aelodau rhieni neu staff a etholwyd, yn amodol ar y darpariaethau sy'n dilyn.

Fe allwch fodd bynnag gael eich gwahardd rhag gwasanaethu fel aelod ond fe nodir y rhesymau am y gwaharddiad mewn cyfraith.[7]

**Beth all fy ngwahardd?**

Mae'r seiliau ar gyfer gwahardd person rhag gwasanaethu fel aelod pwyllgor rheoli wedi eu nodi'n glir. Fe gewch eich gwahardd rhag gwasanaethu fel aelod, er enghraifft:

- os ydych dan 18 oed ar adeg eich penodiad neu etholiad
- os ydych yn methu â mynychu cyfarfodydd y pwyllgor rheoli llawn am chwe mis neu fwy (oni bai bod y pwyllgor rheoli wedi rhoi caniatâd i chi beidio â mynychu)
- os ydych wedi'ch ethol fel aelod staff ac yn gadael eich cyflogaeth yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- os ydych, fel aelod cymuned, yn gymwys i fod yn aelod staff yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion neu yn aelod etholedig o'r awdurdod.
- os ydych yn fethdalwr neu'n cael eich cyhoeddi'n fethdalwr yn ystod eich cyfnod yn aelod pwyllgor rheoli
- os ydych wedi cael, neu yn cael eich dedfrydu i garchar am gyfnod o ddim llai na thri mis neu fwy heb y dewis o ddirwy
- os ydych yn cael eich cadw dan orchymyn Deddf Iechyd Meddwl 1983
- os ydych yn gwrthod cais gan y pwyllgor rheol am wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Nid yw hwn yn rhestr ddiffiniol, i ceir gwybodaeth bellach yn y Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014 (Atodlen 2).[12]

**Atal aelodau dros dro**

Gall y pwyllgor rheoli, trwy gynnig, atal aelod rhag mynychu pob, neu unrhyw gyfarfod neu bwyllgor o'r pwyllgor rheoli am dymor sefydlog o hyd at chwe mis. Dylai'r atal dros dro fod ar un neu ragor o'r seiliau canlynol – bod yr aelod:

[7] Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2709/schedule/2/made/welsh

[12] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2709/schedule/2/made/welsh

- os yw’n cael ei dalu i weithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, yn destun gweithdrefnau disgyblu yn berthynol i’w gyflogaeth/chyflogaeth

- yn destun gweithdrefnau unrhyw lys neu dribiwnlys, lle y gallai’r canlyniad olygu ei fod ef/hi wedi’u hanghymwyso rhag parhau yn eu swydd fel aelod o’r pwyllgor rheoli yn unol â’r wybodaeth yn y rheoliadau

- wedi gweithredu mewn modd sydd yn anghyson gydag ethos yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac wedi dwyn, neu yn debygol o ddwyn anfri ar yr Uned Cyfeirio Disgyblion, y pwyllgor rheoli neu swydd yr aelod

- neu mae’r aelod wedi torri ei ddyletswydd/dyletswydd o gyfrinachedd i’r Uned Cyfeirio Disgyblion, ei staff neu’r disgyblion.

## 1.10 Beth yn union mae pwyllgorau rheoli yn ei wneud?

**Y rôl atebol**

Mae aelodau pwyllgor rheoli yn gweithio gyda’i gilydd gyda’r athro/athrawes mewn gofal a’r staff yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion i sicrhau bod yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn darparu addysgu a dysgu llwyddiannus i’r disgyblion ac yn codi safonau. Mae pwyllgorau rheoli yn bodoli fel bod Unedau Cyfeirio Disgyblion yn atebol yn gyhoeddus i rieni/gofalwyr ac i’r ALl am yr hyn y maen nhw’n ei wneud, am y canlyniadau maen nhw’n eu cyflawni ac am y modd y mae adnoddau yn cael eu dyrannu.

Disgwylir i'r aelodau:

1. **Cytuno ar amcanion a gwerthoedd yr Uned Cyfeirio Disgyblion**
    - cytuno ar yr hyn y mae’r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ceisio ei gyflawni i’r disgyblion a’r gymuned a wasanaethir
    - penderfynu ar ba agweddau o’r Uned Cyfeirio Disgyblion sydd bwysicaf i ddatblygiad disgyblion a sicrhau bod y rhain yn cael eu rhannu gyda rhieni/gofalwyr ac eraill yn y gymuned leol, er enghraifft:
        - ymddygiad disgyblion
        - datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion ○ cyfle cyfartal a pherthynas dda ○ diogelwch yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

**2. Cytuno ac adolygu polisïau (lle mae’n briodol) yn berthynol i nodau, pwrpasau ac arferion yr Uned Cyfeirio Disgyblion**

Nodir rhestr o bolisïau a dogfennau statudol angenrheidiol isod, yn ogystal â pholisïau a dogfennau a argymhellir:

## POLISIAU STATUDOL

(yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'w benderfynu, mabwysiadu a'i weithredu gan bwyllgorau rheoli gydag Awdurdodau Lleol)

**POLISI CODI TÂL**
*Arweiniad i Gyrff Llywodraethu ynghylch Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol - Llywodraeth Cymru*

**GWEITHDREFNAU CWYNO**
*- Adran 29 o Ddeddf Addysg 2002*
*- Gweithdrefnau Cwyno Corff Llywodraethu Ysgol - Cylchlythyr Rhif: 11/2012*

**POLISI CWRICWLWM**
*- Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014 - Gwybodaeth am y Cwricwlwm - Llywodraeth Cymru*

Rheoliad 23, Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014.

## POLISIAU STATUDOL

**POLISI CYDRADDOLDEB** – *yn cynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb (amcanion i'w llunio bob pedair blynedd)*
- *Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011* - Cynllunio ar gyfer Cynyddu Derbyniadau i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau – Cylchlythyr 15/2004
- *Hyrwyddo Cydraddoldeb i Bobl Anabl mewn Ysgolion - Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2007*
- *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion – Cylchlythyr Rhif: 47/2006 (Paragraffau 2.8-2.12)*

**POLISI IECHYD A DIOGELWCH**
Yn cynnwys gwybodaeth am addysg plant ag anghenion meddygol a rheoli meddyginiaethau - Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd - Llywodraeth Cymru

*- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a Pholisi Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith*

**POLISI CYFLOGAU** – *i'w hadolygu'n flynyddol*
Dogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol (adran 3)

**RHEOLI PERFFORMIAD** – i'w hadolygu'n flynyddol
- Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 (rheoliad 5)
- Canllawiau rheoli perfformiad – Llywodraeth Cymru
- *Adran 175 Deddf Addysg 2002*

**DISGYBLAETH DISGYBLION (YN CYNNWYS POLISI GWRTH FWLIO)**
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgol 1998
- *Adran 88 o Ddeddf Addysg ac Arolygwyr 2006*
- Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion - Cylchlythyr Rhif: 47/2006 (Adran 3)
- *Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-Fwlio 2011 - Llywodraeth Cymru*

**POLISI DIOGELU** – *i'w hadolygu'n flynyddol*
Pob ysgol
- *Deddf Addysg 2002, Adran 175*
- *Atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc – Cylchlythyr Rhif: 34/2002*
- Cadw dysgwyr yn ddiogel - Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002 – Dogfen ganllawiau 158/2015
- *Gwrthsafiad a pharch - datblygu cydlyniant cymunedol 2015 – Dogfen ganllawiau 196/2016*
- *Protecting children from radicalisation: the prevent duty – Department for Education, UK Government*

**POLISI ADDYSG RHYW**
*Adran 352 (1) (c) o Ddeddf Addysg 1996*
*Canllawiau ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd - Llywodraeth Cymru*

**POLISI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG / ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**
- Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Cymru) 1999
- *Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig (Darparu Gwybodaeth gan Awdurdodau Addysg Lleol) (Cymru)* 2002
- Llawlyfr o Arferion Da ar gyfer Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig - Llywodraeth Cymru - Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

**GWEITHDREFNAU DISGYBLU, YMDDYGIAD, GALLU A CHWYNION STAFF**
- *Adran 35 a 37 o Ddeddf Addysg 2002*
- *Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006*
- *Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007*
- *Canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol ar weithredu gweithdrefnau effeithiol i ddisgyblu a diswyddo staff*
- *Diogelu plant mewn addysg: Canllawiau ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin a wneir yn erbyn athrawon a staff eraill*
- *Medrusrwydd penaethiaid – canllawiau i ysgolion - Dogfen ganllawiau 153/2014*
- *Medrusrwydd staff addysgu mewn ysgolion - canllawiau i ysgolion - Dogfen ganllawiau 111/2013*

## DOGFENNAU STATUDOL

(Yn ofynnol yn ôl y gyfraith bod dyletswydd ar y pwyllgor rheoli a'r ALl i gynhyrchu, mabwysiadu a chyhoeddi)

**CYNLLUN HYGYRCHEDD** – i'w hadolygu bob tair blynedd
- *Deddf Cydraddoldeb 2010*
- *Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau – Canllawiau Llywodraeth Cymru*

*235/2018*

**CYNLLUN GWEITHREDU'N DILYN AROLYGIAD YSGOL**
- *Deddf Addysg 2005* (*Rhan 4, Adrannau 39 a 43)*
- Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006

**TREFNIADAU ASESU** – *i'w hadolygu'n flynyddol*
*Trefniadau asesu statudol ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3 – Llywodraeth Cymru*
*Asesu a gosod targedau – Llywodraeth Cymru*

*Canllawiau 232/2018*

**GYRFAOEDD ADDYSG**
Rhaid i bob Uned Cyfeirio Disgyblion uwchradd ddarparu addysg cysylltiedig â gwaith yn ystod cyfnodau allweddol 3 a 4.
*Adran 101 o Ddeddf Addysg 2002*

**CYNLLUN CYHOEDDI RHYDDID GWYBODAETH**
- Adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 – Cynllun Cyhoeddi Model i Ysgolion – Cylchlythyr Rhif: 09/2004*

**OFFERYN LLYWODRAETHU**
- Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014

**COFNODION A PHAPURAU A YSTYRIWYD YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGOR RHEOLI 'i BWYLLGORAU**
Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014
N.B. Ar wahân i gyfeiriadau at faterion y mae'r aelod pwyllgor rheoli yn ei bennu'n gyfrinachol

**COFRESTR DISGYBLION A COFRESTR BRESENNOLDEB**
- *Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010*

**COFRESTR BUDDIANNAU BUSNES YR ATHRO/ATHRAWES MEWN GOFAL AC AELODAU'R PWYLLGOR RHEOLI** – *i'w hadolygu'n flynyddol -*
*Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010*

**CYNLLUN DATBLYGU** - i'w hadolygu'n flynyddol
*Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014*
*Cynllun Datblygu Ysgolion - Dogfen ganllawiau 155/2014*

**GOSOD TARGEDAU**
*- Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 a chanllawiau cysylltiedig - Asesu a gosod targedau – Llywodraeth Cymru*

## POLISIAU ANSTATUDOL A ARGYMHELLIR

**POLISI PLANT SY'N DERBYN GOFAL**
*Gwneud gwahaniaeth – Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion*
*Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal*

**POLISI RHEOLI ADEILADAU**
- Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999
- Rheoli asbestos mewn ysgolion - Llywodraeth Cymru

**POLISI TOILEDAU YSGOLION** *Toiledau ysgol: canllaw arfer da ar gyfer ysgolion yng Nghymru - Llywodraeth Cymru*

**POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL / POLISI E-DDIOGELWCH**

**POLISI CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU**
*Addysg Camddefnyddio Sylweddau - Dogfen Ganllawiau 107/2013*

**DATBLYGIAD CYNALADWY**
*Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang*

**POLISI CHWYTHU CHWIBAN**
*Gweithdrefnau ar gyfer Chwythu Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Model - Cylchlythyr Rhif: 036/2007*
*Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998*
*Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013*

**POLISI BWYD A FFITRWYDD YSGOL GYFAN**
*Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013*

| |
|---|
| *Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir: canllawiau statudol – Llywodraeth Cymru Datblygu Polisi Bwyd a Ffitrwydd Ysgol Gyfan – Llywodraeth Cymru* |
| **POLISI DIOGELU DATA**<br>- *Deddf Diogelu Data 1998 (gydag ystyrieaeth i'r wyth egwyddor diogelu data yn Atodlen 1) a GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) yr UE*<br>- *Ffeiliau Ffeithiau ar Gyfraith Gwybodaeth – Llywodraethwyr Cymru* |

| **DOGFENNAU ANSTATUDOL A ARGYMHELLIR** |
|---|
| **CYNLLUN DATBLYGU AELOD PWYLLGOR RHEOLI** |
| **ADRODDIAD HUNANWERTHUSO'R UNED CYFEIRIO DISGYBLION**<br>https://www.estyn.llyw.cymru/inspection/inspection-guidance/unedau-cyfeirio-disgyblion |

**3. Dylanwadu a monitro'r cynllun datblygu a monitro adnoddau**

Er nad oes gan Unedau Cyfeirio Disgyblion gyllideb ddirprwyedig, cynghorir ALl i ofyn am farn y pwyllgor rheoli a'u hystyried mewn perthynas â'r gyllideb a gwariant.Fe fydd hyn yn sichau bod modd cyflawni nodau'r Unedau Cyfeirio Disgyblion gan ddefnyddio'r adnoddau mor effeithiol â phosibl.

**4. Cyflwyno cwricwlwm**

Nid oes rhaid i Unedau Cyfeirio Disgyblion gyflwyno'r cwricwlwm llawn ond rhaid sicrhau ei fod yn eang a chytbwys. Cyfeiriwch os gwelwch yn dda at Rannau 4.5 am fanylion pellach.

**5. Monitro ac adolygu cynnydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion**

Mae gan y pwyllgor rheoli ddyletswyddau clir i sicrhau bod canlyniadau a llesiant disgyblion yn gwella neu yn cael eu cynnal ar safon briodol a derbyniol. Fe fydd angen i'r pwyllgor rheoli adolygu'r modd y mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn gweithio i weld os yw'n adeiladu ar gryfderau ac yn delio gyda gwendidau. Mae hyn yn galw am gynllunio gofalus, arsylwi ar yr Uned Cyfeirio Disgyblion ar waith a gwneud arfarniadau am ansawdd y ddarpariaeth, gyda chymorth arbenigedd proffesiynol oddi mewn a thu allan i'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

**6. Sicrhau bod anghenion disgyblion unigol yn cael eu cwrdd, gan gynnwys anghenion ychwanegol**

Mae gan rai plant anghenion addysgu penodol a gall eraill fod yn neilltuol o alluog neu â doniau arbennig iawn. Cyfrifoldeb y pwyllgor rheoli ydy sicrhau bod yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn talu sylw i anghenion pob plentyn. Fe fydd angen cymryd i ystyriaeth hefyd bod darpariaeth arbennig ar gael i ddisgyblion gydag anghenion neilltuol iawn.

## 7. Recriwtio a dewis staff

Yr ALl sydd yn gyfrifol am ddethol y staff y mae eisiau i weithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Ond disgwylir i'r pwyllgor rheoli chwarae rhan mewn penodiadau allweddol (gweler Rhan 4).

## 8. Rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am yr Uned Cyfeirio Disgyblion

Mae'n bwysig bod y pwyllgor rheoli yn rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr a phobl leol eraill sydd â diddordeb am gynnydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Er nad oes gofyniad i'r pwyllgor rheoli gynhyrchu adroddiad blynyddol i rieni/gofalwyr, fe fyddai'n cael ei ystyried yn arfer da. Gall pwyllgorau rheoli ddilyn *Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011* am gynnwys.[8]

## 9. Cynhyrchu cynlluniau gweithredu gwelliant yn dilyn arolwg

Mae pob Uned Cyfeirio Disgyblion yn cael eu harolygu gan Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi, Estyn, o leiaf unwaith bob saith mlynedd. Fe fydd yr arolygwyr yn cynnal cyfarfodydd gyda staff, rhieni/gofalwyr ac aelodau'r pwyllgor rheoli i adrodd ar yr hyn maen nhw wedi ei ddarganfod. Lle mae angen gwelliannau i Uned Cyfeirio Disgyblion, rhaid i'r pwyllgor rheoli a'r ALl ysgrifennu cynllun gweithredu i ddangos sut y mae eu Huned Cyfeirio Disgyblion y mynd i wella perfformiad.

## 10. Bwyta'n iach

Gall Unedau Cyfeirio Disgyblion chwarae rôl allweddol mewn datblygu arferion bwyta'n iach. Mae *Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Safonau a Gofynion Maeth) (Cymru) 2013*[14] yn pennu safonau maeth ar gyfer cinio ysgol a gofynion bwyd a diod trwy gydol y diwrnod, yn cynnwys brecwast a hyd at 6pm.

Mae'r *Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion* yn rhan o'r *Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009*[9] ac yn seiliedig ar y Canllawiau Awch am Fywyd blaenorol. Mae gan aelodau pwyllgorau rheoli y dyletswyddau canlynol o dan y Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion:

- gweithredu i hyrwyddo bwyta ac yfed
- adrodd ar y camau a gymerwyd yn adroddiadau
- sirchau bod darpariaethau bwyd a diod trwy gydol y diwrnod ysgol yn cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion
- annog derbyn prydau bwyd a llaeth ysgol am ddim
- cymryd camau rhesymol i amddiffyn hunaniaeth disgyblion sydd yn derbyn prydau neu laeth am ddim yn yr ysgol. Gall arolygwyr Estyn siarad gyda disgyblion, nodi unrhyw doriadau amlwg ac fe fyddan nhw'n adrodd ar y trefniadau a wneir i hyrwyddo bwyta ac yfed iach o dan Ddangosydd Ansawdd 4.2 yn berthynol i ofal, cefnogaeth ac arweiniad.

Gall yr adnoddau canlynol fod yn ddefnyddiol i aelodau pwyllgorau rheoli:

[8] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1939/contents/made/welsh [14] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/1984/contents/made/welsh
[9] http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/3/contents/enacted/welsh

- Canllaw i Benaethiaid a Llywodraethwyr[10]
- Pecyn Cymorth Tystiolaeth Bwyta'n Iach mewn Ysgolion[11]
- Bwyta'n Iach mewn Ysgolion a Gynhelir: Canllaw Statudol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu[12]

**11. Sefydlu a chynnal cysylltiadau cadarnhaol gyda'r gymuned fusnes leol a'r gymuned ehangach**

Gall Unedau Cyfeirio Disgyblion elwa oddi wrth gysylltiadau da gyda busnesau lleol ac yn aml mae yna bobl o fusnesau lleol ar bob pwyllgor rheoli. Mae cysylltiadau rhwng busnesau lleol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r cymunedau ehangach yn gallu bod o fudd i'r disgyblion, staff a rhieni/gofalwyr.

**12. Cefnogi'r penderfyniadau a wneir o ddydd i ddydd gan yr athro/athrawes mewn gofal**

Fe fydd yr athro/athrawes mewn gofal yn gyfrifol o ddydd i ddydd am y staff, yr adnoddau a'r disgyblion yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, oddi mewn i'r polisïau y cytunwyd arnyn nhw gan y pwyllgor rheoli a'r ALI.  Dylai penderfyniadau'r athro/athrawes mewn gofal adlewyrchu'r polisïau neilltuol y mae'r pwyllgor rheoli a'r ALI wedi cytuno arnyn nhw o flaen llaw.

**13. Hybu effeithiolrwydd y aelod pwyllgor rheoli**

Ar adegau, efallai na fyddwch yn cytuno gydag aelodau eraill y pwyllgor rheoli, y Cadeirydd neu gyda phenderfyniad y mwyafrif o'ch cydweithwyr. Cofiwch mai cyrff corfforaethol ydy pwyllgorau rheoli ac unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, mae'n ddyletswydd ar bob aelod i gadw at y penderfyniad a'i gefnogi. Mae hon yn rheol y mae'n rhaid i chi ei chadw gan nad oes gan aelodau unigol unrhyw bwerau i weithredu yn unigol o dan y gyfraith.

Fe fydd pob aelod yn cael cyfnodau lle maen nhw'n teimlo nad oes ganddyn nhw ddigon o wybodaeth neu'r sgiliau personol i ddelio'n iawn gyda phroblem yn gywir ac efallai yn ofnus i ofyn cwestiynau. Rhan o'r broblem ydy hyder. Daw hyder pan fo aelodau unigol yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n ddigon da ar gyfer galwadau'r swydd a delio gyda phroblemau wrth iddyn nhw godi, fel rhan o dîm y pwyllgor rheoli. Fe fydd mynychu hyfforddiant perthnasol yn helpu i adeiladu hyder, fel ag y bydd trafod unrhyw bryderon sydd gennych gydag aelodau eraill a dysgu oddi wrthyn nhw.

## 1.11 Atebolrwydd cyhoeddus a aelodau pwyllgor rheoli

### I bwy mae'r pwyllgor rheoli yn atebol?

Mae pwyllgorau rheoli yn atebol i'r ALI, ond mae'r ddau yn gyfrifol am godi safonau ac yn atebol i rieni/gofalwyr ac eraill yn y gymuned am ymddygiad a safonau eu Hunedau Cyfeirio Disgyblion.  Mae aelodau pwyllgor rheoli, boed wedi'u penodi neu eu hethol, yn gyfrifol am bob mater yn berthynol i'w Huned Cyfeirio Disgyblion ac am y penderfyniadau y maen nhw'n eu gwneud fel aelodau'r pwyllgor

[10] http://wlga.cymru/healthy-eating-in-schools
[11] http://wlga.cymru/healthy-eating-in-schools
[12] http://learning.gov.wales/resources/browse-all/healthy-eating-in-mainted-schools/?skip=1&lang=cy

rheoli. Rhaid iddyn nhw allu esbonio a chyfiawnhau eu gweithredoedd i unrhyw un sydd â diddordeb hyfyw yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

## 1. Rhieni/gofalwyr

Rhieni/gofalwyr sydd yn gyfrifol am sicrhau bod eu plant yn mynychu'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Cyfrifoldeb yr ALl yw sicrhau bod rhieni'n / gofalwyr yn cydymffurfio gyda'r ddyletswydd hon. Mae ansawdd addysg plentyn yn dibynnu'n helaeth ar y berthynas sy'n bodoli rhwng rhieni / gofalwyr a'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

### Cyfrifoldebau'r pwyllgor rheoli tuag at rieni/gofalwyr

Wrth weithredu er budd gorau disgyblion, mae'r pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyffredinol yn y bartneriaeth Uned Cyfeirio Disgyblion/rhiant. Ymysg y cyfrifoldebau statudol penodol hyn i rieni/gofalwyr mae:

- darparu, ar gais, yr hyn sy'n cael ei ddysgu i'w plentyn
- darparu crynodeb o raglen addysg rhyw yr Uned Cyfeirio Dsgyblion, os gofynnir amdano, fel bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'u hawl i dynnu eu plentyn o'r rhaglen neu o ran ohoni
- darparu adroddiad ar ddatblygiad a chyflawniadau eu plentyn, o leiaf unwaith y flwyddyn
- cynnal cofnodion disgybl cywir
- cyhoeddi polisïau ynglŷn ag ymddygiad disgyblion
- darparu ar gyfer eu harolygu yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, yr holl bapurau heb fod yn gyfrinachol a ystyriwyd yng nghyfarfodydd y pwyllgor rheoli
- cyhoeddi polisi ar gyfer codi a hysbysu tâl am y gweithgareddau hynny y caniateir, yn eithriadol, i godi tâl amdanynt
- delio yn effeithiol a theg gyda chwynion am y cwricwlwm
- cyd weithio mewn arolygiadau.

Pan fo Uned Cyfeirio Disgyblion yn cael ei harolygu gan Estyn, rhaid i'r Uned Cyfeirio Disgyblion drefnu cyfarfod rhwng y rhieni/gofalwyr a'r Arolygydd Cofrestredig sydd yn arwain y tîm arolygu. Pan hysbysir Uned Cyfeirio Disgyblion o arolwg fe fyddan nhw'n derbyn gwybodaeth am sut i gynnal holiadur cyn arolwg ar-lein cyfrinachol o'r holl rieni/gofalwyr. Rhaid i Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd sicrhau bod yr adroddiad arolwg ar gael i rieni/gofalwyr yn ogystal â'r cynllun gweithredu a lunir gan yr ALl a'r pwyllgor rheoli mewn ymateb i'r adroddiad.

### Perthynas yr Uned Cyfeirio Disgyblion gyda rhieni/gofalwyr

Rhaid i bwyllgorau rheoli gynnwys nifer penodedig o riant aelodau wedi eu hethol.

Er bod y fframwaith gyfreithiol i gefnogi partneriaeth Uned Cyfeirio Disgybion/rhieni yn bwysig, mae gan nifer o bwyllgorau rheoli drefniadau eraill lle mae modd hysbysu, ymgynghori a chynnwys rhieni/gofalwyr yng ngwaith yr Uned Cyfeirio Disgybion. Yr athro/athrawes mewn gofal sydd yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r trefniadau hyn, fel rhan o reolaeth yr Uned Cyfeirio Disgybion o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y pwyllgo rheoli ydy adolygu, gyda'r athro/athrawes mewn gofal, pa mor effeithiol y mae'r rhain yn hyrwyddo perthynas dda rhwng yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'r rhieni. Mae rhai agweddau o'r berthynas yn haeddu sylw neilltuol:

- delio gyda phryderon rhieni: dylai'r pwyllgor rheoli sicrhau bod trefniadau yn bodoli, trwy'r gweithdrefnau cwyno, fel bod modd i rieni/gofalwyr sydd â chwestiwn neu bryder am gynnydd, ymddygiad neu lesiant eu plentyn sicrhau bod y mater yn cael ei drafod yn effeithiol ac effeithlon gan y staff

- dylai'r pwyllgor rheoli sicrhau bod ganddo bolisi clir yn delio gydag ymweliadau rhieni i'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

**Hawliau rhieni/gofalwyr**

- Gwaharddiadau: pan wneir penderfyniad i wahardd plentyn, mae gan y rhieni/gofalwyr yr hawl i wneud cynrychiolaeth i'r pwyllgor rheoli. O ran gwaharddiadau parhaol, gall rhieni/gofalwyr apelio i banel apêl annibynnol, os ydy'r pwyllgor disgyblu yn cefnogi'r penderfyniad i wahardd y plentyn yn barhaol.

- Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) / Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): o dan y Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru statudol, gall rhieni/gofalwyr wneud cynrychioliadau i'r pwyllgor rheoli neu i'r ALI mewn perthynas ag AAA/ADY eu plentyn, all alw am ystyriaeth y pwyllgor rheoli

## 2. Y consortiwm rhanbarthol a'r cynghorydd her

Mae consortia rhanbarthol yn darparu gwasanaethau gwelliant ysgolion ar ran yr Awdurdodau Lleol yn yr ardal a wasanaethir ganddyn nhw. Rôl y pwyllgorau rheoli ydy datblygu capasiti ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ar draws y rhanbarth trwy gefnogi athrawon ac arweinwyr i ddysgu oddi wrth ei gilydd a sicrhau'r canlyniadau gorau i bob dysgwr.[13]

Rôl y cynghorydd her ydy cynorthwyo'r athro/athrawes mewn gofal trwy ddarparu persbectif allanol, her adeiladol a chefnogaeth effeithiol i helpu'r athro/athrawes mewn gofal a'r pwyllgor rheoli yn eu gwaith. Mae eu rôl yn gweithredu fel catalydd dros newid i sicrhau gwell canlyniadau i ddysgwyr a darparu mynediad i arferion alroesol.

[13] *Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol*, Welsh Government http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/national-model-for-regional-working/?skip=1&lang=cy

Fe fydd cynghorwyr her yn bennaf gyfrifol am adeiladu capasiti mewn sefydliadau addysgol a sicrhau eu bod wedi'u harfogi i gynnal gwelliannau mewn codi safonau a darparu darpariaeth addysgol o ansawdd uchel. Mae'r rôl yn canolbwyntio ar:

- cefnogi hunanwerthusiad a gwelliant
- broceru cefnogaeth ac ymyrraeth effeithiol
- datblygu arweinyddiaeth
- adeiladu capasiti i gydweithredu.

### 3. Disgyblion

Prif ystyriaeth yr Uned Cyfeirio Disgyblion yw llesiant ac addysg y disgyblion sy'n mynychu'r Uned Cyfeirio Disgyblion

Gall y pwyllgor rheoli, o dro i dro, fyfyrio i ba raddau y mae penderfyniadau neilltuol y maen nhw wedi eu gwneud wedi esgor ar fanteision gweladwy i ddisgyblion.

### 4. Y Gymuned

Mae pwyllgorau rheoli yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am y defnydd o'r Uned Cyfeirio Disgyblion a chynnig gweithgareddau ychwanegol[14]. Rhaid i bwyllgorau rheoli hefyd hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

### 5. Llywodraeth Cymru

Gwirfoddolwyr yw aelodau ac maen nhw'n gweithredu heb dâl. Gyda'r ALl, maen nhw'n gyfrifol am sicrhau bod polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael eu gweithredu a rhaid iddyn nhw gyflawni eu dyletswyddau oddi mewn i'r ffiniau a osodwyd gan ddeddfwriaeth y DU. Rhaid i bwyllgorau rheoli felly:

- cydymffurfio gyda rheoliadau, polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion ac addysg

- cydweithio gydag Estyn ynglŷn â threfniadau ar gyfer arolygu'r Uned Cyfeirio Disgyblion

- cadw at ei gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru pan fo'r Uned Cyfeirio Disgyblion a lywodraethir yn destun mesurau arbennig yn dilyn arolwg gan Estyn

- gosod a chyhoeddi targedau

- gweithredu'n rhesymol wrth gyflawni ei fusnes a'i gyfrifoldebau.

---

[14] *Ysgolion Bro*, Llywodraeth Cymru (34/03)
http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/circulars/Community_Focused_Schools__Circ1?skip=1&lang=cy

**ATODIAD A – Arfer Effeithiol**

Mae gwybodaeth ddefnyddiol am arfer effeithiol mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ar gael yn y canlynol:

Estyn

**Cefnogi disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn effeithiol**[15] Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Ceredigion wedi cryfhau perfformiad disgyblion a gwella lles. Mae pwyllgor rheoli yn monitro safonau, y cwricwlwm a pholisïau ac yn herio'r UCD o ran ei pherfformiad. Mae hunanarfarnu'n drylwyr ac mae system gadarn ar waith i olrhain cynnydd a monitro camau gweithredu.

**Helpu pobl ifanc i reoli emosiynau a pherthnasoedd**[16]
Mae North Wales Adolescent Service, yn gweithio o dan Therapi Ymddygiad Dialectegol (DBT), wedi gweithio gyda chydweithwyr ym maes seicoleg a gwaith cymdeithasol i ddatblygu grŵp medrau i helpu i addysgu pobl ifanc ynglŷn â sut i reoli eu hemosiynau, perthnasoedd gyda phobl eraill ac ymdopi â sefyllfaoedd anodd yn effeithiol.

**Dadansoddiad o anghenion hyfforddi a datblygu pwyllgorau rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion**[17]

Mae ansawdd yr addysgu, ar sail arsylwi gwersi, yn eitem ar adroddiad yr athro/athrawes mewn gofal i'r pwyllgor rheoli.

Mae'r dyfyniad canlynol yn dangos y mathau o gwestiynau y gallai pwyllgorau rheoli eu gofyn mewn perthynas ag adroddiad yr athro/athrawes mewn gofal:

- ym mha wahanol gategorïau y gosodir gwersi?
- pa feini prawf a ddefnyddir i bennu'r categorïau?
- pwy sy'n mynd ati i arsylwi?
- sut y safonir y categoreiddio?

O ran darparu her, gallai'r aelodau fod wedi gofyn:

---

[15] https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cefnogi-disgyblion-ag-anghenion-cymdeithasol-emosiynol-ac-ymddygiadolyn-effeithiol

[16] https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/helpu-pobl-ifanc-i-reoli-emosiynau-pherthnasoedd

[17] http://gov.wales/docs/dcells/publications/170815-pru-management-committees-cy.pdf

- ai'r un garfan o athrawon a arsylwyd ar gyfer y naill flwyddyn a'r llall (er mwyn penderfynu a oedd yr un staff bellach yn perfformio'n well neu ai staff newydd oedd wrth wraidd y gwelliant)?
- os yr un garfan oedd hon, ai'r un bobl oedd yn gyfrifol am y gwersi yn y categori llai da yn y naill flwyddyn a'r llall?
- os yr un bobl oedd y rhain, pa gamau a gymerwyd/gymerir i wella eu perfformiad?
- pa gamau a gymerir/ a gaiff eu cymryd os na fydd ansawdd eu haddysgu'n gwella?

Gallai'r aelodau hefyd fod wedi gofyn a oedd unrhyw beth y byddai modd iddynt ei wneud i gefnogi arweinyddiaeth yr Uned Cyfeirio Disgyblion, yn enwedig ynghylch ymdrin ag unrhyw danberfformio parhaus.

## 2.1 Cyfrifoldebau corfforaethol y pwyllgor rheoli

Fel y crybwyllwyd yn Rhan 1, nid oes gan aelodau pwyllgorau rheoli unrhyw bwerau i weithredu fel unigolion, oni bai bod tasgau penodol wedi eu dirprwyo iddyn nhw gan eu pwyllgor rheoli. Gweithredir swyddogaethau pwyllgor rheoli yn gorfforaethol. Hynny yw, mae'r penderfyniadau wedi eu gwneud gan y pwyllgor rheoli cyfan, gyda chyfrifoldeb ar y cyd. Mae'n dilyn felly mai un o dasgau pwysicaf y pwyllgor rheoli yw sefydlu ei hun fel tîm effeithiol.

Tîm da ydy tîm lle mae'r aelodau yn ymwybodol o gryfderau'r naill a'r llall ac yn cefnogi ei gilydd. Maen nhw'n eiddgar i ddysgu a datblygu. Maen nhw'n gwybod beth yw'r rheolau sy'n gwarchod gofod pob unigolyn ac yn eu parchu. Maen nhw'n derbyn cyfrifoldeb am ansawdd eu gwaith gyda'i gilydd. Gellir ystyried bod tîm yn effeithiol:

- mae'n adeiladu ar ei gryfderau ac yn penodi aelodau newydd pan fo angen gwell amrywiaeth o sgiliau a phrofiad arno
- mae'n canolbwyntio ar yr hyfforddiant a datblygiad parhaus ei holl aelodau
- os yw'n rhannu'r llwyth gwaith a rhoi cyfle i unigolion ddatblygu rolau arbenigol
- os yw cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni'n gorfforaethol
- os yw amser yn cael ei neilltuo bob yn hyn a hyn ar gyfer adolygu effeithiolrwydd y tîm.

### i) Gweithio ar ddatblygu cryfderau'r Pwyllgor Rheoli

Mae effeithiolrwydd pwyllgor rheoli amlwg yn dibynnu ar yr ansawdd, sgiliau a phrofiad y mae ei aelodau'n eu cynnig i wasanaethu'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Ni all yr un pwyllgor rheoli fforddio cael ei effeithlonrwydd wedi'i lesteirio gan unigolion sydd heb gymhelliant neu sydd yn methu â rhoi'r ymroddiad sydd ei angen. Mae angen mwy o ymroddiad gan rai aelodau, yn arbennig y Cadeirydd. Rhaid i bob aelod fod yn barod i wasanaethu ar bwyllgor, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion a chymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad.

Gall yr Uned Cyfeirio Disgyblion greu cyfleoedd i annog rhieni ac eraill i gynnig eu hunain ar gyfer etholiad neu benodiad. Fodd bynnag, rhaid cyflwyno rôl aelodau yn gadarnhaol. Yn aml iawn mae pobl a fyddai'n dangos diddordeb yn tanbrisio'u hunain a'u cyfraniad posib. Efallai eu bod yn gwneud y camgymeriad o feddwl mai dim ond pobl gyda sgiliau mewn rheolaeth ariannol neu bersonél y mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn chwilio amdanynt. Beth sydd ei angen yw pobl sy'n deall bod addysg yn bwysig a bod Unedau Cyfeirio Disgyblion angen eu hamser, ymroddiad a phrofiad.

### ii) Hyfforddiant a datblygiad parhaus

I nifer, mae dod yn aelod pwyllgor rheoli yn brofiad anarferol, brawychus hyd yn oed. Dylai'r Uned Cyfeirio Disgyblion sefydlu trefn ar gyfer ymsefydlu aelodau newydd sy'n adeiladu ar unrhyw drefniadau ymsefydlu a hyfforddiant a gynigir gan yr awrdurdod lleol (ALl) neu'r consortiwm rhanbarthol (CRh). Dylai pob aelod newydd gael ei annog i fynychu sesiynau ymsefydlu. Dylai pwyllgorau rheoli sicrhau bod eu haelodau newydd yn derbyn pecyn gwybodaeth yn cynnwys:

- Llawyfr ar gyfer Pwyllgorau Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion
- adroddiad tymhorol diweddaraf yr athro/athrawes mewn gofal
- cynllun datblygu'r Uned Cyfeirio Disgyblion  adroddiad arolygu diweddaraf Estyn
- datganiadau polisi'r Uned Cyfeirio Disgyblion
- rhestr staff cyfredol
- rhestr o aelodau'r pwyllgor rheoli, gyda chrynodeb amdanynt
- yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor rheoli y flwyddyn nesaf
- cylch gorchwyl pob pwyllgor
- nodiadau briffio ar gyfer aelodau o'r ALl / CRh
- map o'r Uned Cyfeirio Disgyblion
- datganiad polisi ynglŷn ag ymweliadau â'r Uned Cyfeirio Disgyblion
- gweithdrefnau'r Uned Cyfeirio Disgyblion
- y rhaglen gyfredol o ddigwyddiadau hyfforddiant yr ALl / CRh.

Mae'n helpu i benodi cydweithiwr (mentor) profiadol i bob aelod newydd fel y gallant droi atynt am help a chyngor. Y Cadeirydd yw'r person gorau i ddewis aelodau gyda'r sgiliau sydd eu hangen i gymryd rôl 'mentor' ynghyd â rhoi amser i wneud y gwaith ychwanegol hwn.

Mae'r rhan fwyaf o aelodau yn elwa cryn dipyn wrth gynnal ymweliad ffurfiol yn gynnar gyda'r Uned Cyfeirio Disgyblion, cyn belled â'u bod yn cadw at y protocolau dan sylw. Gall hyn hefyd gynnwys cyfarfod gyda'r athro/athrawes mewn gofal a'r Cadeirydd. Mae argraff uniongyrchol o'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn rhoi cyd-destun a chefndir i'r papurau a'r trafodaethau y mae'r aelod yn rhan ohonynt mewn cyfarfodydd ac yn sail gadarn ar gyfer cymryd mwy o ran wrth wneud penderfyniadau.

Fe fydd pob aelod newydd yn gwerthfawrogi'n fuan bod polisïau a rheoliadau Llywodraeth Cymru sydd yn effeithio ar Unedau Cyfeirio Disgyblion, ac y mae'r pwyllgor rheoli eisoes yn uniongyrchol gyfrifol amdanyn nhw, yn newid yn aml. Dylai pob aelod felly geisio diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau yn rheolaidd. Bydd cymryd rhan mewn sesiynau diweddaru a briffio yn cyfrannu at effeithlonrwydd pob aelod ac yn helpu i wneud y gwaith o wasanaethu yn fwy buddiol.

### iii) Rhannu'r llwyth gwaith

Nid yw'n ymarferol i'r pwyllgor rheoli fynd i'r afael â'u tasgau i gyd yn ystod cyfarfod. O ganlyniad gellir dirprwyo rhywfaint o'r gwaith i bwyllgorau. Fodd bynnag mae'r cyfrifoldeb corfforaethol am bopeth a wneir ar ei ran yn aros gyda'r pwyllgor rheoli. Yn gyfreithiol ni ellir dirprwyo rhai materion (gweler adran 2.6). Rhinwedd mawr pwyllgorau, ar wahân i rannu'r llwyth gwaith, ydy eu bod yn rhoi cyfle i ragor o bobl gyfranogi ar lefel manwl mewn grwpiau llai

Fodd bynnag, mae sefydlu strwythur pwyllgor effeithiol yn gallu bod yn anodd. Mae angen deall y cylch gwaith yn glir a sefydlu ffiniau awdurdod. Dylai'r pwyllgor rheoli adolygu ei bwyllgorau, ei gylch gorchwyl

a’i aelodaeth, yn flynyddol. Mae hyn yn sicrhau bod gwaith pob pwyllgor yn parhau i fod yn berthnasol ac effeithiol, ac yn rhoi cyfle i aelodau newid rôl o bryd i’w gilydd.

Gall pwyllgorau rheoli benodi aelodau unigol i gymryd diddordeb mewn agwedd arbennig o’r cwricwlwm, er enghraifft llythrennedd neu rifedd, llesiant ayyb.

Agwedd bwysig ar gyfer llwyddiant unrhyw dîm ar gyfer y dyfodol yw datblygu sgiliau trwy annog aelodau i gymryd cyfrifoldebau, er enghraifft fel Cadeiryddion pwyllgorau.

**iv) Cyfrifoldebau corfforaethol**

Ni ddylai aelod unigol fyth anghofio’u cyfrifoldeb corfforaethol. Unwaith mae penderfyniad wedi ei wneud, mae’n ddyletswydd ar aelod o’r pwyllgor rheoli i lynu ato, gan gynnwys y rhai hynny nad oeddent yn cytuno gyda’r mwyafrif oedd yn cefnogi penderfyniad.

Ni ddylai aelodau ddatgysylltu eu hunain yn gyhoeddus rhag penderfyniadau dilys y pwyllgor rheoli dan unrhyw amgylchiadau. Ni ddylai aelodau chwaith drafod materion cyfrinachol y tu allan i’r cyfarfodydd. Rhaid i bob aelod fod yn ffyddlon i benderfyniadau’r mwyafrif ac, mewn achosion ble mae aelod arbennig yn anghytuno’n gryf gyda’r mwyafrif o’u cyd aelodau, ac yn darganfod na allant gefnogi’r penderfyniad, gallant ofyn i gael eu hanghytundeb wedi ei gofnodi yng nghofnodion cyfarfod.

## 2.2 Rôl y Cadeirydd a clerc

**Cadeirydd y pwyllgor rheoli**

Mae Cadeirydd y pwyllgor rheoli (a etholir yn flynyddol) yn chwarae rhan allweddol yn effeithiolrwydd y pwyllgor rheoli. Mae’r Cadeirydd yn arwain y pwyllgor rheoli ond nid oes ganddo unrhyw bŵer i weithredu ar ran y pwyllgor rheoli heb gyfarwyddiadau, ar wahân i mewn ambell achos o argyfwng.

Rôl y Cadeirydd yn anad dim yw:

- sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn effeithiol gan ddilyn gweithdrefnau cywir y pwyllgor rheoli
- ystyried a chymeradwyo’r agenda ar gyfer pob cyfarfod a sicrhau ei fod yn hylaw
- cyfathrebu gyda’r athro/athrawes mewn gofal a’r aelodau rhwng cyfarfodydd y pwyllgor rheoli  gweithredu fel llefarydd ar ran y pwyllgor rheoli lle bo angen
- sicrhau bod gwybodaeth a dogfennau a dderbynnir yn cael eu rhannu gyda’r pwyllgor rheoli.

Gall fod yn ddefnyddiol i Gadeiryddion fynychu hyfforddiant a gynnigir gan Awdurdodau Lleol sydd yn cynnwys gwybodaeth am gyfarfodydd effeithiol, sgiliau’r Cadeirydd aayb.

**Clerc y pwyllgor rheoli**

Fe fydd clerc y pwyllgor rheoli yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor rheoli. Gall rôl y clerc a’r trefniadau penodi amrywio o Uned Cyfeirio Disgyblion i’r llall. Penderfyniad yr ALl ydy pwy ddylai weithredu fel clerc, ac i benodi clerc. Yn gyffredinol, rhaid i’r clerc ymgynnull a mynychu cyfarfodydd y pwyllgor rheoli a chadw cofnod o’r materion pwysig a drafodir a’r penderfyniadau a wneir yn ystod y cyfarfod (gelwir y cofnod yn 'gofnodion'). Mae’r clerc hefyd yn sicrhau bod pob aelod, yr athro/athrawes â chyfrifoldeb a’r awdurdod yn derbyn rhybudd cywir o’r cyfarfodydd i ddod ac yn sicrhau bod gwaith y

pwyllgor rheoli wedi'i drefnu'n dda. Mae hefyd yn cadw cofrestr o aelodau'r pwyllgor rheoli ac yn adrodd ar unrhyw le gwag.

Dydy'r clerc ddim yn aelod o'r pwyllgor rheoli ac nid yw chwaith yn gymwys i gymryd rhan uniongyrchol mewn trafodaeth nac i bleidleisio. Fel rheol, telir cost y clerc o gyllideb y pwyllgor rheoli fel ag a gytunwyd gyda'r ALl.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn *Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) 2014*.[18]

## 2.3 Beth i'w ddisgwyl mewn cyfarfod pwyllgor rheoli

Fel a nodwyd yn gynharach yn Rhan 1, mae'n rhaid i bwyllgorau rheoli gynnal o leiaf un cyfarfod llawn bob tymor. Ond fe welwch fod aelodau yn mynychu llawer mw o gyfarfodydd na hyn, yn amrywio o bwyllgorau i weithgorau. Yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor rheoli yn y flwyddyn academaidd, fel arfer caiff y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu hethol, ac fe benodir aelodau i bwyllgorau ac fe gytunir ar y cylch gorchwyl. Mae'n ddefnyddiol trefnu dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn i ddod yn y cyfarfod hwn.

Er mwyn i bwyllgor rheoli fod yn effeithiol rhaid iddo reoli materion yn effeithiol.  Gallwch ddisgwyl:

- derbyn hysbysiad ysgrifenedig o ddyddiad, amser a lleoliad cyfarfod o leiaf bum diwrnod gwaith (ysgol) clir cyn dyddiad y cyfarfod
- ynghyd â'r hysbysiad o'r cyfarfod dylech dderbyn agenda sy'n rhestru'r materion sydd i'w trafod, yn ogystal â dogfennaeth ategol
- y bydd peth o'r busnes i'w drafod gan aelodau yn delio gyda materion pwysig, ond cyffredinol, er enghraifft trwsio adeilad yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- ffocws cyffredinol y cyfarfodydd fydd codi safonau a chanlyniadau disgyblion.

## 2.4 Agenda ar gyfer cyfarfodydd

Fe fydd y Cadeirydd, yr athro/athrawes mewn gofal a chlerc y pwyllgor rheoli yn paratoi rhestr o'r eitemau o fusnes sydd i'w trafod ym mhob cyfarfod. Gall aelodau'r pwyllgor rheoli ofyn i'r Cadeirydd osod mater ar yr agenda, cyn belled â'i fod yn rhoi rhybudd digonol. Os oes tri neu ragor o aelodau eisiau trafod pwnc, dylent hysbysu'r clerc mewn ysgrifen, a rhaid i'r clerc drefnu cyfarfod cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

Dylai cyfarfodydd y pwyllgor rheoli hefyd adlewyrchu rôl strategol, herio, cefnogi ac atebolrwydd y pwyllgor rheoli mewn perthynas â gwelliant a chodi safonau'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

Fe fydd y modd y mae'r agenda wedi ei strwythuro yn cael ei danategu gan y penderfyniadau y mae'r pwyllgor rheoli yn eu gwneud o ran dirprwyo cyfrifoldebau.

---

[18] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2709/pdfs/wsi_20142709_mi.pdf

Mae trefn yr eitemau ar yr agenda yn bwysig i:

(a) adlewyrchu prif ffocws gwaith y pwyllgor rheoli (b) dylanwadu ar ganlyniadau penderfyniadau.

Gall agenda wedi'i amseru gyfrannu at effeithlonrwydd cyfarfod trwy ganolbwyntio rhagor ar faterion allweddol a lleihau'r amser a dreulir ar eitemau arferol, er gwybodaeth neu'r rhai y gellir eu dirprwyo ar gyfer trafodaethau manylach.

Gall trafodaeth hirach ar eitem ar yr agenda gynorthwyo aelodau i baratoi a chyfrannu yn fwy effeithiol at y drafodaeth.

Fe fydd eitemau nodweddiadol ar yr agenda yn cynnwys:

1. Cyflwyniadau – croesawu aelodau newydd (*os yn berthnasol*)
2. Ymddiheuriadau am absenoldeb – *derbyniwyd a'u derbyn neu heb eu nodi yn y cofnodion*
3. Datgan buddiant mewn eitemau ar yr agenda
4. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion gwelliant yr Uned Cyfeirio Disgyblion:
   - Adroddiad gan yr athro/athrawes mewn gofal
   - Monitro a gwethuso perfformiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion
   - Presenoldeb
7. Adroddiadau pwyllgorau – *adborth gan y Cadeirydd yn seiliedig ar gofnodion ffurfiol cyfarfodydd pwyllgorau blaenorol*
8. *Adroddiadau gan staff*
9. *Adroddiadau gan ddisgyblion/llais disgyblon*
10. Diogelu
11. Adroddiad/diweddariad gan yr ALl/CRh
12. Hyfforddiant a datblygiad
13. Gohebiaeth
14. Eitemau a ystyrir yn gyfrinachol – *er enghraifft, gwaharddiadau disgyblion*
15. Unrhyw fater arall (os cytunir i'w dderbyn)
16. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Er mwyn i chi wybod beth i'w ddisgwyl, mae'r paragraffau a ganlyn yn amlinellu rhai rhannau pwysig i'w cofio am bob agenda.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Mae cofnod swyddogol pob cyfarfod (y cofnodion) yn cofnodi enwau pob aelod sy'n bresennol yn y cyfarfod. Bydd y clerc yn pasio llyfr presenoldeb i bob aelod ei arwyddo i ddangos eu bod wedi mynychu. Lle mae aelod wedi anfon ymddiheuriad, dylai cofnodion cyfarfod y pwyllgor rheoli gofnodi caniatâd y pwyllgor rheoli i'r absenoldeb. Os yw aelod wedi methu â mynychu cyfarfodydd y pwyllgor rheoli heb ganiatâd y pwyllgor rheoli am chwe mis fe all gael ei wahardd.

Mae'n anodd iawn i bwyllgor rheoli fod yn effeithiol oni bai bod presenoldeb da yn ei gyfarfodydd. Ar y llaw arall, mae pawb yn derbyn bod yna adegau pan na allwch fod yn bresennol, oherwydd ymrwymiadau busnes neu deuluol neu ymrwymiad arall neu oherwydd eich bod yn sâl. Mae'n syniad da i rybuddio'r clerc neu'r Cadeirydd os na allwch fynychu cyfarfod, a rhoi eich rhesymau dros hyn. Nid yn unig mae hyn yn fater o gwrteisi i'r Cadeirydd ond, os oes nifer o aelodau yn absennol o gyfarfod penodol, fe all y nifer sy'n bresennol fod yn rhy ychydig i wneud unrhyw benderfyniadau. Gelwir y nifer lleiaf o aelodau sy'n rhaid bod yn bresennol fel 'cworwm'. Y cworwm ar gyfer cyfarfod yw un hanner (i'r rhif cyfan nesaf) o'r pwyllgor rheoli heb gynnwys unrhyw swydd wag.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Y cofnodion yw'r cofnod swyddogol o'r prif faterion a drafodir mewn cyfarfod ac unrhyw benderfyniadau a wneir. Y clerc sy'n ysgrifennu'r cofnodion ac mae'n bwysig iawn bod cofnod ysgrifenedig y clerc o gyfarfod yn cyd-fynd gyda chof yr aelodau o'r hyn a ddigwyddodd. Ar ddechrau cyfarfod fe fydd y Cadeirydd yn gofyn i aelodau gadarnhau bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir o'r hyn a drafodwyd, y penderfyniadau a wnaethpwyd a'r camau gweithredu y cytunwyd arnyn nhw. Weithiau, fe all bod yna gamgymeriad mewn eitem ac fe allwch dynnu sylw'r Cadeirydd ato er mwyn iddo/i gael ei gywiro yn y set nesaf o gofnodion. Er mwyn penderfynu os yw'r cofnodion yn gofnod gwir o'r cyfarfod diwethaf, bydd yna gynigydd ac eilydd i gadarnhau hyn, a rhaid i'r Cadeirydd arwyddo neu ynydu bob tudalen o'r cofnodion. Rhaid i'r pwyllgor rheoli ddarparu copi o gofnodion, rhai drafft neu wedi eu harwyddo, lle y gofynnir gan yr ALI, a rhaid iddynt fod ar gael yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion i'w gweld gan bwy bynnag sydd am eu gweld.

**Materion yn codi o'r cofnodion**
Fe fydd y Cadeirydd yn tywys yr aelodau drwy'r cofnodion, dudalen wrth dudalen. Os oes eitem yr hoffech holi amdano neu ofyn am wybodaeth bellach amdano, gallwch wneud hynny ar yr adeg hwn.

**Datganiad buddiant mewn eitem ar yr agenda**
Efallai bod eitemau ar yr agenda sydd yn gwrthdaro gyda buddiannau aelodau a bydd angen iddyn nhw adael y cyfarfod. Rhaid datgan hyn yn y cyfarfod.[19]

**Materion gwelliant yr Uned Cyfeirio Disgyblion (e.e. adroddiad yr athro/athrawes mewn gofal)**
Fel arfer bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd datblygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion gyda phwyslais ar gynllunio a gwerthuso. Bydd yn cyfeirio at unrhyw faterion y gofynnwyd yn benodol i'r athro/athrawes mewn gofal adrodd arnynt mewn cyfarfod blaenorol. Bydd hefyd yn adrodd ar faterion yn ymwneud, er enghraifft, â iechyd a diogelwch, ymweliadau â'r ysgol, cyraeddiadau disgyblion a gwobrau ayyb.

**Monitro a gwerthuso perfformiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion**
Cyflwynir adborth gan yr athro/athrawes mewn gofal ar y cynllun datblygu a'r adroddiad hunanwerthuso (AH). Caiff unrhyw gynnydd sydd wedi ei wneud ei drafod a'i werthuso. Gellir gwahodd aelodau'r staff yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion i roi diweddariad ar eu maes pwnc neilltuol neu ar faterion y maen nhw'n arbenigo ynddyn nhw e.e. cyfranogiad disgyblion.

**Presenoldeb disgyblion** Fe fydd yr athro/athrawes mewn gofal yn hysbysu'r pwyllgor rheoli ar gyfraddau presenoldeb yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion a beth mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ei wneud i wella hyn. Mae rhagor o fanylion am bresenoldeb ar gael yn Rhan 4.

---

[19] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2914/pdfs/wsi_20052914_mi.pdf

**Adroddiadau pwyllgorau**
Cyflawnir llawer o waith y pwyllgor rheoli trwy roi tasgau penodol i bwyllgorau bach neu weithgorau. Fodd bynnag, rhaid i'w darganfyddiadau gael eu hadrodd i'r pwyllgor rheoli. Yn ddelfrydol fe ddylai'r adroddiadau hyn gynnwys datganiad byr o gasgliadau'r pwyllgor, y rhesymau dros y casgliadau hynny a chrynodeb byr o'r prif bwyntiau a drafodwyd.

**Adroddiadau gan staff**
Gall aelodau dderbyn adroddiadau gan staff yr Uned Cyfeirio Disgyblion ynghylch y cynnydd yn erbyn targedau a nodir yn y cynllun datblygu, a gwybodaeth/diweddariadau ar eu maes cwricwlwm yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

**Adroddiadau gan ddisgyblion / llais disgyblion**
Gwybodaeth a ddarperir ar sut mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ymgynghori/ymgysylltu gyda'r disgyblion yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, neu gyflwyniadau gan ddisgyblion.

**Diogelu**
Dylai'r athro/athrawes mewn gofal ddarparu diweddariad ar ddiogelu, a defnydd effeithiol y polisi yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, heb roi manylion penodol am ddisgyblion.

**Adroddiad gan yr ALI / CRh**
Gall yr ALI ddarparu diweddariad i'r pwyllgor rheoli am eu cyfrifoldebau statudol i'r Uned Cyfeirio Disgyblion, e.e. staffio, cyllideb ayyb.

**Hyfforddiant a datblygiad**
Fel arfer bydd yr eitem yma yn adrodd ar unrhyw raglenni hyfforddiant a datblygiad sydd ar gael gan eich ALI neu ddarparwr arall. Ceir rhywfaint o adborth hefyd gan aelodau eraill ynglŷn â chyrsiau a sesiynau diweddaru y maen nhw wedi eu mynychu.

**Gohebiaeth**
Dylech dderbyn adroddiad byr ar unrhyw ohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion neu'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf. Gall y rhain gynnwys llythyrau gan eich ALI, CRh, Llywodraeth Cymru neu unrhyw gorff neu berson arall.

Efallai bydd angen gwneud penderfyniad neu weithredu, ond bydd rhywfaint o ohebiaeth er gwybodaeth yn unig i'r aelodau neu'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Tra y gall y pwyllgor rheoli nodi'r wybodaeth hon, efallai nad oes angen penderfyniadau neu weithredu di-oed, er enghraifft:-

- cylchlythyrau a gyhoeddir gan Llywodraeth Cymru
- gwybodaeth gan yr ALI/CRh

O dro i dro fe fydd yna newidiadau mewn deddfwriaeth allai effeithio ar bwyllgor rheoli. Fel arfer bydd Llywodraeth Cymru yn dosbarthu manylion am y rhain a chanllawiau penodol eraill i ALI i'w copïo ar eich cyfer.

**Eitemau a ystyrir yn gyfrinachol**
Ystyrir cyfarfodydd pwyllgorau rheoli yn gyfarfodydd 'cyhoeddus', a chyn belled ag y mae'r agenda, cofnodion a gymeradwywyd (wedi'u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod gwir) ac unrhyw ddogfennau eraill a ystyriwyd mewn cyfarfod, rhaid iddyn nhw fod ar gael yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion i unrhyw un sydd yn dymuno eu harchwilio. Fodd bynnag, fe all y pwyllgor rheoli benderfynu bod gwybodaeth benodol yn gyfrinachol, er enghraifft y cofnodion ynglŷn â mater staffio. Mater i'r pwyllgor rheoli yw

penderfynu a all aelodau'r cyhoedd neu'r wasg fynychu eu cyfarfodydd. Fodd bynnag, pan fo'r pwyllgor rheoli yn ystyried materion sydd o natur gyfrinachol, bydd gofyn i unrhyw aelod o'r cyhoedd a'r wasg adael ar yr adeg honno.

Fel arfer mae cofnodion mewn dau ran, gyda'r materion cyfrinachol yn yr ail hanner. Pan gyrhaeddir rhan gyfrinachol yr agenda, dylid gofyn i bob un sydd ddim yn aelod, ag eithrio'r clerc a'r athro/athrawes mewn gofal (os nad yn aelod o'r pwyllgor rheoli) adael y cyfarfod (fel y penderfynir gan y pwyllgor rheoli). Mae'n bwysig nodi fodd bynnag bod yn rhaid i ran cyfrinachol y cofnodion fod ar gael os gofynnir amdanynt dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2002, er y bydd yn rhaid gorchuddio peth gwybodaeth er mwyn cwrdd ag anghenion y Ddeddf Diogelu Data.

Gweler rhagor o wybodaeth am gyfrinachedd yn Adran 2.5.

Byddwch yn derbyn adroddiad rheolaidd ar y nifer o waharddiadau, y rhesymau pam y gwaharddwyd disgyblion a chanlyniadau unrhyw apêl. Fe welwch na chaiff disgyblion unigol fyth eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod.

Caiff unrhyw fater yn ymwneud â'r staff ei adrodd i chi gan yr Athro/Athrawes mewn Gofal neu Gadeirydd. Os oes gennych 'fuddiannau' mewn unrhyw fater sy'n codi, allai wrthdaro gyda'ch prif ddyletswydd i'r Uned Cyfeirio Disgyblion ac yn dylanwadu ar y modd yr ydych yn trafod mater, rhaid i chi ddatgan hynny a gadael y cyfarfod.

**Unrhyw fater arall (os cytunir i'w dderbyn)**

Gall unrhyw fater arall (UFA) ganiatau i faterion brys, na ellid eu cynnwys ar yr agenda ffurfiol a ddosbarthwyd i'r holl aelodau mewn da bryd ar gyfer y cyfarfod, gael eu hystyried (os cytunir). Os caniateir UFA, mae'n arfer da i chi ofyn i'r Cadeirydd cyn y cyfarfod os ydych yn dymuno codi mater nad yw ar yr agenda. Os yw'n fater difrifol, byddai'n annheg disgwyl i aelodau ei drafod heb rybudd o flaen llaw, ac fe all y Cadeirydd benderfynu peidio â chaniatáu i'r mater gael ei drafod ar y pryd. Yn yr achos hwn, fe ddylech ofyn i'r Cadeirydd neu'r clerc ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf. Os oes mater brys yn codi, mae gan y Cadeirydd y pwerau i alw cyfarfod brys o'r pwyllgor rheoli.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd y cyfarfod i gytuno ar ddyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor rheoli sy'n gyfleus i bawb. Fodd bynnag, mae sawl pwyllgor rheoli nawr yn penderfynu dyddiad, amser a lleoliad ei gyfarfodydd, o flaen llaw, am y flwyddyn gyfan. Gellir cytuno ar hyn yng nghyfarfod olaf y flwyddyn academaidd ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Yn yr achos hwn byddwch yn cael eich atgoffa o'r dyddiad a gytunwyd o flaen llaw. Byddwch hefyd yn cael eich atgoffa o ddyddiad y cyfarfod nesaf yn eich copi o'r cofnodion y byddwch yn eu derbyn gan y clerc.

## 2.5 Cyfrinachedd

Fel aelod o'r pwyllgor rheoli, o bryd, i'w gilydd byddwch yn rhan o drafodaethau ble caiff gwybodaeth bersonol a sensitif iawn ei drafod. Oherwydd y sensitifrwydd hwn, fe ystyrir y math yma o drafodaethau yn gyfrinachol a gofynnir i unrhyw aelod o'r cyhoedd neu gynrychiolwyr o'r wasg sy'n bresennol yn y cyfarfod adael.

Mae gan bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaethau addysg ac sy'n dod i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd, p'un a ydynt wedi'u cyflogi gan yr awdurdod lleol neu beidio, rôl i'w chwarae mewn diogelu plant. Mae

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cryfhau'r trefniadau i ddiogelu plant, drwy osod dyletswydd i adrodd am bartneriaid perthnasol os bydd achos rhesymol dros amau bod plentyn mewn perygl. Mae'n ofynnol i bartneriaid gan gynnwys timau Addysg Iechyd, yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf a Throseddau Ieuenctid, hysbysu'r awdurdod lleol os oes ganddynt achos rhesymol i gredu bod plentyn mewn perygl o gam-drin, esgeulustod neu fath arall o niwed.

Yn achlysurol gall rhiant neu aelod arall o'r gymuned roi gwybodaeth i chi sydd yn berthnasol i'ch gwaith fel aelod o'r Pwyllgor Rheoli ar y ddealltwriaeth na fyddwch yn ei ailadrodd i neb arall, h.y. mae'r wybodaeth yn cael ei rhoi i chi 'yn gyfrinachol'. Mae hyn yn berthnasol pan gaiff gwybodaeth ei rhoi i chi 'yn gyfrinachol' yn y stryd neu ar fuarth yr ysgol neu yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli. Mae'n hanfodol i'ch enw da a'ch hygrededd personol nad ydych yn camddefnyddio'r rheol cyfrinachedd, ond dydy dyletswydd cyfrinachedd ddim yn absoliwt a gellir ei dorri lle mae hynny er lles gorau'r plentyn ac/neu lle mae'n rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl. Fe ddylech bob amser geisio bod yn dryloyw ynghylch yr amgylchiadau lle y gallai fod angen i chi rannu'r wybodaeth gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ac/neu'r heddlu.

Fe ddylai fod gan pob Uned Cyfeirio Disgyblion Uwch Berson Dynodedig (DSP) a fydd yn rhoi cefnogaeth i aelodau'r staff i gyflawni eu dyletswyddau diogelu ac a fydd yn cydlynu'n agos gyda gwasanaethau eraill fel gwasanaethau cymdeithasol yr Awdurdod lleol. Lle rydych yn amau bod plentyn yn dioddef, neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, y DSP ddylai fod y pwynt cyswllt cyntaf gan ddarparu cefnogaeth, cyngor ac arbenigedd yn yr uned wrth benderfynu a ddylid gwneud cyfeiriad drwy cydlynu gydag asiantaethau perthnasol.

## 2.6 Beth ellir ei ddirprwyo?

Rhaid i'r ALI ddirprwyo rhai o'i swyddogaethau i bwyllgorau rheoli:

- cynnal yr Uned Cyfeirio Disgyblion, e.e. monitro addysgu a dysgu, rheolaeth staff, disgyblion ac adnoddau o ddydd i ddydd, ymddygiad, llesiant, presenoldeb ayyb.
- delio gyda chwynion yn gwbl berthynol i'r cwricwlwm  cyfrifoldeb dros ddisgyblu disgyblion
- gwerthuso staff addysgu a chefnogi.

Ni all yr ALI ddirprwyo'r canlynol i'r pwyllgor rheoli:

- pwerau ymyrraeth yr ALI
- rheolaeth dros eiddo'r Uned Cyfeirio Disgyblion
- cyfarwyddyd yr ALI ar iechyd a diogelwch
- penodi, gwahardd neu ddiswyddo staff addysgu a staff nad ydyn nhw'n staff addysgu  gwario arian yr ALI a gafodd ei neilltuo gan yr ALI at ddibenion yr uned.

Gall y pwyllgor rheoli, os yw'n dymuno, ddirprwyo rhai o'i swyddogaethau i bwyllgor neu i'r athro/athrawes mewn gofal. Ni ellir dirprwyo'r canlynol i unrhyw un:

- penodi neu ddiarddel y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd
- diarddel aelodau a'r weithdrefn ar gyfer diarddel aelodau
- penodi a diarddel y clerc

- gwahardd aelodau □ sefydlu pwyllgorau
- adolygu’r offeryn llywodraethu
- penodi aelodau rhieni, aelodau cymuned ac aelodau nawdd □ rôl y Pwyllgor Rheoli mewn dirprwyo swyddogaethau.

Rhaid i’r pwyllgor rheoli ddirprwyo cyfrifoldeb dros ddisgyblu disgyblion i bwyllgor.

Gellir dirprwyo unrhyw faterion eraill i bwyllgor neu unigolyn. Pan gaiff materion eu dirprwyo rhaid adrodd i’r pwyllgor rheoli sy’n gyfrifol ar y cyd am bob mater a ddirprwyir.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Rhan 1, adran 1.6.

## 2.7 Is-bwyllgorau

Mae pwyllgor neu weithgor yn lle da i gyfnewid syniadau a gwneud gwaith mwy manwl y pwyllgor rheoli. Mae hefyd yn ddull o ddosbarthu gwaith y pwyllgor rheoli er mwyn ei rannu. Mae’n bosib y cewch wahoddiad i fod yn aelod o un o’r grwpiau hyn.

**Sefydlu pwyllgor**

Rhaid i gyfansoddiad, aelodaeth a gweithdrefnau adrodd pob pwyllgor gael ei benderfynu gan y pwyllgor rheoli. Gall yr aelodaeth hefyd gynnwys pobl sydd ddim yn aelodau. (dydy hyn ddim yn berthynol i’r pwyllgor disgyblu a gwahardd disgyblion). Mater i’r pwyllgor rheoli yw penderfynu a yw pobl sydd ddim yn aelodau yn cael pleidleisio. Penderfynir ar y pwerau a ddirprwyir i bob pwyllgor neu weithgor gan y pwyllgor rheoli. Rhaid i’r pwyllgor rheoli dderbyn argymhellion a phenderfyniadau a wneir gan y pwyllgorau a grwpiau gwaith ar ffurf adroddiad ffurfiol.

Rhaid i’r pwyllgor rheoli sefydlu pwyllgor i ddelio gyda disgyblu a gwahardd disgyblion, yn cynnwys tri neu bump aelod (a’r cworwm ydy tri), yn ogystal â gweithdrefnau, a dylid cael aelodaeth hefyd i ddelio gyda chwynion yn berthynol i’r cwricwlwm.

Gellir sefydlu pwyllgorau eraill i drafod manylion materion eraill fel:

- cwricwlwm a safonau

- eiddo, iechyd a diogelwch.

**Cylch gwaith**

Er mwyn sicrhau bod pwyllgorau yn 'ffit i bwrpas', yn effeithiol ac yn cyfrannu’n effeithiol i waith y pwyllgor rheoli, dylai pob un gael cylch gwaith sydd wedi ei gytuno. Mae cylch gwaith yn cynnwys dwy set o wybodaeth:

- datganiadau’n nodi’r rheolau sy’n clymu’r pwyllgor, gan gynnwys manylion ei gyfansoddiad, datganiadau am y nifer o aelodau sydd yn angenrheidiol ar gyfer cworwm fel y gellir gwneud

penderfyniadau a pha mor aml y cynhelir y cyfarfodydd. Dylid penodi isafswm o dri aelod ar bwyllgorau anstatudol a'r cworwm ydy 50% o'r aelodaeth, i'r rhif cflawn agosaf. Mae'n arfer da cael odrif o aelodau ar bwyllgorau gan fod hynny yn gymorth wrth bleidleisio

- y dyletswyddau a'r tasgau y bydd y pwyllgorau yn ymgymryd â nhw, a dynodiad o ffiniau ei bwerau.

Dylid penodi Cadeirydd i bob pwyllgor naill ai gan y pwyllgor rheoli neu, gall y pwyllgor ei hun ethol un os yw'r pwyllgor rheoli yn cytuno.

## 2.8 Gweithio mewn partneriaeth

Disgwylir i Unedau Cyfeirio Disgyblion weithio'n agos gydag ysgolion lleol, ac mewn rhai achosion, fel rhan o bartneriaeth ysgolion ar gyfer ymddygiad. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn gryf y dylai'r holl leoedd ar gyfer aelodau cymuned, neu'r rhan fwyaf ohonynt, gael eu llenwi gan ysgolion lleol neu, os yw'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn rhan o bartneriaeth ysgolion, gan gynrychiolwyr o'r partneriaethau hyn, e.e. penaethiaid, dirprwy benaethiaid a llywodraethwyr ysgolion sy'n perthyn.

Mewn rhai achosion, gall pwyllgor rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion gynnwys cynrychiolwyr o un ysgol leol yn unig fel aelodau cymuned. Byddai hyn yn briodol, er enghraifft, lle mae ysgol sy'n perfformio'n dda, gan gynnwys ysgol arbennig, yn gweithio'n agos gydag Uned Cyfeirio Disgyblion, o bosibl drwy rannu cyfleusterau neu arbenigedd rheoli ag Uned Cyfeirio Disgyblion sydd angen gwella ei pherfformiad yn ôl Estyn.

Os yw Uned Cyfeirio Disgyblion wedi'i lleoli mewn ysbyty, dylai'r Bwrdd Iechyd Lleol neu'r Ymddiriedolaeth GIG sy'n rheoli'r ysbyty enwebu un unigolyn neu fwy i lenwi lleoedd aelodau cymuned.

Gall yr heddlu lleol a sefydliadau ieuenctid o fewn y trydydd sector fod yn aelodau cymuned hefyd.

Fe fydd Unedau Cyfeirio Disgyblion yn aml yn gweithio oddi mewn i system aml ddisgyblaethol – tîm aml broffesiynol yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, nyrsus, seiciatryddion ayyb. Gall y timau yma ymateb i anghenion disgyblion sydd angen cymorth mwy nag un math o weithwyr proffesiynol.

## 2.9 Sut i oroesi eich cyfarfod

- Cofiwch – Roedd pawb yn aelod newydd unwaith.

- Yn eich cyfarfod cyntaf bydd angen i chi ddod i adnabod eich cyd aelodau, rhai, fel chi yn aelodau newydd. Weithiau gwneir trefniadau i grŵp o aelodau newydd gyfarfod yn gymdeithasol a chyflwyno'u hunain cyn cyfarfod y pwyllgor rheoli. Efallai y cewch aelod yn 'fentor' i'ch cefnogi trwy'r broses ymsefydlu. Hyd yn oed os nad ydych yn cwrdd â'ch cyd aelodau nes y cyfarfod, mae'r Cadeirydd yn siŵr o'ch croesawu ac efallai y bydd cyfle i bob aelod ddweud rhyw bwt amdano/amdani eu hun. Dylai'r rhan hwn o'r cyfarfod fod yn anffurfiol felly peidiwch â phoeni amdano o flaen llaw. Ceisiwch ganolbwyntio ar roi enwau ar yr wynebau o amgylch y bwrdd a nodi pwy sy'n eistedd yn ble, os yw hynny'n helpu. Os ydych yn teimlo'n ansicr neu'n bryderus mae'n siŵr bod y lleill yn teimlo'r un fath ... ac mae pawb angen cyfle i 'deimlo'n gartrefol' wrth ddod i

‘wybod y drefn'.

- Efallai yr hoffech ymgyfarwyddo cyn gwneud cyfraniad i’r cyfarfod, wedi’r cyfan nid cystadleuaeth ydyw i weld pwy all siarad gyntaf neu am y cyfnod hiraf. Cymerwch eich amser!

- Os ydych yn teimlo bod gennych gyfraniad i’w wneud, mae gennych yr un hawl ag unrhyw aelod arall i siarad. Does dim un aelod yn fwy na llai pwerus nac un arall – dim ond bod rhai yn fwy profiadol nac eraill. Cofiwch siarad trwy’r Cadeirydd; hynny yw, gwnewch eich sylwadau i’r Cadeirydd er eich bod yn siarad gyda cyd aelod.

- Efallai y gofynnir i chi os ydych yn fodlon gwasanaethu ar bwyllgor neu weithgor i ymchwilio un agwedd arbennig o fywyd yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Gellir gofyn i chi yn y cyfarfod cyntaf! Mae angen i chi ystyried yn ofalus iawn pa mor gyfforddus ydych chi ynglŷn â ffocws y pwyllgor neu weithgor y gallech gael gwahoddiad i fod yn rhan ohono. Mae yna achos da dros ddod yn rhan o grŵp sy’n canolbwyntio ar agwedd sydd eisoes yn gyfarwydd i chi ac yr ydych yn teimlo’n gyfforddus gydag ef. Os ydych yn hyderus, fodd bynnag, cofiwch bod ymgymryd â phwyllgor neu weithgor yn ffordd dda iawn o ddysgu’n gyflym iawn am bwnc sydd yn newydd iawn i chi. Fe fydd angen i chi feddwl pa ddull fydd orau i chi... a pheidio â chael eich perswadio i wneud rhywbeth nad ydych yn hapus.

- Peidiwch â phoeni os ydych yn teimlo na wnaethoch gyfrannu’n llawn yn eich cyfarfod cyntaf! Bydd digon o gyfleoedd eraill i ddod i adnabod eich cyd aelodau a gwneud cyfraniad i gyfarfodydd.

- mynychu hyfforddiant anwytho i aelodau newydd – mae’n ffordd ardderchog o ddysgu am eich rolau a’ch cyfrifoldebau newydd.

## 2.10 Cyfarfodydd effeithiol o'r pwyllgor rheoli

Er mwyn i gyfarfodydd y pwyllgor rheoli fod yn effeithiol, efallai y bydd y canlynol yn help i chi:

| FEL AELOD DYLECH DDISGWYL: | FEL AELOD DYLECH: |
|---|---|

| | |
|---|---|
| - agenda eglur a dogfennau perthnasol a fydd yn eich cyrraedd cyn y cyfarfod (o leiaf 5 diwrnod ysgol) dealltwriaeth glir o<br>- amcan (ion) y cyfarfod i bobl fod yn<br>- brydlon<br>- Cadeirydd sydd yn hynaws, yn cadw at yr agenda, amseru'r cyfarfod fel bod pob mater yn cael amser dilys yn ôl ei bwysigrwydd, yn gofyn am gyfraniadau gan yr holl aelodau, ac yn cadw trafodaethau i'r pwynt<br>- aelodau i fod yn oddefgar o amrywiol farn a safbwyntiau<br>- i'ch cyfraniad gael ei glywed<br>- i eraill gyfrannu i'r drafodaeth<br>- i'r broses gwneud penderfyniadau fod yn eglur a theg<br>- i aelodau gydweithio a bod eisiau i drafodaethau fod yn ffrwythlon<br>- i aelodau fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am y cofnod o farn a leisiwyd a'r penderfyniadau a wnaed. | • fod wedi darllen yr agenda, cofnodion a phapurau eraill a nodi'r eitemau yr hoffech wneud sylwadau arnynt neu ofyn cwestiwn i gael esboniad ar faterion<br>• fynd a'r papurau a'r nodiadau i'r cyfarfod<br>• fod yn brydlon<br>• wneud cyfraniadau perthnasol<br>• wrando ar, ac ystyried beth mae eraill yn ei ddweud<br>• dderbyn eich cyfran o'r cyfrifoldeb. |

## 2.11 Digwyddiadau neu gyfrifoldebau aelodau sydd angen sylw blynyddol

Mae rhai materion yn codi bob blwyddyn sydd angen gweithredu penodol gan y pwyllgor rheoli. Yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor rheoli yn y flwyddyn ysgol, a gynhelir yn Tymor yr Hydref fel arfer, yn gyffredinol, mae'r pwyllgor rheoli:

i) yn ethol swyddogion y pwyllgor rheoli: Cadeirydd
- Is-gadeirydd.

ii) yn penodi aelodau yn gyfrifol am:
- anghenio n dysgu ychwanegol
- camddiffyn / diogelu plant
- cydlynnu aelodau cyswllt ar gyfer datblygiad cwricwlwlm a meysydd eraill y cytunwyd arnyn nhw gan y pwyllgor rheoli.

iii) yn cadarnhau sefydliad neu barhad pwyllgorau'r pwyllgor rheoli.

Rhaid ystyried:

- cylch gwaith y pwyllgorau
- pwy sydd i wasanaethu ar y pwyllgorau
- gwneud trefniadau i'r pwyllgorau adrodd i'r pwyllgor rheoli
- gwneud trefniadau ar gyfer penderfynu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor rheoli yn ystod y flwyddyn
- bob blwyddyn, fe fydd angen i ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion adolygu eu canlyniadau arholiadau. Fe fydd angen i Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd adolygu asesiadau athrawon ar gyfer y cwricwlwm er mwyn gosod targedau, ar ffurf cynllun dysgu i'r disgyblion.

Eitemau eriall y gall y pwyllgor rheoli eu hystyried bob blwyddyn ydy:

- adolygu cynllun datblygu'r Uned Cyfeirio Disgyblion
- monitro presenoldeb disgyblion a staff (o ran y staff fe fyddai hyn yn fater allai effeithio'n generig ar absenoldeb staff yn hytrach nag ar amgylchiadau unigol)
- adolygu polisïau'n benodol i Unedau Cyfeirio Disgyblion
- adolygu gwaith y pwyllgor rheoli
- rheolaeth perfformiad yr athro/athrawes mewn gofal (a gyflawnir gan yr ALI ac a adroddir i'r pwyllgor rheoli).

Mae'n arfer da i greu rhestr wirio o'r tasgau ar gyfer y pwyllgor rheoli yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn academaidd. Mae hwn yn rhoi ffocws eglur ar gyfer trafodaeth mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Gellir personoli'r enghraifft ganlynol i fod yn addas i'ch pwyllgor rheoli.

| **GWEITHRED** | **PWY** | **PRYD (Rhowch ddyddiad cyfarfod)** |
|---|---|---|
| **MATERION TYMHOROL** | | |
| Canfod a threfnu hyfforddiant i aelodau a chlercod | | |
| Trefnu ymweliadau aelodau i'r Uned Cyfeirio Disgyblion | | |
| Cyfarfodydd y pwyllgor rheoli | | |
| Cyfarfod pwyllgorau | | |
| Derbyn adroddiadau gan y pwyllgorau | | |
| Derbyn adroddiad tymhorol yr athro/athrawes mewn gofal (cyn cyfarfod y pwyllgor rheoli) | | |
| Derbyn adroddiadau'r aelodau cyswllt | | |
| Cynllunio gweithredu yn dilyn arolwg (lle mae'n berthnasol) | | |

| | | |
|---|---|---|
| Monitro cynllun datblygu'r Uned Cyfeirio Disgyblion | | |
| Monitro adroddiad hunanwerthuso'r Uned Cyfeirio Disgyblion (AHW) | | |

| **GWEITHRED** | **PWY** | **PRYD (Rhowch ddyddiad cyfarfod)** |
|---|---|---|
| **UNRHYW ADEG O'R FLWYDDYN** | | |
| Trefnu hunan adolygiad a chysylltu'r cynllun gweithredu gyda phroses hunan werthuso'r Uned Cyfeirio Disgyblion | | |
| Monitro aelodaeth y pwyllgor rheoli a threfnu unrhyw etholiadau / penodiadau | | |
| Ymsefydlu aelodau newydd | | |
| Paratoi ar gyfer arolwg | | |
| Adolygu polisi amddiffyn plant | | |
| Ystyried ac adrodd ar effeithiolrwydd gwaith yr Uned Cyfeirio Disgyblion ar ran plant gydag anghenion dysgu ychwanegol | | |
| Adolygu dirprwyo swyddogaethau | | |
| Adolygu polisïau presennol a'u diwygio os oes angen | | |
| Derbyn adroddiadau staff perthnasol | | |

| **GWEITHRED** | **PWY** | **PRYD (Rhowch ddyddiad cyfarfod)** |
|---|---|---|
| **TYMOR YR HYDREF** | | |
| Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod cyntaf | | |
| Penodi pwyllgorau / gweithgorau ac adolygu aelodaeth a chylch gwaith | | |
| Adolygu aelodau cyswllt e.e. amddiffyn plant, diogelu, AAA/ADY | | |
| Gosod dyddiadau ar gyfer y flwyddyn | | |
| Gosod amcanion ar gyfer y pwyllgor rheoli am y flwyddyn | | |

| | | |
|---|---|---|
| Gyda'r ALI, sicrhau cyflwyniad polisi rheolaeth perfformiad gyda'r athro/athrawes mewn gofal | | |
| Llunio canllawiau rhyddid gwybodaeth | | |
| Derbyn nodyn ymweliad blynyddol y cynghorydd her | | |
| Sefydlu cyllideb a pholisi cyllid gyda'r ALI | | |
| Diweddaru cofrestr buddiannau busnes | | |
| Adolyugu nodau ac amcanion yr Uned Cyfeirio Disgyblion | | |

| GWEITHRED | PWY | PRYD (Rhowch ddyddiad cyfarfod) |
|---|---|---|
| **TYMOR Y GWANWYN** | | |
| Cytuno ar gynlluniau cwricwlwm ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf | | |
| Gofyn am farn yr ALI ynghylch ystyried a chytuno ar gytundebau lefel gwasanaeth (CLG) | | |
| Derbyn nodyn ymweliad y cynghorydd her (os na chafodd ei dderbyn yn nhymor yr hydref) | | |
| Ystyried cynnydd yn erbyn amcanion perfformiad | | |
| Ystyried oblygiadau adnoddau mewn trafodaethau gyda'r ALI | | |

| GWEITHRED | PWY | PRYD (Rhowch ddyddiad cyfarfod) |
|---|---|---|
| **TYMOR YR HAF** | | |
| Adolygu perfformiad / gweithdrefnau'r pwyllgor rheoli | | |
| Monitro presenoldeb disgyblion / staff / aelodau'r pwyllgor rheoli | | |
| Adolygu gwaharddiadau disgyblion yn ystod y flwyddyn | | |
| Adolygu digwyddiadau diogelu a threfniadau i gofnodi ac ymateb i ddigwyddiadau | | |
| Cynllunio gwaith blynyddol y pwyllgor rheoli yng nghyd-destun cynllun datblygu'r Uned Cyfeirio Disgyblion | | |

**ANNEX A – Cynnwys adroddiad gan yr athro/athrawes mewn gofal i aelodau'r pwyllgor rheoli**

Mae adroddiad yr athro/athrawes mewn gofal i'r pwyllgor rheoli yn un o'r prif gyfryngau a ddefnyddir i hysbysu'r aelodau am weithgareddau a datblygiadau'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

Yn ogystal â'r adroddiad, bydd pwyllgor rheoli wedi sefydlu pwyllgorau neu weithgorau ad-hoc gyda chyfrifoldeb i ystyried a thrafod meysydd penodol ac adrodd ar eu canfyddiadau i'r pwyllgor rheoli llawn ar gyfer ystyriaeth derfynol. Gall adroddiad yr athro/athrawes mewn gofal gyfeirio at y pwyllgorau / adroddiadau hyn ond does dim angen dyblygu eu cynnwys.

Bydd cynnwys adroddiad yr athro/athrawes mewn gofal i'r pwyllgor rheoli felly yn amrywio o uned i uned ac o un cyfarfod i'r llall, i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau neilltuol yr Uned Cyfeirio Disgyblion.  Beth bynnag fo cynnwys ac arddull yr adroddiad, mae Estyn yn argymell y dylai gynnwys gwybodaeth am:

- datblygiad disgyblion
- safonau a gyflawnir
- effeithlonrwydd rheolaeth adnoddau'r Uned Cyfeirio Disgyblion
- cynnydd mewn gweithredu cynllun datblygu'r Uned Cyfeirio Disgyblion a'r canlyniadau a'r targedau cytun.

Dylai adroddiad yr athro/athrawes mewn gofal felly gyfeirio at wybodaeth monitro a gwerthuso.

Dylai aelodau'r pwyllgor rheoli gytuno gyda'r athro/athrawes mewn gofal am yr wybodaeth Uned Cyfeirio Disgyblion allweddol a ddylai fod ar gael yn rheolaidd. Dylai gynnwys:

- gwybodaeth am berfformiad sydd yn sicrhau bod y aelodau mewn sefyllfa i drafod cynnydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion, neu'r diffyg cynnydd
- data perfformiad ar yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- gwybodaeth am ddeddfwriaeth a datblygiadau polisi lleol a chenedlaethol
- gwybodaeth (ar gyfer trafodaeth a phenderfynu) ar gynllunio datblygiadau yn y dyfodol.

Mae'n ofyniad cyfreithiol i bwyllgorau rheoli gyfarfod, o leiaf, bob tymor a bod yr athro/athrawes mewn gofal yn cyflwyno adroddiad tymhorol yn y cyfarfod hwnnw. Bydd pwyllgorau rheoli sydd yn cyfarfod yn amlach na'r isafswm angenrheidiol yn parhau i dderbyn adroddiad tymhorol, ond nid adroddiad ar gyfer pob cyfarfod. Rhaid i'r holl aelodau fod wedi derbyn yr adroddiad a'r holl ddogfennaeth arall ar gyfer y cyfarfod perthnasol h.y. o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

| Penawdau Pwnc | Tymor yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf | Pwyntiau er gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| **DISGYBLION** | - nifer ar y gofrestr<br><br>- graddau presenoldeb ac yn erbyn y targedau a osodwyd | - nifer ar y gofrestr<br><br>- graddau presenoldeb ac yn erbyn y targedau a osodwyd | - nifer ar y gofrestr<br><br>- graddau presenoldeb ac yn erbyn y targedau a osodwyd | |
| **STAFFIO**<br><br>Er mai cyfrifoldeb yr ALI ydy staffio, gallai aelodau'r pwyllgor rheoli barhau i gael diweddariad | - Trefniadaeth Uned Cyfeirio Disgyblion i gynnwys defnydd yr holl staff, maint dosbarthiadau ayyb.<br><br>- Absenoldebau staff<br><br>- Cyfrifoldebau staff – cwricwlwm ac allgyrsiol<br><br>- Sut y defnyddir staffio i adlewyrchu galwadau'r Cytundeb Gweithlu.<br><br>- Materion penodol eraill sydd angen eu hamlygu efallai | - Addasiadau i drefniadaeth yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn unig<br><br>- Absenoldebau staff<br><br>- Materion penodol eraill sydd angen eu hamlygu efallai | - Addasiadau i drefniadaeth yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn unig<br><br>- Absenoldebau staff<br><br>- Materion penodol eraill sydd angen eu hamlygu efallai | Argymhellir nad oes cyfeiriad o gwbl yn yr adroddiad at enw disgybl na staff oni bai bod hynny i ddiben llongyfarch h.y.<br><br>*Hoffwn ddiolch i Mrs Jones am …*<br><br>Mae'n arfer da peidio ag enwi yr un oedolyn na disgybl yn yr adroddiad |
| | | | | |

| | | |
|---|---|---|
| **HYFFORDDIANT** | - Hyfforddiant addysgu ac heb fod yn addysgu a fynychwyd gan y staff, ar ac oddi ar y safle, canlyniadau yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, sut y byddant yn cael eu monitro a'u gwerthuso<br><br>- Rhaglen Ddatblygu Staff gynllunedig a sylwadau arni ers yr adroddiad diwethaf | Mae aelodau angen gwybod beth yw effaith HMS ar y dysgwr ac yn y tymor hirach pa effaith y mae wedi ei gael ar safonau |

52

| Penawdau Pwnc | Tymor yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf | Pwyntiau er Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| **DATBLYGIADAU CWRICWLWM** | - Amlinelliad o athroniaeth addysgu a dysgu'r Uned Cyfeirio Disgyblion<br><br>- Blaenoriaethau mewn dysgu<br><br>- Effaith datblygiadau cytun<br><br>- Pynciau a wneir gydag amrywiol ddosbarthiadau<br><br>- Cynnwys sylwadau yn berthynol i benderfyniad a wnaethpwyd yn flaenorol gan y aelodau mewn perthynas â'r cwriclwlwm e.e. penderfyniad i gadarnhau arddull addysgu | | | Er y gall hyn fod yn ffocws i bwyllgor neu weithgor, mae angen adroddiad arno gan y athro/athrawes mewn gofal. Gall yr adroddiad gyfeirio at gofnodion perthnasol y pwyllgor |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AAA/ADY** | - Trefniadaeth AAA/ADY<br>- Defnydd o staff<br>- Gwybodaeth ystadegol – nifer y datganiadau, disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a Gweithredu gan yr Ysgol<br>- Meysydd AAA/ADY a nodwyd yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion e.e. anawsterau dysgu cymhedrol, ASD ayyb. | - Diweddariad o wybodaeth | - Diweddariad o wybodaeth | Mae gan pob Uned Cyfeirio Disgyblion aelod gyda chyfrifoldeb dros AAA/ADY |
| | | | | |
| **CYFLAWNIAD DISGYBL** | - gybodaeth ar fynediad<br>- canlyniad disgwyliedig | - Cynnydd | - Cynnydd | Dylid adrodd ar asesiadau bob tymor ac adrodd ar ddata i'r aelodau yn y cyfarfod cyntaf sydd ar gael. Dylai aelodau hefyd gael eu hysbysu ynghylch canlyniadau o ddadansoddiad a dehongliad. |

| Penawdau Pwnc | Tymorf yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf | Pwyntiau er Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **GOSOD TARGEDAU** | Adrodd ar dargedau yr ydych yn eu gosod i'r disgyblion fel y'u cyflwynwyd i'r ALI yn y cyfarfod cyntaf sydd ar gael<br><br>Gwneud sylwadau ar gynnydd tuag at gwrdd â'r targedau | |
| | | |
| **DATBLYGIADAU CWRICWLWM ERAILL** | e.e.<br>Prosiect Ysgolion Iach<br>Eco Ysgolion<br>Prosiect lleol … yn seiliedig ar glwstwr<br>Prosiectau Cenedlaethol | Mae hyn yn helpu i alluogi aelodau i weld sut mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn datblygu'r plentyn cyfan ac fe fydd yn cyfrannu at ddealltwriaeth o lesiant yn ogystal â darpariaeth cwricwlwm eang, cytbwys. |
| | | |
| **CYNLLUN DATBLYGU** | - Cynnydd tymhorol yn erbyn canlyniadau datganedig<br><br>- Diwygiadau i'r cynllun datblygu<br><br>- Effaith rhanddeiliaid ar adeiladu a chyflwyno'r cynllun datblygu | Argymhellir bod adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun datblygu yn gynwysiedig ym mhob adroddiad yr Athro/Athrawes mewn Gofal |
| | | |
| **ADRODDIAD HUNANWERTHUSIAD (AHW)** | - Adroddiad tymhorol ar hunanwerthuso<br>- Adroddiad monitro<br>- Sylwadau ar y safonau a welwyd<br>- Diweddariad blynyddol yn erbyn y tri cwestiwn allweddol<br>- Rhannu canlyniadau ac amcanion cynllunedig yn erbyn gwelliant Uned Cyfeirio Disgyblion | Argymhellir adrodd ar AH ym mhob adroddiad yr athro/athrawes mewn Gofal |

| Penawadau Pwnc | Tymor yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf | Pwyntiau er gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| **CYNLLUN GWEITHREDU YN DILYN AROLWG** | Diweddariad tymhorol | Diweddariad tymhorol | Diweddariad tymhorol | Mae'n ofynnol adrodd ar gynnydd yn erbyn Adroddiad Estyn a'i Gynllun Gweithredu dilynol bob tymor, rhag ofn y byddai arolygiad yn cael ei gynnal |
| | | | | |
| **CYNLLUN PONTIO** | - Adrodd ar werthusiad y Dieddariadau tymhorol ar bontio os yn berthnasol<br>- Adrodd ar lunio'r cynllun | | cynllun cyfredol<br>'newydd' | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **RHEOLAETH PERFFORMIAD** | Diweddariad tymhorol | Diweddariad tymhorol | Diweddariad tymhorol | Mae angen hysbysu aelodau bod y broses yn un barhaus a ble mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion o fewn ei gylch blynyddol. Bydd hyn yn cynnwys staff addysgu a staff cymorth fel bo'n briodol<br><br>Nid yw aelodau yn derbyn adroddiad am amcanion unigol yn erbyn staff penodol er y gellir eu hysbysu o amcan yr Uned Cyfeirio Disgyblion gyfan sydd yn cynnwys yr holl staff |
| | | | | |

| Penawdau Pwnc | Tymor yr Hydref | Tymor y Gwanwyn | Tymor yr Haf | Pwyntiau er Gwybodaeth |
|---|---|---|---|---|
| **ADEILADAU AC EIDDO A IECHYD A DIOGELWCH** | - Manylion am unrhyw asesiadau risg iechyd a diogelwch a gynhaliwyd<br><br>- Unrhyw waith i'w gyflawni o ganlyniad i'r asesiad risg<br><br>- Unrhyw addasiadau i'r eiddo sydd yn cael eu gwneud | | | |
| | | | | |
| **GWEITHGAREDDAU'R UNED CYFEIRIO DISGYBLION** | Diweddariad tymhorol | Diweddariad tymhorol | Diweddariad tymhorol | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **YMWELWYR I'R UNED CYFEIRIO DISGYBLION** | Diweddariad tymhorol yn erbyn pwy, pam a phryd | |
| | | |
| **CYDLYNU** | Cynnwys pethau fel:<br>- Cydlynu gyda grwpiau cymunedol<br>- Unedau Cyfeirio Disgyblion eraill / asiantaethau<br>- Ysgolion cynradd / uwchradd lleol<br>- Rhwydweithiau penaethiaid / athrawon mewn gofal<br>- Cymunedau Dysgu Proffesiynol | |
| | | |

## 3.1 Tair prif rôl y pwyllgor rheoli

### i) Y rôl strategol

Mae'r canllawiau statudol yn disgrifio'n eglur beth yw rolau a chyfrifoldebau y pwyllgor rheoli (PRh),[20] mae rhagor o wybodaeth am hyn yn Rhan 1 o'r Llawlyfr. Mae pwyllgorau rheoli yn chwarae rôl strategol ac ymgynghorol gan weithio'n agos gyda'r Awdurdd Lleol (ALI)/consortiwm rhanbarthol (CRh) a'r athro/athrawes mewn gofal i:

- gosod nod ac amcanion
- nodi a chytuno ar bolisïau, targedau a blaenoriaethau
- nodi trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu nodau ac amcanion
- penderfynu os ydy'r polisïau, targedau a blaenoriaethau'n cael eu cyflawni ai peidio.

Dylai aelodau'r Pwyllgor Rheoli ofyn am gyngor gan yr Athro/Athrawes mewn Gofal cyn gwneud penderfyniadau.

Gan weithio'n strategol, i godi safonau, dylai aelodau pwyllgor rheoli ddefnyddio unrhyw dystiolaeth monitro i adolgyu a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw dargedau a osodwyd i weld os ydy polisi yn gweithio neu a oes angen ei newid.

Fe ddylai Pwyllgorau Rheoli ddeall y gwahaniaeth rhwng ymyrraeth ar lefel strategol ac ymyrraeth yn rheolaeth gweithrediadol yr athro/athrawes mewn gofal a staff yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

Man cychwyn ar gyfer cynllunio strategol ydy gweledigaeth sydd yn ei gwneud yn hawdd i'r staff ddeall yr hyn y mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ceisio ei gyflawni.

Dylai aelodau pwyllgor rheoli fod yn gwbl ymwybodol o'r rôl sylweddol y gall y pwyllgor rheol ei chwarae o ran datblygu a chyflawni gweledigaeth, amcanion a thargedau eu Huned Cyfeirio Disgyblion. Y pwyllgor rheoli sydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn cyflenwi'r cyfleoedd gorau posibl i bob plentyn, beth bynnag fo'u hoedran neu allu, i gyrraedd eu llawn botensial mewn amgylchedd ofalgar a diogel.

Unwaith y bydd y weledigaeth wedi'i chadarnhau, bydd y pwyllgor rheoli, yr athro/athrawes mewn gofal a'r staff yn penderfynu ar y strategaethau a'r gweithgaredd a fydd yn galluogi'r Uned Cyfeirio Disgyblion i ddatblygu tuag at hynny.

Mae gan aelodau swydd bwysig i'w gwneud trwy sicrhau bod yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn cynllunio'i datblygiad, a phan fo cynlluniau yn cael eu gweithredu, y canlyniad ydy gwelliant clir. Fel rheol mae targedau a blaenoriaethau'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn y cynllun datblygu, a fydd yn rhestru gweithgareddau penodol y mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn gobeithio eu cyflawni. Yna fe fydd y pwyllgor rheoli yn chwilio am dystiolaeth bod cynnydd tuag at dargedau yn cael ei gyflawni. Dylai pob targed ac amcan fod yn CAMPUS:

- Cyraeddadwy – gyda'r person(au) y disgwylir iddyn nhw gyflenwi'r amcan
- Amserol – sefydlu disgwyliadau clir o pryd y caiff yr amcan ei gwblhau
- Mesuradwy – i hwyluso monitro cynnydd
- Penodol – gwneud yr amcan yn glir ac yn ddiamwys

[20] *Canllawiau statudol - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014*, Llywodraeth Cymru
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/canllawiau-statudol-rheoliadau-addysg-unedau-cyfeiriodisgyblion-pwyllgorau-rheoli-ac-ati-cymru-2014.pdf

- Synhwyrol – heriol, ond o fewn cyrraedd ac yn werth ymdrechu tuag ato.

Yn eu cyfarfodydd rheolaidd, dylai aelodau dderbyn adroddiadau a thrafod y cynnydd y mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ei wneud tuag at gyflawni'r nodau a restrir yn y cynllun datblygu a'r adroddiad hunan werthuso (AH).

Yn ogystal â thrafodaeth ar yr uchod, fe fydd angen i aelodau fod yn wybodus ac yn gallu arddangos dadansoddiad trwyadl o ddata perfformiad. Gyda chefnogaeth gan yr ALI a'r CRh, dylai'r a'r athro/athrawes mewn gofal pwyllgor rheoli gael dehongliad cytun o'r data i'w ddefnyddio wrth osod targedau ar gyfer gwelliant. Mae angen i aelodau fod yn fodlon bod eu disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol neu well, o dderbyn eu man cychwyn pan wnaethon nhw ymuno â'r Uned Cyfeirio Disgyblion.

**ii) Y rôl cefnogi a herio**

Mae rôl y pwyllgor rheoli, gyda'r ALI, yn cynnwys monitro ac adolygu safonau a chwricwlwm yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae'n gymorth cael amserlen i fonitro safonau a darpariaeth ar draws yr Uned Cyfeirio Disgyblion mewn da bryd fel bod aelodau pob pwyllgor yn gallu gwneud y trefniadau angenrheidiol i gymryd rôl weithredol yn y broses gyfan. Fe fydd hyn yn gymorth i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ddarpariaeth a'r safonau yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

Mae'r pwyllgor rheoli, gyda'r ALI, yn rhoi cefnogaeth a chyngor a her adeiladol i'r athro/athrawes mewn gofal a'r staff. Dylai aelodau hefyd ofyn am wybodaeth ac eglurhad i wneud y penderfyniad gorau ar gyfer pawb dan sylw. Mae'r pwyllgor rheoli hefyd yn offeryn ar gyfer syniadau, gan dynnu oddi ar wybodaeth a phrofiad ei aelodau.

Mae'n bwysig bod y pwyllgor rheoli yn darparu'r cydbwysedd angenrheidiol rhwng cefnogi a herio, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol a darparu her a chefnogaeth i'r Athro/Athrawes mewn Gofal. Mae'n bwysig hefyd bod aelodau yn teimlo'n ddigon hyderus i ymgymryd â'r rôl cefnogi a herio yma; fe fydd hyn yn cynnwys herio'r arweinyddiaeth, yr ALI a'r CRh.

Mae'n arfer da i bwyllgorau rheol nodi aelodau pwyllgor penodol i fod yn gyfrifol am fonitro gwahanol agweddau o'r ddarpariaeth. Fe fydd hyn yn helpu'r pwyllgor rheoli i gynyddu ei ddealltwriaeth o beth a sut mae disgyblion yn dysgu, ac mae'n helpu aelodau pwyllgorau i herio'r Uned Cyfeirio Disgyblion ar ei berfformiad.

Dylid strwythuro cyfarfodydd y pwyllgor rheoli i sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a monitro cynnydd yn ganolog. Dylid derbyn amrediad o adroddiadau (mewnol ac allanol) yn ystod pob blwyddyn academaidd, i fonitro cynnydd yn erbyn cynllun datblgu'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Os oes gwahaniaethau rhwng camau gweithredu cytun a chanlyniadau, dylid creu strategaethau i greu gwelliant. Dylai'r pwyslais fod ar wella canlyniadau i ddisgyblion bob amser. Dylai'r pwyllgor rheoli herio'r canfyddiadau os nad oes yna esboniad rhesymol.

Cyfrifoldeb y pwyllgor rheoli ydy monitro a gwerthuso effeithlonrwydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion, gyda'r ALI, a'r ymgais barhaus am welliant.

**Sut y gallwch helpu gyda gwelliant? Dyma rai pwyntiau i'w hystyried:**

- gallu bod yn wrandawr da ac yn ddatrysydd problemau helpu'r Uned Cyfeirio Disgyblion i wella syniadau a chynigion a dod i benderfyniadau cadarn

- gofyn cwestiynau ymchwilgar sydd yn helpu i ddatblygu disgwyliadau a bwriadau, yn enwedig pan fo disgwyliadau'n rhy isel neu lle nad yw gweithrediadau'n cyd-fynd â bwriadau. Weithiau, bydd y

cwestiynau allweddol ond ‘syml’ yn aml: Pam? Sut? Ble? Pryd? yn rhoi yr ateb yr ydych ei angen i chi.

- cydnabod a dathlu cyflawniadau’r Uned Cyfeirio Disgyblion
- gwybod pan nad yw’r Uned Cyfeirio Disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallai
- darparu cefnogaeth ac anogaeth pan fo strategaethau i greu gwelliant yn cael eu hystyried. Dylai systemau fod yn eu lle i fonitro a gwerthuso gwaith yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- cael cydbwysedd priodol rhwng cefnogi a herio.

Enghraifft o gefnogi a herio sydd ar gael gan Estyn:
- Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Ceredigion - Cefnogi disgyblion ag anghenion cymdeithasol,
**27**
emosiynol ac ymddygiadol yn effeithiol.

Mae’r Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol **(**NLDB**)** wedi llunio nifer o gwestiynau a ofynnir gan lywodraethwyr yn eu rôl cefnogi a herio, fe fydd rhai yn ddiamau yn berthynol i’ch rôl ar y pwyllgor rheoli.[28]

**iii) Y rol atebolrwydd (Cyfeirier at Rhan 1)**

Er mai’r athro/athrawes mewn gofal a staff eich Uned Cyfeirio Disgyblion sy’n atebol i’r ALl a’r pwyllgor rheoli am berfformiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion, dylai’r ALl a’r pwyllgor rheoli fod yn barod i egluro ei benderfyniadau a gweithredoedd i unrhyw un sydd â diddordeb dilys. Gall hyn gynnwys staff, rhieni/gofalwyr, disgyblion, y gymuned leol a Llywodraeth Cymru.

## 3.2 Y dystiolaeth y dylai pwyllgorau rheoli chwilio amdanynt a’u gwerthuso

Bydd y rhan fwyaf o athrawon mewn gofal yn pwysleisio llwyddiant yn eu hadroddiadau i’r pwyllgor rheoli ond efallai na fyddant yn cynnwys gwybodaeth os nad yw’r Uned Cyfeirio Disgyblion wedi bod mor llwyddiannus. Fodd bynnag, mater i chi a’ch cyd aelodau yw penderfynu’n union pa fath o wybodaeth sy’n eich helpu i wybod bod eich Uned Cyfeirio Disgyblion yn gwneud yn dda, neu beidio. Felly, pa fath o wybodaeth ddylai aelodau’r pwyllgor rheoli fod yn gofyn i’r athro/athrawes mewn gofal ei darparu er mwyn i chi a’ch cyd aelodau farnu a yw’r Uned Cyfeirio Disgyblion yn gwneud ei gorau i’r disgyblion?

Bydd peth o’r tystiolaeth y gallwch ofyn i’r athro/athrawes mewn gofal ei darparu yn eich galluogi i farnu trwy gymharu. Er enghraifft, fe fyddwch eisiau gwybod:

- sut mae disgyblion yn eich Uned Cyfeirio Disgyblion yn perfformio mewn asesiadau athrawon, yn y profion darllen a rhifedd cenedlaethol,[29] ac o ran disgyblion uwchradd Unedau Cyfeirio Disgyblion, canlyniadau arholiadau cyhoeddus, er enghraifft TGAU, AS a Lefel A (os yn briodol), ac ydy’r disgyblion wedi llwyddo yr un mor dda ym mhob maes

[27] https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/cefnogi-disgyblion-ag-anghenion-cymdeithasol-emosiynol-ac-ymddygiadol-yn-effeithiol

[28] http://gov.wales/docs/dcells/publications/140901-questions-for-governors-cy.pdf

[29] Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn Uned Cyfeirio Disgyblion ac mewn ysgol prif ffrwd, oni bai bod penderfyniad datgymhwysiad wedi'i wneud. Nid yw'n ofynnol i ddisgyblion sydd wedi cofrestru yn unig mewn Uned Cyfeirio Disgyblion sefyll y profion.

- ydy'r disgyblion yn mynychu'n rheolaidd, i ba raddau mae triwantiaeth yn broblem a pha gamau a gymerwyd i ddatrys unrhyw broblemau presenoldeb

- faint o ddisgyblion sydd wedi eu gwahardd, dan ba amgylchiadau ac oes yna unrhyw dueddiadau'n ymddangos

- beth sy'n digwydd i ddisgyblion ar ôl gadael yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Fe all hyn fod yn arbennig o bwysig i i aelodau pwyllgorau rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion uwchradd gan y bydd y disgyblion yn mynd i addysg bellach neu uwch, chwilio am waith

- pa weithgareddau a ddarperir gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion sydd y tu hwnt i'r cwricwlwm ffurfiol (ac efallai sy'n cael eu darparu ar ddechrau neu ddiwedd diwrnod ysgol arferol, neu gyda'r nos neu ar benwythnosau) a faint o ddisgyblion sy'n cael budd ohonynt.

Cofiwch, mae'n bwysig rhoi'r wybodaeth a dderbynnir yn ei gyd-destun wrth wneud arfarniadau. Er enghraifft, gan fod niferoedd y disgyblion yn debygol o newid yn ystod y flwyddyn academaidd ac y bydd perfformiad yn amrywio'n sylweddol ar sail blwyddyn ar ôl blwyddyn, fe fydd angen i chi gymharu data ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol gyda ffigurau tebyg ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Fe fydd y data a ddarperir gan yr ALl/CRh hefyd yn ddefnyddiol.

**Gwerth Ychwanegol**

Dylech geisio nodi beth mae eich Uned Cyfeirio Disgyblion yn ei gyfrannu i ddatblygiad a chynnydd ei disgyblion, trwy ganolbwyntio ar y sgiliau, gwybodaeth a gwerthoedd y mae'r disgyblion yn meddu arnynt pan yn gadael yr Uned Cyfeirio Disgyblion, o'u cymharu gyda'r sgiliau, gwybodaeth a gwerthoedd oedd ganddynt pan ddaethant i'r Uned Cyfeirio Disgyblion i ddechrau. Mewn geiriau eraill, fe fydd angen i chi fesur beth mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion wedi'i ychwanegu at ddatblygiad a chynnydd ei disgyblion. Fe fydd hyn yn cynnwys sgiliau personol, eu hanghenion emosiynol, iechyd a llesiant yn ogystal â'u cynnydd academaidd. Mae'r asesiad hwn o 'werth ychwanegol' yn anoddach i'w gyflawni nag y mae'n swnio.

Mae angen i'r pwyllgor rheoli a'r athro/athrawes mewn gofal ddyfeisio ffyrdd o fonitro ac asesu ffactorau fel:

- ymddygiad ac agweddau disgyblion

- llesiant disgyblion
-  ysbryd y staff / datblygiad proffesiynol
-  beth mae rhieni/gofalwyr eisiau ar gyfer eu plant ac ydy ymgysylltiad rhieni yn effeithiol

- sut mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ymwneud gyda'r gymuned y mae'n rhan ohoni (yn yr ystyr ehangach, nid yn ddaearyddol)

- sut mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu hanes, diwylliant a gwerthoedd cymdeithasol lleol, a'r iaith Gymraeg.

Ni ellir asesu rhai o'r agweddau hyn oni bai bod aelodau unigol o'r pwyllgor rheoli yn arsylwi bywyd yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn uniongyrchol ac yna'n adrodd eu hargraffiadau personol mewn cyfarfodydd o'r pwyllgor rheoli. Bydd eich rhinweddau personol, profiad a synnwyr cyffredin yn hanfodol wrth wneud hyn.

Dylid adolygu cynnydd hefyd yn rheolaidd gyda disgyblion unigol, trwy raglenni gofal bugeiliol, i asesu a yw'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn dal yn briodol ac a oes modd eu hailintegreiddio i ysgol brif ffrwd.[21]
Fe fydd angen i chi hefyd fod yn fodlon bod yna lefel gyson o berfformiad ar draws yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae'r wybodaeth a fydd yn eich galluogi i wneud hyn yn cynnwys:


- gwahaniaethau rhwng grwpiau blynyddoedd (fel bo'n briodol)
- gwahaniaethau yn effeithiolrwydd y dysgu mewn gwahanol bynciau yn y cwricwlwm a ddarperir yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- cynnydd mewn llesiant ac ymddygiad ar draws yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- presenoldeb
- gwahaniaethau rhwng llwyddiannau gwahanol feysydd pwnc (mewn Uned Cyfeirio Disgyblion uwchradd)
- gwahaniaethau rhwng cyflawniadau bechgyn a merched
- nodweddion arbennig yn codi o ddisgyblion o gefndir ethnig gwahanol, gallu arbennig, anghenion arbennig ayyb.

Mae meysydd pwysig eraill i edrych arnyn nhw yn cynnwys:

- teithiau cynnydd disgyblion
- llais disgyblion
- diogelu data
- cyfraddau ailintegreiddio.

[21] Ceir rhagor o wybodaeth yn Rhan 6 o'r canllawiau 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion - https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf

**Y cylch ar gyfer monitro a gwerthuso perfformiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion**




## 3.3 Cynllun datblygu’r Uned Cyfeirio Disgyblion

**Beth ydyw?**

Mae cynllun datblygu yn ddogfen allweddol yn nodi blaenoriaethau a strategaethau ar gyfer datblygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion dros gyfnod o 3 blynedd, yn gysylltiedig gyda’r adroddiad hunanwerthuso (AH). Dylai gwelliant fod yn nodwedd ganolog wrth baratoi a gweithredu cynllun datblygu pob Uned Cyfeirio Disgyblion.

**Pwy sy’n ei lunio?**

Rhaid i’r ALl a’r pwyllgor rheoli baratoi’r cynllun datblygu yn unol â Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014.[22] Rhaid i gynllun datblgu’r Uned Cyfeirio Disgyblion gynnwys meini prawf sydd yn benodol i’r rhanbarth hwnnw. Yn ogystal â rheoliadau allai helpu, efallai bod gan ALl a CRh eu canllawiau a’u fformatau eu hunan y gall Unedau Cyfeirio Disgyblion eu defnyddio. Mae gan y pwyllgor rheoli rôl bwysig mewn llunio cynllun datblygu Uned Cyfeirio Disgyblion, ar y cyd gyda’r athro/athrawes mewn gofal a’r staff. Bydd yn penderfynu blaenoriaethau’r Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer yr hyn y mae’n gobeithio ei gyflawni yn y blynyddoedd nesaf.

**Pa feysydd a gynhwysir ynddo?**

[22] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2677/contents/made/welsh

Rhaid i'r cynllun datblygu gynnwys o leiaf:

- blaenoriaethau gwelliant yr Uned Cyfeirio Disgyblion am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd nesaf, a rhaid i'r blaenoriaethau hynny roi ystyriaeth i'r blaenoriaethau cenedlaethol

- datganiad cryno yn nodi targedau gwelliant a chanlyniadau disgwyliedig a strategaeth y pwyllgor rheoli i gwrdd â'r targedau hynny

- manylion strategaeth y pwyllgor rheoli am y flwyddyn academaidd ar sut y bydd yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion er mwyn ateb targedau gwelliant

- manylion am sut y bydd y pwyllgor rheoli yn ceisio ateb targedau gwelliant am y flwyddyn gyfredol

- manylion am sut y bydd yr ALI a'r pwyllgor rheoli yn gwneud y defnydd gorau o staff cyfredol yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac adnoddau (yn cynnwys adnoddau ariannol); yn ychwanegol at y staff a'r adnoddau (gan gynnwys adnoddau ariannol) y rhagwelir y bydd ar gael iddynt

- datganiad cryno y nodi i ba raddau y cafodd targedau gwelliant am y flwyddyn ysgol flaenorol eu cwrdd a lle na chawsant eu cwrdd yn llawn, ac esboniad cryno o'r rhesymau pam na chawsant eu cwrdd[23]

- mae angen i bob aelod o'r pwyllgor rheoli gael copi o'r cynllun datblygu.

**Sut mae'r cynllun datblygu yn cael ei lunio?**

Mae'r pwyllgor rheoli angen gwybodaeth fanwl am yr Uned Cyfeirio Disgyblion, naill ai yn uniongyrchol neu o wybodaeth a ddarperir gan yr athro/athrawes mewn gofal, fel bod modd i aelodau'r pwyllgor rheoli chwarae rhan gweithredol mewn dylunio cynllun datblgu ynghyd â'r ALI/CRh.

Gall enghreifftiau o'r math o wybodaeth y gallai pwyllgor rheoli ofyn amdani gynnwys:

- amlinelliad o ragolygon ariannol (dylai'r ALI ddarparu hyn), ar gyfer y tair blynedd nesaf neu fwy, yn seiliedig ar dueddiadau mewn niferoedd disgyblion, cyflogau staff a chostau cynnal adeiladau ac adnoddau

- canlyniadau adolygiadau mewnol o waith yr Uned Cyfeirio Disgyblion

- cynlluniau datblygu blaenorol

- unrhyw sylwadau ac argymhellion a wnaed gan aseswyr allanol, fel yr ALI neu Estyn

- manylion cyraeddiadau disgyblion, fel canlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athrawon

- argymhellion yr athro/athrawes mewn gofal ar gyfer adeiladu ar gryfderau a chyraeddiadau a gwella gwendidau

[23] Atodlen – Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2014
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2677/schedule/made/welsh

- barn rhieni/gofalwyr, y gymuned leol a'r staff am eu Huned Cyfeirio Disgyblion.

Bydd y cynllun yn fwy manwl a phenodol ar gyfer y blaenoriaethau hynny a nodir ar gyfer y flwyddyn i ddod yn hytrach na'r blynyddoedd wedyn. Dylai'r cynllun manwl am y flwyddyn gyntaf gynnwys targedau ar gyfer gwelliant ac amlinelliad o'r prosesau gweithredu, monitro a gwerthuso sydd eu hangen.

Mae gosod targedau yn rhan hanfodol o unrhyw gynllun datblygu effeithiol am ei fod yn nodi beth a fwriedir ac erbyn pryd y dylid ei gyflawni. Gall targedau effeithiol gyda meini prawf perfformiad eglur ei gwneud hi'n haws i drefnu'r gweithredu sydd ei angen i gyflawni'r nod a monitro a gwerthuso datblygiad.

Yn y rhan fwyaf o achosion nid mater i'r pwyllgor rheoli fydd ystyried tasgau manwl ar gyfer pob blaenoriaeth. Yr athro/athrawes mewn gofal a'r uwch dîm fydd fel rheol yn y sefyllfa orau i wneud hyn. Ond, fe fydd angen i'r pwyllgor rheoli fod yn fodlon bod y tasgau cynllunedig yn glir ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol a'u bod yn gynaliadwy ac yn gallu gwrthsefyll newidiadau sydyn e.e. lefelau staffio, cyllido ayyb.

Yr ALI sydd yn rhoi'r cymeradwyaeth terfynol i'r cynllun datblygu, mewn trafodaeth gyda'r pwyllgor rheoli.

**Oes rhaid i'r pwyllgor rheoli ymgynghori ar y cynllun datblygu?**

Rhaid i'r ALI/CRh a'r pwyllgor rheoli ymgynghori gyda'r canlynol wrth baratoi neu ddiwygio cynllun datblygu'r Uned Cyfeirio Disgyblion:

- yr athro/athrawes mewn gofal (os nad ydy'r person hwnnw yn aelod o'r pwyllgor rheoli)  digyblion yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- rhieni/ gofalwyr disgyblion
- staff
- unrhyw bersonau eraill y mae'r pwyllgor rheoli yn ysteried sydd yn briodol.

**Pwy sy'n derbyn copi o'r cynllun datblygu?**

Mae'r cynllun yn bennaf yn ddogfen weithio ar gyfer aelodau'r pwyllgor rheoli a'r holl staff a gyflogir yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Ond, rhaid i'r Pwyllgor Rheoli, ar y cyd gyda'r Awdurdod Lleol, gyhoeddi cynllun datblygu'r Uned Cyfeirio Disgyblion drwy ddarparu copïau i bob aelod o'r Pwyllgor Rheoli a holl aelodau staff yr Uned. Fe fydd yr Awdurdod Lleol yn cadw copi hefyd.

**Pwy sy'n monitro, gwerthuso ac adolygu'r cynllun datblygu?**

Y pwyllgor rheoli sydd yn gyfrifol am fonitro, gwerthuso ac adolygu'r cynllun datblygu. Mae Rheoliadau 2014[24] yn datgan bod rhaid i'r pwyllgor rheoli fonitro'r cynllun datblygu o leiaf bob blwyddyn. Ond, argymhellir bod hyn yn cael ei wneud bob tymor. Mae'n well gan rai pwyllgorau rheoli fonitro trwy roi cyfrifoldeb arbennig i bob un o'i bwyllgorau dros elfennau allweddol o'r cynllun datblygu.

---

[24] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2677/contents/made/welsh

**Beth mae monitro, gwerthuso ac adolygu yn ei olygu?**

Mae’n bwysig bod y Pwyllgor Rheoli yn sicrhau bod systemau monitro a gwerthuso cadarn yn bodoli ac mae hyn yn cynnwys:

- gosod amserlen ar gyfer derbyn adroddiadau a data gan yr Athro/Athrawes mewn Gofal a staff yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- sicrhau bod systemau monitro a gwerthuso cadarn yn bodoli
- holi cwestiynau a chasglu gwybodaeth berthnasol
- comisiynu adroddiadau rheolaidd gan yr athro/athrawes mewn gofal, uwch staff, arbenigwyr pynciau ac eraill fel bo’n addas
- sicrhau bod data perfformiad yn eglur a diamwys
- dadansoddi data perfformiad a gwneud casgliadau dilys ohono
- cael gwybodaeth drylwyr, cyfredol, parhaus am yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn gyffredinol mewn unrhyw ffordd sy’n bosib.


**I bwy yr adroddir cynnydd tuag at gyrraedd nod y cynllun datblygiad?**

Mae’r ALI yn rhannu cyfrifoldeb gyda’r pwyllgor rheoli am godi safonau ac fe fydd ganddo felly ddiddordeb mewn derbyn adroddiadau gan y pwyllgor rheoli yn berthynol i fonitro a gwerthuso’r cynllun datblgu a’i weithrediad.

Mae rhagor o wybodaeth am *Gynlluniau Datblygu Ysgol* ar gael yn Nogfen Ganllaw 155/2014 Llywodraeth Cymru.[25]

**Mae’r diagram canlynol yn dangos cylch cynllunio datblygu Uned Cyfeirio Disgyblion:**

[25] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/school-development-plans/?skip=1&lang=cy




## 3.4 Adroddiad hunanwerthuso Uned Cyfeirio Disgyblion

Hunanwerthuso ydy un o'r offer pwysicaf, ynghyd â'r cynllun datblygu, wrth gyfrannu at wella ansawdd a chodi cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae tri chwestiwn wrth wraidd hunanwerthuso:

- Pa mor dda ydym yn perfformio?
- Sut yr ydym yn gwybod hynny?
- Sut allwn wella pethau?

Dylai'r broses o hunanwerthuso fod yn un barhaol ac yn rhan reolaidd o fywyd gwaith yr Uned Cyfeirio Disgyblion, a dylid ei seilio ar ystod eang o wybodaeth am gryfderau ac am ble mae angen gwelliant. Dylai unedau cyfeirio disgyblion ddefnyddio gwybodaeth o hunanwerthuso i gynllunio gwelliannau, cyflawni gwelliant, a sicrhau proses rheolaidd a chylchredol o fonitro a gwerthuso sydd yn arwain at welliant pellach.

Dylai hunanwerthuso hefyd ystyried barn amrediad eang o randdeiliaid, gan gynnwys staff, aelodau pwyllgor rheoli, rhieni/gofalwyr, cyflogwyr a'r gymuned a wasanaethir gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Pan fo unedau cyfeirio disgyblion yn cynnwys rhanddeiliaid, mae staff yn elwa trwy gael goleuni pellach ar gryfderau a ble mae angen gwelliant, cyflawni gwaith gwelliant, yn ogystal â rhanberchenogaeth, cydweithrediad a phartneriaeth effeithiol. Gellir gofyn barn rhanddeiliaid trwy ddefnyddio holiaduron a dadansoddi'r canlyniadau. Mae Estyn yn defnyddio holiaduron fel rhan o'r broses arolygu y gallai pwyllgorau rheoli eu defnyddio a'u haddasu.[26]

Mae cylch arolygon Estyn yn gosod hunanwerthuso wrth ganol gwaith unedau cyfeirio disgyblion ac arolwg. Mae Estyn wedi cynhyrchu templed hunanwerthuso a allai fod yn ddefnyddiol i unedau cyfeirio disgyblion.[27]

Cwestiynau y dylid eu gofyn am waith aelodau pwyllgor rheoli fel rhan o hunanwerthuso uned:

[26] https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu/holiaduron
[27] https://www.estyn.llyw.cymru/inspection/inspection-guidance/unedau-cyfeirio-disgyblion

- Pa mor dda mae aelodau ein pwyllgor rheoli yn deall eu rolau?
- Pa mor dda maent yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol ac yn ystyried deddfwriaeth ac arweiniad perthnasol?  A oes ganddynt wybodaeth dda am berfformiad ein Huned Cyfeirio Disgyblion a'r materion sydd yn effeithio arni?
- A ydynt yn darparu cyfarwyddyd ar gyfer gwaith ein Huned Cyfeirio Disgyblion?
- Ydyn nhw'n cefnogi ac yn herio ein Huned Cyfeirio Disgyblion, ac yn ein cyfrif yn atebol am y safonau a'r ansawdd yr ydym yn eu cyrraedd?
- A ydynt yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i ddisgyblion, aelodau'r staff, rhieni/gofalwyr neu unrhyw berson arall am y dulliau gweithredu os ydynt yn dymuno gwneud cwyn neu apêl?
- A ydynt yn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn brydlon?
- A oes gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion gydbwysedd synhwyrol rhwng y cyfrifoldebau sydd yn nwylo aelodau'r pwyllgor rheoli a'r rhai sydd wedi eu hymddiried i'r athro/athrawes mewn gofal a'r staff?

## 3.5 Sicrhau bod eich pwyllgor rheoli yn effeithiol

Un o'ch swyddogaethau pwysicaf fel aelod pwyllgor rheoli yw bod yn ddigon agos at yr athro/athrawes mewn gofal, staff a rhieni/gofalwyr i ddarparu cefnogaeth, tra'n gallu cymryd cam yn ôl pan fo angen edrych yn feirniadol ar beth mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ceisio ei gyflawni ac ystyried a yw'n llwyddo ai peidio.

Mae gwneud beirniadaethau am yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac am ba mor lwyddiannus neu aflwyddiannus y mae hi yn golygu mwy na thalu ymweliad byr, neu 'ddibynnu ar reddf'. Mae'r rhan fwyaf o bobl, yn cynnwys mwyafrif rhieni/gofalwyr ac yn enwedig Awdurdodau Lleol sydd yn dyrannu cyllid i unedau cyfeirio disgyblion, angen tystiolaeth mwy pendant o berfformiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

Man llawer gwell i gychwyn adolygu datblygiad eich Uned Cyfeirio Disgyblion yw gyda'r cynllun datblygu a'r adroddiad hunanwerthuso, a fydd yn rhestru rhai pethau penodol yr oedd yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn gobeithio'u cyflawni, ac yna gallwch chwilio am dystiolaeth bod y targedau hyn wedi eu cyrraedd.

Mae gan aelodau pwyllgor rheoli swydd bwysig i'w gwneud trwy sicrhau bod yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn cynllunio'i datblygiad, a phan fo cynlluniau'r uned yn cael eu gweithredu, bod gwelliant yn digwydd.  Yn amlach na pheidio felly, mae aelodau pwyllgor rheoli yn defnyddio cyfarfodydd i dderbyn adroddiadau a thrafod datblygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion wrth geisio cyrraedd y targedau a restrir yn y cynllun datblygu.

Mae gan aelodau pwyllgor rheoli rôl ganolog i'w chwarae i ddarparu cyfeiriad strategol, darparu her a chefnogaeth i'r athro/athrawes mewn gofal, a bod yn atebol i rieni/gofalwyr a'r gymuned a wasanaethir. Mae angen i bwyllgorau rheoli herio eu hunain i fod y gorau posibl. I wneud hyn fe ddylen nhw gymryd amser i fyfyrio ar effaith eu penderfyniaau a gwerthuso effeithlonrwydd eu prosesau a gweithdrefnau i wella canlyniadau i'r Uned Cyfeirio Disgyblion, y disgyblion, staff a'r gymuned a wasanaethir. Felly mae hunanwerthusiad pwyllgor rheoli sydd yn gadarn, yn systematig ac wedi'i hen sefydlu yn hanfodol os ydy aelodau pwyllgor rheoli yn mynd i sicrhau bod eu Huned Cyfeirio Disgyblion yn mynd i gyflawni'r safonau uchaf o addysg a llesiant i ddisgyblion a staff.

Mae angen i'r pwyllgor rheoli wybod a yw'n effeithiol wrth geisio cyflawni ei ddyletswydd o godi safonau mewn Uned Cyfeirio Disgyblion. Wrth i'ch pwyllgor rheoli ddyfeisio ffyrdd i wella ei

effeithiolrwydd drwy hyfforddiant a chydweithio, mae’n bwysig gallu olrhain ei ddatblygiad. Fe fydd hyn yn gymorth i nodi meysydd lle mae angen am hyfforddiant a datblygiad pellach.

Efallai eich bod eisoes wedi dod i gasgliad ynglŷn â’ch dulliau presennol o weithio, yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd o sawl sianel. Efallai bod eich ALl yn cynnig adborth ar berfformiad eich pwyllgor rheoli. Bydd gan rieni/gofalwyr a staff hefyd eu barn ar pa mor dda mae’r pwyllgor rheoli yn gwarchod eu buddiannau - ac yn gadael i chi wybod pan fo’r pwyllgor rheoli yn methu â chwrdd â’u disgwyliadau.

Dylai aelodau pwyllgor rheoli deimlo bod yr amser a’r ymdrech y maen nhw’n eu buddsoddi’n yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn cael effaith gadarnhaol a bod ganddynt dystiolaeth i gefnogi eu casgliadau. Mae’r Uned Cyfeirio Disgyblion hefyd, angen argyhoeddiad bod y pwyllgor rheoli yn gweithio’n effeithiol. Dylai adolygiad a gwerthusiad rheolaidd gael ei gynnwys ym musnes y pwyllgor rheoli er mwyn mesur effeithiolrwydd ac i alluogi’r pwyllgor rheoli i adeiladu ar ei gryfderau a gwella gwendidau.

Fe fydd eich ALl a’ch CRh yn gallu helpu eich pwyllgor rheoli i asesu’i effeithiolrwydd bob yn hyn a hyn. Fodd bynnag, bydd angen i’r pwyllgor rheoli gytuno i roi amser digonol i’r broses adolygu. Efallai bydd angen cyfarfod neu gyfarfodydd ychwanegol ond yn aml mae aelodau pwyllgor rheoli yn cael hyn yn fuddsoddiad tymor byr sy’n werth ei wneud ac yn arwain at wella effeithiolrwydd yn y tymor hir.

ATODIAD A

# Sut mae ein pwyllgor rheoli yn gweithio

## *1) O ran ei rôl, mae fy mhwyllgor rheoli ...*

| | Ydy | Dim yn sicr | Nac Ydy | Llwyddiannau a Datrysiadau | Meysydd i'w Datblygu |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 yn chwarae rhan llawn yn pennu amcanion a gwerthoedd yr Uned Cyfeirio Disgyblion | | | | | |
| 1.2 yn cael ei chynnwys yn llawn wrth drafod polisi | | | | | |
| 1.3 yn cael ei chynnwys yn llawn wrth greu polisi perthnasol | | | | | |
| 1.4 yn wybodus ynglŷn â phenderfyniadau rheolaeth mewnol a digwyddiadau pwysig | | | | | |
| 1.5 yn gefnogol i waith yr Uned Cyfeirio Disgyblion | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.6 yn heriol mewn ffordd gadarnhaol wrth ymdrin â'r athro/athrawes mewn gofal | | | | | |
| 1.7 yn sianel defnyddiol rhwng yr Uned Cyfeirio Disgyblion, ei chymuned a chyrff eraill | | | | | |

## *2) O ran perthynas gydag eraill, mae fy mhwyllgor rheoli ...*

| | Ydy | Dim yn sicr | Nac Ydy | Llwyddiannau a Datrysiadau | Meysydd i'w Datblygu |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.1 yn glir ynglŷn â rôl a dyletswyddau'r athro/athrawes mewn gofal | | | | | |
| 2.2 yn glir ynglŷn â rôl a dyletswyddau'r pwyllgor rheoli | | | | | |
| 2.3 yn glir ynghylch rôl yr ALI / Consortiwm | | | | | |
| 2.4 yn gweithio fel tîm effeithiol | | | | | |
| 2.5 yn rhannu gwaith rhwng aelodau | | | | | |
| 2.6 yn annog cyfraniadau gan aelodau unigol o'r pwyllgor rheoli | | | | | |
| 2.7 yn deall sut mae penderfyniadau yn effeithio ar yr hyn sydd yn digwydd yn y dosbarth | | | | | |
| 2.8 yn ymweld â'r Uned Cyfeirio Disgyblion 'wrth ei gwaith' | | | | | |

## *3) O ran trefniadaeth, mae fy mhwyllgor rheoli...*

| | Ydy | Dim yn sicr | Nac Ydy | Llwyddiannau a Datrysiadau | Meysydd i'w Datblygu |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 yn rheoli ei fusnes yn effeithiol | | | | | |
| 3.2 yn defnyddio'i amser yn dda | | | | | |
| 3.3 yn cynnwys trefniadau dirprwyo eglur a chytun | | | | | |
| 3.4 yn sicrhau bod gan bwyllgorau gylch gorchwyl eglur | | | | | |
| 3.5 yn cynnal cyfarfodydd y gellir eu mwynhau | | | | | |
| 3.6 yn meddu ar god ymarfer/egwyddorion ymddygiad sydd yn pennu ymddygiad aelodau'r pwyllgor rheoli ac yn cynnal adolygiad, y cytunir arno, yn flynyddol gyda'r aelodau | | | | | |
| 3.7 yn sicrhau presenoldeb da mewn cyfarfodydd (gwell na 80%) | | | | | |

## 4) *O ran hunan ddatblygiad, mae fy mhwyllgor rheoli …*

| | Ydy | Dim yn sicr | Nac Ydy | Llwyddiannau a Datrysiadau | Meysydd i'w Datblygu |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 yn gosod ei ddangosyddion perfformiad ei hun ac yn osod targedau ar gyfer gwella effeithlonrwydd y pwyllgor rheoli | | | | | |
| 4.2 yn rhoi blaenoriaeth uchel i hyfforddiant a datblygiad aelodau'r pwyllgor rheoli | | | | | |
| 4.3 yn teimlo'n gyfrifol am ei hyfforddiant a datblygiad ei hun | | | | | |
| 4.4 yn monitro'i berfformiad ei hun | | | | | |
| 4.5 yn adnabod ei anghenion hyfforddiant ei hun | | | | | |
| 4.6 yn gwybod beth yw'r datblygiadau cyfredol o fewn addysg | | | | | |
| 4.7 yn rhannu arfer da a gwybodaeth gyda phwyllgorau rheoli eraill, ac yn dysgu oddi wrthyn nhw | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.8 yn sicrhau bod pob aelod newydd o’r pwyllgor rheoli yn cael eu mentora am gyfnod sydd yn briodol i’w profiad blaenorol | | | | | |

## 5) O ran deilliannau, mae fy mhwyllgor rheoli yn gallu …

| | Ydy | Dim yn sicr | Nac Ydy | Llwyddiannau a Datrysiadau | Meysydd i’w Datblygu |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.1 dangos sut mae penderfyniadau wedi effeithio ar welliant yr Uned Cyfeirio Disgyblion a chodi safonau | | | | | |
| 5.2 dangos bod yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn gyson wedi cyflawni’r targedau a osodwyd dros y tair blynedd diwethaf ym mhob dangosydd perfformiad allweddol, neu esbonio pam bod y targedau wedi cael eu methu | | | | | |
| 5.3 dangos sut mae ei effeithlonrwydd ei hun wedi gwella dros amser | | | | | |

## 6) O ran fy natblygiad fy hun …

| | Ydy | Dim yn sicr | Nac Ydy | Llwyddiannau a Datrysiadau | Meysydd i’w Datblygu |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.1 Rwyf wedi mynychu’r hyfforddiant perthnasol angenrheidiol i gyflawni fy rôl | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.2 mae fy mhresenoldeb mewn cyfarfodydd y pwyllgor rheoli dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf wedi bod yn 100% | | | | | |
| 6.3 Rwy’n teimlo’n hyderus i ofyn cwestiynau mewn cyfarfodydd pwyllgor rheoli ac mae gennyf y sgiliau a’r wybodaeth i wneud cyfraniad gwerthfawr i drafodaethau | | | | | |

## 4.1 Derbyniadau a phrosesau

Yn rhannol, mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn ymateb i waharddiad o ysgol. Gall hyn gynnwys gwaharddiad disgyblu ffurfiol neu leoliad fel dewis amgen i waharddiad. Gellir defnyddio Uned Cyfeirio Disgyblion hefyd am resymau iechyd a diogelwch lle nad ydy grwpiau, fel merched ifanc beichiog, yn cael eu hystyried yn addas i addysg ysgol prif ffrwd.

Penderfynir ynglŷn â pholisi derbyn yr Uned Cyfeirio Disgyblion gan yr awdurdod lleol (ALl), ar y cyd â'r pwyllgor rheoli. Rhaid cael meini prawf clir ar gyfer derbyn disgyblion i'r Uned Cyfeirio Disgyblion, yn ogystal â thargedau clir ar gyfer ailintegreiddio mewn addysg brif ffrwd neu arbennig, neu fynediad i addysg bellach neu gyflogaeth. Gall penderfyniadau o ddydd i ddydd ynglŷn â derbyniadau i'r Uned Cyfeirio Disgyblion gael eu gwneud gan yr awdurdod lleol neu eu dirprwyo i'r pwyllgor rheoli neu'r athro/athrawes sy'n gyfrifol. Rhaid i bwyllgor rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion sicrhau bod cofrestr derbyniadau'n cael ei gadw.

Efallai y byddai derbyn mewn Uned Cyfeirio Disgyblion yn briodol i rai plant nad ydynt ar gofrestr unrhyw ysgol ac na fyddent fel arall yn cael addysg addas o bosibl. Gall awdurdod lleol, felly, enwi Uned Cyfeirio Disgyblion mewn gorchymyn mynychu'r ysgol.

Bydd gan lawer o ddisgyblion sydd mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA) a bydd gan nifer fawr ohonynt ddatganiadau, fel arfer ar gyfer anawsterau emosiynol ac/neu ymddygiadol. Dylai awdurdodau lleol ystyried yn ofalus beth yw'r ffordd orau o ddiwallu anghenion hirdymor disgyblion â datganiad. Os penderfynir mai ysgol brif ffrwd fyddai'r lleoliad gorau, efallai y byddai lleoliad tymor byr mewn Uned Cyfeirio Disgyblion er mwyn mynd i'r afael â phroblemau uniongyrchol yn helpu i ailintegreiddio disgyblion mewn ysgol brif ffrwd arall.

I ddisgyblion sydd yn derbyn darpariaeth addysgol arbennig drwy'r categori Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, efallai y byddai cyfnod mewn Uned Cyfeirio Disgyblion yn galluogi'r asesiad hwnnw i barhau. Ond os nad yw'n bosibl diwallu anghenion hirdymor disgybl mewn ysgol brif ffrwd, dylid enwi ysgol arbennig yn hytrach nag Uned Cyfeirio Disgyblion ar ddatganiad AAA.

Nid yw'n briodol i ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd o ysgolion arbennig fynychu Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Dyfyniad allan o *Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*, Llywodraeth Cymru.[28]

## 4.2 Staffio

Mae rheoli pobl, yn arbennig o ran recriwtio, dethol, lleoli, ysgogi, datblygu, disgyblu ac weithiau diswyddo, yn faterion cymhleth sydd angen eu trin yn ofalus iawn.

Yr ALl sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros staffio mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, sydd yn cynnwys penodi staff, penderfyniadau cyflogau, gallu ac ymddygiad. Ond, argymhellir yn gryf bod ALl yn gweithio gyda Phwyllgorau Rheoli wrth gyflawni'r rolau yma.

[28] https://www.llyw.cymru/cynnwys-chynorthwyo-disgyblion-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol?_gl=1*15dteli*_ga*MjA5OTMwMTQ5NC4xNzYxNjU1ODgz*_ga_L1471V4N02*czE3NjE2NTU4ODMkbzEkZzEkdDE3NjE2NTU4ODMkajYwJGwwJGgw

Staff Uned Cyfeirio Disgyblion, y rhai sy'n addysgu ac yn cefnogi, yw ei adnodd mwyaf gwerthfawr, ac fe fydd yr ALI a'r pwyllgor rheoli yn rhannu pryder bod pob aelod o staff yn gweithio'n effeithiol a bod eu gwybodaeth a'u sgiliau'n cael eu diweddaru a'u datblygu. Fe fydd aelodau Pwyllgor Rheoli yn ymwybodol bod angen i staff addysgu, gyda chymorth y staff cefnogi, gydweithio fel y gall yr Uned Cyfeirio Disgyblion gyflawni ei dyletswyddau dyddiol o addysgu a dysgu. Mae'n anodd gorbwysleisio pwysigrwydd yr athro/athrawes mewn gofal fel arweinydd y staff, fel ag y mae'r angen am berthynas waith dda rhwng yr ALI, yr athro/athrawes mewn gofal ac pwyllgor rheoli. Efallai mai'r pwysicaf oll ydy bod pob parti yn rhannu'r un weledigaeth o natur a datblygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'r safonau y mae'n ceisio'u cyrraedd.

Bydd penderfyniadau personél nid yn unig yn effeithio ar effeithiolrwydd yr Uned Cyfeirio Disgyblion, ond yn effeithio ar rolau a chyfrifoldebau aelodau unigol y staff, eu cyflogau, hunan-barch a dyfodol yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac, weithiau, eu rhagolygon gyrfa.

Bydd yr ALI a'r pwyllgor rheoli eisiau buddsoddi amser ac egni i sicrhau bod yna dystiolaeth o waith tîm ac arweiniad effeithiol. Er bod perfformiad pob aelod o staff yn bwysig, yng nghyd destun Uned Cyfeirio Disgyblion, mae'n anodd priodoli cyflawniadau a chanlyniadau penodol i unrhyw unigolyn. Ar y llaw arall, bydd peidio â gwella gwendidau ym mherfformiad unigolion, neu beidio â manteisio ar gryfderau er budd yr Uned Cyfeirio Disgyblion, yn cael effaith negyddol ar effeithiolrwydd unrhyw dîm.

Gall datblygiad staff da wella perfformiad unigolion a'r tîm staff. Ond fe all recriwtio a dethol aelodau newydd o staff sy'n cwrdd ag anghenion penodol yr Uned Cyfeirio Disgyblion ar adeg arbennig, adfywio'r holl staff gyda phrofiad gwahanol ac, efallai, syniadau a dulliau newydd.

Mae addysg disgyblion yn dibynnu ar staff sydd yn ymroddedig ac yn alluog, boed yn eu rôl addysgu neu heb fod yn addysgu. Mae'n dilyn mai'r penderfyniadau a wneir gan yr ALI a'r pwyllgor rheoli am recriwtio a dethol aelodau o'r tîm a dyraniad rolau yn y tîm, ydy'r rhai fydd ag effaith uniongyrchol ar berfformiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

Mae recriwtio felly'n gyfrifoldeb hollbwysig. Mae gan yr ALI a'r pwyllgor rheoli ddiddordeb mewn sicrhau bod y staff a benodir i'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn cydweddu gydag anghenion yr Uned Cyfeirio Disgyblion ar y pryd. Rhaid i'r ALI (gyda chymorth pan fydd angen gan yr Uned Cyfeirio) sicrhau y bydd pob aelod o staff sydd yn ymuno gyda'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn gymwysiedig, profiadol ac effeithiol yn eu rôl. Mae'n dilyn felly bod yn rhaid i'r gweithdrefnau a fabwysiadir ar gyfer recriwtio a dethol staff fod yn systematig ac wedi eu cynllunio i ddarparu'r amodau a'r dystiolaeth angenrheidiol fel bod modd penodi'r ymgeisydd gorau sydd ar gael iddyn nhw.

Fe ddylai fod gan yr ALI, gyda chyfraniad gan y Pwyllgor Rheoli, bolisïau a gweithdrefnau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer recriwtio a dethol staff.

Dylid penodi staff, gan gynnwys yr athro/athrawes mewn gofal, yn unol â deddfwriaeth cyflogaeth ac eraill.

Asesiad gofalus o anghenion staffio'r Uned Cyfeirio Disgyblion ddylai fod yn fan cychwyn all arwain at benodi aelod newydd o staff. Fodd bynnag, fe all y berthynas rhwng y cynllun staffio a'r cynllun datblygu, anghenion y gyllideb, blaenoriaethau'r ALI neu anghenion yn codi o ddarpariaeth y cwricwlwm, fod yn ffactorau pwysig hefyd.

**Arweinyddiaeth**

Mae datblygu arweinwyr ar bob lefel yn holl bwysig i ffurfio ac arwain newid ac i godi safonau mewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion. Fe fydd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL) yn sicrhau bod athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol ar wahanol lefelau o arweinyddiaeth yn gallu cael mynediad i gyfleoedd datblygu, y sgiliau angenrheidiol, yr wybodaeth a'r ysbrydoliaeth maen nhw eu hangen, i chwarae rôl arweinyddiaeth-system strategol ar draws Cymru, ar y cyd gyda'r safonau addysgu a dysgu proffesiynol.

Mae'r NAEL yn galluogi arweinwyr i gefnogi pob ysgol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion i ddarparu'r cwricwlwm newydd a'r weledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru, a chydweithredu wrth ei galon rhwng ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a sefydliadau addysg uwch.  Fe fydd yr Academi yn canolbwynto i ddechrau ar anghenion hanfodol y genhedlaeth nesaf o benaethiaid, gan sicrhau eu bod wedi cael eu paratoi ar gyfer y gwaith pwysig o fod yn benaethiaid.

Mae gwybodaeth gyffredinol am yr Academi ar gael ar wefan dysgu Cymru drwy'r ddolen ganlynol: http://learning.gov.wales/resources/collections/national-academy-for-educational-leadership?lang=cy a thrwy wefan yr Academi – http://nael.cymru/

**Gweithdrefnau cwyno, disgyblu/diswyddo a gallu**

Yr ALl, gyda mewnbwn gan y Pwyllgor Rheoli, sydd â rheolaeth dros ymddygiad a disgyblaeth staff, yn cynnwys materion a chwynion a galluedd, atal dros dros a diswyddo staff. Fe fydd yna weithdrefnau ar gyfer y meysydd yma sy'n rhaid eu dilyn.

Fel a nodwyd eisoes, gall materion personel fod yn gymhleth iawn ac mae'n hanfodol bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn.

**Adnoddau**

Llywodraeth Cymru - *Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth*
http://learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=cy

Cyngor y Gweithlu Addysg - *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg*
http://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynolar-gyfer-cofrestreion-pdf/file

Llywodraeth Cymru - *Cymunedau Dysgu Proffesiynol*
http://learning.gov.wales/resources/collections/professional-learning-communities?lang=cy

**Rheolaeth perfformiad staff**

Er mai ALl sydd yn gyfrifol am reolaeth perfformiad staff, argymhellir yn gryf eu bod yn gofyn am farn pwyllgorau rheoli ym mhob tasg yn ymwneud â rheolaeth staff a bod y pwyllgor rheoli a'r athro/atharwes mewn gofal yn cael cyfrifoldeb dros gyflenwi'r polisi.

Mae ansawdd ei staff yn hanfodol i effeithlonrwydd Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae tystiolaeth arolygu yn dangos bod rheolaeth perfformiad wedi'i dan-ddatblygu yn y mwyafrif Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Dull pwerus o helpu i ganolbwyntio gwaith staff yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion ydy cytuno ar amcanion rheolaeth perfformiad. Dylai amcanion perfformiad fod yn broses ar y cyd rhwng yr aelod o

staff, yr athro/athrawes mewn gofal a'r ALI ac unwaith y bydd yr aelod o staff wedi cytuno, dylai fod yn berthynol i:

- disgrifiad yr aelod o staff
- unrhyw feini prawf cynnydd cyflog perthnsol
- unrhyw amcanion Uned Cyfeirio Disgyblion gyfan neu dîm perthnasol a nodir yn y cynllun datblygu
- safonau proffesiynol i staff
- unrhyw flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwelliant
- dyheadau proffesiynol staff
- gwella cynnydd disgyblion yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

Wrth gytuno ar amcanion, dylid ystyried y canlynol:

1) dylai'r amcanion fod yn berthnasol i flaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu a'r cynllun gweithredu'n dilyn arolwg
2) dylai'r amcanion fod yn berthnasol i anghenion yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac anghenion yr aelod o staff
3) dylid cael dangosyddion perfformiad i bob un o'r amcanion er mwyn i bawb fod yn ymwybodol o'r math o dystiolaeth a ddefnyddir i werthuso perfformiad
4) ni ddylid cynnwys gormod o amcanion na rhai sydd ddim yn ddigon penodol. Argymhellir bod tri o leiaf ond dim mwy na phump eu chwech yn briodol
5) unrhyw oblygiadau i adnoddau
6) unwaith y bydd cytundeb rhwng yr aelod o'r staff a'r rheolwr/wraig llinell, dylid ystyried amcanion perfformiad ar gyfer y staff yn fater cyfrinachol.

**Monitro cynnydd**

Yr athro/athrawes mewn gofal sydd yn gyfrifol am fonitro rheolaeth perfformiad staff a'r ALI sydd yn gyfrifol am yr athro/athrawes mewn gofal. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw ar reolaeth perfformiad staff sydd yn cynnwys gwybodaeth am dargedau perthnasol y gellir eu gosod.[29]

Mae'n well cynnal adolygiadau tymhorol ffurfiol, a chreu agenda ar gyfer yr adolygiad sy'n rhoi cyfle:

(1) i'r aelod o staff adrodd ar gynnydd tuag at gyrraedd yr amcanion a gytunwyd

(2) i ddiwygio amcanion neu flaenoriaethau o ganlyniad i amgylchiadau arbennig

(3) i roi anogaeth a chlod

(4) i adolygu dyraniad adnoddau.

## 4.3 Sut i ddelio gyda chwyn

[29] *Rheoli Perfformiad Penaethiaid, Athrawon ac Athrawon Digyswllt,* Llywodraeth Cymru http://learning.gov.wales/resources/browse-all/performance-management-guidance/?skip=1&lang=cy

Mae gan pob rhiant/gofalwr hawl cyfreithlon i ddisgwyl i'r Uned Cyfeirio Disgyblion ddarparu ar gyfer anghenion neilltuol eu plentyn a bod y plentyn yn derbyn cwricwlwm eang a chytbwys. Fe fydd gan Unedau Cyfeirio Disgyblion weithdrefnau i ddelio gyda phryderon o'r fath.

Ond, os ydy rhieni yn teimlo bod yna anghyfiawnder wedi'i gyflawni o ran eu plentyn neu os ydyn nhw'n anfodlon gyda'r hyn y mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ei ddarparu, efallai y byddan nhw'n cyflwyno eu cwyn i aelod o'r Pwyllgor Rheoli. Os ydy hynny'n digwydd, yna mae yna ddull cywir o helpu yn y fath sefyllfa, Fe ddylech chi:

- gofio na allwch ddatrys y broblem yn uniongyrchol gan mai cyfrifoldeb yr athro/athrawes mewn gofal yw rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion o ddydd i ddydd

- osgoi rhoi'r argraff i'r rhiant/person sy'n cwyno y gallwch ddatrys y broblem oherwydd eich bod yn awyddus i helpu. Peidiwch byth ag addo'r hyn na allwch ei gyflawni

- cyfeirio'r rhiant/person at yr athro/athrawes mewn gofal a rhaid rhoi cyfle iddyn nhw ddatrys y broblem, er boddhad yr achwynydd gobeithio. Mae hyn yn berthnasol oni bai bod y gwyn ynghylch yr athro/athrawes mewn gofal

- lle mae cwynion ynghylch y materion y mae gan yr ALI awdurdod drostyn nhw, dylech gyfeirio'r achwynydd at y swyddog perthnasol yn yr ALI

- os nad yw'r rhiant / person sy'n cwyno yn argyhoeddedig bod y broblem wedi ei datrys yn foddhaol, dylech chi gofio mai cyfrifoldeb yr athro/athrawes mewn gofal yw rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion, er cymaint yr hoffech helpu. Yn yr un modd, does gan aelodau pwyllgor rheoli  ddim pŵer pan yn gweithredu fel unigolion.

Gwybodaeth gyffredinol ynghylch delio gyda chwynion

Mae gweithdrefn gwyno yn *"ffordd o sicrhau y gall unrhyw un â buddiant mewn* Uned Cyfeirio Disgyblion *fynegi pryder a bod yn hyderus y bydd yn cael ei ystyried yn llawn ac, os credir bod sail i'r pryder, y bydd y mater yn cael ei drin yn briodol ac yn ddi-oed".*[30]

- Rhaid i'r pwyllgor rheoli gael gweithdrefn gwyno sydd yn benodol berthynol i'r cwricwlwm a ddarperir yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

- Lle mae Uned Cyfeirio Disgyblion yn darparu gwasanaethau ychwanegol, rhaid i'r pwyllgor rheoli sefydlu a chyhoeddi gweithdrefnau i ddelio gyda chwynion yn berthynol i'r gwasanaethau hynny.

- Mae'n arfer da hefyd i gael gweithdrefn gwyno sydd yn nodi sut y gellir cofrestru unrhyw gwynion am unrhyw agwedd o'r Uned Cyfeirio Disgyblion, a chyfeirio rhai materion i'r ALI fel bo'n briodol.

[30] Gweithdrefnau Cwyno Cyrff Llywodraethu Ysgolion, Llywodraeth Cymru
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gweithdrefnau-cwyno-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-yng-nghymru.pdf

- Dylai'r pwyllgor rheoli ymgynghori gyda staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion ar unrhyw newidiadau a wneir i weithdrefn gwyno'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn y dyfodol cyn ei newid. Dylai fod gan staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion fynediad at gopi o'r weithdrefn gwyno.

- Mae delio gyda chwynion yn brydlon yn bwysig. Gall oedi wneud pethau'n waeth. Mae'n bwysig bod yr un sydd yn cwyno yn cael gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd. Rhaid trafod pryderon/cwynion yn deg, yn agored a gyda thryloywder ac yn ddiduedd.

- Dylai pwyllgorau rheoli sicrhau bod y canlynol yn gynwysedig yn eu gweithdrefnau cwyno:
    - Egwyddorion yn sail i'r weithdrefn ○ Rolau a chyfrifoldebau'r rhai dan sylw
    - Gweithdrefnau i ddelio gyda chwynion o amrywiol fathau ○ Amserlenni
    - Gweithdrefnau i gofnodi a monitro cwynion, i weithredu unrhyw gamau gweithredu yn deillio o ddatrysiad cwynion neu o dueddadau monitro
    - Sut y gall disgyblion gael mynediad at eiriolaeth.

- Argymhellir y dull 3 cham o ddatrys cwynion:
    - Cam A - yr aelod perthnasol/dynodedig o'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn delio gyda'r pryder / cwyn
    - Cam B - Os na chaiff y gwyn ei datrys yng Ngham A, fe fydd yr Athro/Athrawes mewn Gofal (neu berson a ddirprwywyd gan yr Athro/Athrawes mewn Gofal) yn ei ystyried yng Ngham B.
    - Cam C - Os na chaiff y gwyn ei datrys yng Ngham B, fe fydd pwyllgor cwynion y Pwyllgor Rheoli yn ei hystyried yng Ngham C.

- Os ydy'r gwyn ynghylch yr Athro/Athrawes mewn Gofal, dylid anfon y gwyn at Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli

- Bydd angen i bwyllgorau rheoli fonitro'r materion neu'r tueddiadau allweddol yn codi o'r cwynion a wneir, i addasu gweithdrefnau neu bolisïau os oes angen.

- Mae cyngor ac arweiniad ar gwynion ar gael bob amser gan eich ALI/CRh.

## 4.4 Y pwyllgor rheoli a'i gyllideb

Nid oes gan Unedau Cyfeirio Disgyblion gyllidebau dirprwyedig, a mater i'r ALI ydy penderfynu ar gyllideb pob un o'i Unedau Cyfeirio Disgyblion. Ond, argymehllir y dylai fod gan ALI bolisi cyllideb a chyllid ar gyfer eu Hunedau Cyfeirio Disgyblion a dylid gofyn am farn pwyllgorau rheoli wrth benderfynu ar gyllidebau.

Dylid annog pwyllgorau rheoli i gyflawni rhai o'r tasgau cysylltiedig, e.e., cynghori ar unrhyw ymarferion tendro neu drafodaethau am gontractau.[31]

Dylai pwyllgorau rheoli fod yn rhan o fonitro cyllideb yr Uned Cyfeirio Disgyblion, sydd yn cynnwys:

- cynorthwyo'r ALI mewn gosod blaenoriaethau cyllidol i adlewyrchu cynllun datblygu

[31] *Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*, Llywodraeth Cymru
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf

- cydymffurfio gyda'r amodau yng Nghynllun Dirprwyo'r ALl ar faterion fel tendro, cytundebau, archwilio a gofynion gwerth gorau

- monitro gwariant

- cymryd rhan mewn addasiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn, er enghraifft trwy drosglwyddiad (symud arian o un pennawd yn y gyllideb i un arall)

- cynorthwyo gyda rheoli adnoddau yn effeithiol ac effeithlon, yn cynnwys cronfa'r CRhA lle mae'n berthynol.

**Paratoi'r gyllideb (h.y. cynllun gwario'r Uned Cyfeirio Disgyblion)**

Mae'r prif benawdau yn y gyllideb yn cynnwys:

- cyflog gweithwyr, yswiriant gwladol, pensiynau a chyflenwi salwch – staff dysgu a cefnogi

- treth y pen – adnoddau addysgiadol yn cynnwys llyfrau, offer argraffu, adnoddau, ayb.

- adeiladau – cynnal a chadw adeiladau a thir, glanhau, treth cyngor, dwr

- ynni – nwy, trydan, olew

- cyflenwadau eraill – ffonau, printio ayb.

- cytundebau lefel gwasanaeth

- Incwm o grantiau, rhoddion, ffioedd gosod ayb. (gall hyn fod dan reolaeth y pwyllgor rheoli ond caiff ei fonitro'n ofalus gan yr ALl a gall yr ALl ei ailgyfeirio i un o'r penawdau eraill).

**Cynllun Datblygu Uned Cyfeirio Disgyblion**

Mae angen cysylltiad agos rhwng y cynllun datblygu a'r gyllideb. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan y bydd y gyllideb fel arfer ar gyfer y flwyddyn ariannol (1af Ebrill – 31 Mawrth) tra bod y cynllun datblygu fel arfer yn seiliedig ar y flwyddyn ysgol (1af Medi – 31 Awst). Dylai'r pwyllgor rheoli a'r ALl gynnwys goblygiadau cost eitemau yn y cynllun datblygu, a rhaid noddi hynny'n glir, a dylid cyllidebu mentrau newydd yn ofalus cyn eu cymeradwyo.

## 4.5 Y cwricwlwm

Rhaid i ysgol a gynhelir ddarparu mynediad i'r Cwricwlwm Cenedlaethol i bob disgybl ar gofrestr yr ysgol yn cynnwys y rhai sy'n cael eu haddysgu dros dro gartref, mewn ysbyty neu mewn Uned Cyfeirio Disgyblion. Lle mae'n amhosibl neu'n amhriodol cynnig y Cwricwlwm Cenedlaethol llawn i'r

disgyblion yma, gall agweddau gael eu datgymhwyso trwy gyfarwyddyd cyffredinol neu gyfarwyddyd arbennig os oes datganiad dan ystyriaeth neu'n cael ei newid.

Mae gan athrawon mewn gofal ddewis sylweddol dros ddatgymhwyso dros dro, ond ni ddylid ystyried cyfarwyddyd oni bai bod amgylchiadau presennol neu ymddygiad disgyblion yn golygu na allant gymryd rhan ac elwa yn llawn o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Dylid cyfyngu datgymhwyso i'r agweddau hynny o'r Cwricwlwm Cenedlaethol sydd yn amhriodol i'r disgybl.

Mae'r rheoliadau yn darparu bod rhaid i'r ALl, y pwyllgor rheoli a'r athro/athrawes mewn gofal gydweithio i gytuno ar bolisi cwricwlwm i'w Huned Cyfeirio Disgyblion ac i adolygu'r polisi o bryd i'w gilydd, ac argynhellir bod hynny'n cael ei wneud o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai'r polisi hefyd nodi'r gweithdrefnau ar gyfer gweithredu a monitro'r polisi.

Dylai Unedau Cyfeirio Disgyblion gynnig cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion, yn unol â diswyliadau cymdeithas, ac yn paratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd.

Mae cwricwlwm hyblyg yn galluogi awdurdodau lleol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion i sicrhau bod modd neilltuo rhagor o amser ar gyfer gweithgareddau sy'n diwallu anghenion disgyblion unigol. Er hyn, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob disgybl yn cael addysg ddigonol a fydd yn ei alluogi i wneud y gorau o'i gyfleoedd i gael cymwysterau ffurfiol. Wrth ddarparu addysg o'r fath dylid ystyried yr angen am arddulliau dysgu amrywiol, gweithgareddau dysgu wedi'u gwahaniaethu a/neu gwricwlwm wedi'i addasu.

Bydd treulio rhagor o amser yn ceisio gwella mewn llythrennedd a rhifedd o fudd i rai disgyblion. Bydd hyn yn eu helpu i ddysgu'n fwy effeithiol mewn lleoliad prif ffrwd ac i gael mynediad at gwricwlwm ehangach maes o law. Os oes modd ail integreiddio disgyblion yn llwyddiannus i ysgolion prif ffrwd, mae'n hanfodol eu bod yn cael mynediad i gwricwlwm mor eang â phosibl. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylai'r cwricwlwm gynnwys Cymraeg, Saesneg (naill ai iaith gyntaf neu ail iaith), mathemateg a gwyddoniaeth.

Ar gyfer disgyblion ym mhob cyfnod allweddol, dylid ystyried sicrhau bod y cwricwlwm mor eang ag sy'n bosibl a'i fod yn cynnwys elfennau fel celf, drama, dylunio a thechnoleg, yn ogystal ag addysg gorfforol o ryw fath. Yn ychwanegol at hyn dylid ystyried darparu cydbwysedd rhwng gwaith unigol a gwaith grŵp ac addasu hyn, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, i anghenion y disgyblion unigol.[32]

Rhaid i'r awdurdod lleol gael datganiad polisi cwricwlwm ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion. Rhaid i'r athro/athrawes mewn gofal o'r Uned Cyfeirio Disgyblion baratoi datganiad ar nodau'r cwricwlwm, ar ôl ystyried datganiad yr awdurdod lleol. Wrth baratoi'r datganiad rhaid i'r athro/athrawes mewn gofal ystyried sylwadau sy'n cael eu gwneud gan y gymuned a chan yr heddlu. Rhaid i'r athro/athrawes mewn gofal hefyd ymgynghori â phwyllgor rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Mae'n arfer da i Uned Cyfeirio Disgyblion gael datganiad yn nodi'n glir sut y mae'r staff yn bwriadu cyflwyno'r cwricwlwm.

Mae asesu cyrhaeddiad a chynnydd yn hollbwysig. Er nad yw'n ofynnol i Unedau Cyfeirio Disgyblion asesu disgyblion ar ddiwedd pob cyfnod allweddol, disgwylir asesiad, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud. Dylai cynnydd y disgyblion sy'n mynychu'r Uned Cyfeirio Disgyblion gael ei

[32] Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion, Llywodraeth Cymru
https://www.llyw.cymru/cynnwys-chynorthwyo-disgyblion-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol?_gl=1*15dteli*_ga*MjA5OTMwMTQ5NC4xNzYxNjU1ODgz*_ga_L1471V4N02*czE3NjE2NTU4ODMkbzEkZzEkdDE3NjE2NTU4ODMkajYwJGwwJGgw

gynnwys yn yr adroddiad blynyddol i'r awdurdod lleol. Fe ddylai disgybion yng Nghyfnod Allweddol 4 gael mynediad i amrediad o gymwysterau cydnabyddedig, achrededig sydd yn diwallu eu hanghenion, yn darparu cydbwysedd rhwng dysgu galwedigaethol ac academaidd ac sydd yn cadw at ofynion darparwyr addysg bellach a hyfforddiant a chyflogwyr yn y gymuned.

Mae Cofnod Cenedlaethol o Gyrhaeddiad yn darparu cofnod o'r hyn a gyflawnwyd gan ddisgybl ar ddiwedd Blwyddyn 11, ac nid yw'n gyfyngedig i gyrhaeddiad academaidd. Mae'r Cofnod o Gyrhaeddiad yn adlewyrchu diddordebau, sgiliau a gallu person ifanc, a'r hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni yn y dyfodol, a gallai fod yn ddefnyddiol i ysgolion a cholegau.

Gan mai am gyfnod byr yn unig y bydd rhai disgyblion yn aros mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, nid yw'r trefniadau adroddiadau blynyddol llawn yn berthnasol. Er hyn, dylid hysbysu rhieni/gofalwyr ynglŷn â chynnydd eu plentyn. Os bydd disgybl yn mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion am flwyddyn (neu hirach), dylid darparu adroddiad blynyddol i rieni/gofalwyr. Rhaid i unedau cyfeirio disgyblion gyflwyno adroddiad am ddisgyblion pan fyddant yn trosglwyddo i ysgolion eraill neu'n gadael addysg orfodol.[33]

**Y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol**

Rhaid i bob dysgwr 2-9 oed sefyll y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol. Mae hyn y cynnwys disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol mewn Uned Cyfeirio Disgyblion ac ysgol brif ffrwd, oni bai bod penderfyniad datgymhwyso wedi'i wneud. Dydy hi ddim yn ofynnol i ddisgyblion sydd wedi cofrestru mewn Uned Cyfeirio Disgyblion yn unig i sefyll profion; ond efallai y bydd Uned Cyfeirio Disgyblion yn dymuno defnyddio'r profion yn ôl eu dewis eu hunain, ac mae modd iddyn nhw gyflwyno data i Lywodraeth Cymru. Gellir defnyddio profion i gefnogi dysgu ac addysgu ac i roi adroddiadau i rieni/gofalwyr a helpu hefyd i nodi sut orau i herio a chefnogi disgyblion i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'r profion yn helpu i adnabod sut orau i herio a chefnogi disgyblion i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae pob disgybl yn derbyn adroddiad unigol ar ddiwedd tymor yr haf. Mae'n ofynnol i ddysgwyr sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol, y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu).[34] Rhaid cynal y profion ym mis Mai.

**Addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd**

Mae gan lawer o'r disgyblion sydd mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion gefndir addysgol helbulus ac mae'n bosibl na fyddant wedi cael addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Mae gan addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd o safon uchel rôl bwysig i'w chwarae er mwyn ysgogi cymhelliant a chyflawniad disgyblion a hybu cynhwysiant cymdeithasol. Mae Adran 43 o Ddeddf Addysg 1997 yn nodi ei bod yn ofynnol i Unedau Cyfeirio Disgyblion ddarparu rhaglen addysg gyrfaoedd i'w disgyblion o Flwyddyn 9 hyd Flwyddyn 11. Dylai Unedau Cyfeirio Disgyblion weithio mewn cysylltiad agos â Gyrfa Cymru yng nghyswllt y rhaglen hon. Cyfeirier at *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru,* Llywodraeth Cymru.[35]

**Addysg rhyw**

Rhaid cynnwys addysg rhyw yn y cwricwlwm ar gyfer disgyblion oed uwchradd sydd mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer ysgolion ac Unedau

---

[33] Dyfyniadau o *Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*, Llywodraeth Cymru https://www.llyw.cymru/cynnwys-chynorthwyo-disgyblion-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol?_gl=1*15dteli*_ga*MjA5OTMwMTQ5NC4xNzYxNjU1ODgz*_ga_L1471V4N02*czE3NjE2NTU4ODMkbzEkZzEkdDE3NjE2NTU4ODMkajYwJGwwJGgw

[34] http://learning.gov.wales/resources/collections/national-reading-and-numeracy-tests?lang=cy

[35] http://learning.gov.wales/resources/browse-all/careers-world-of-work/?skip=1&lang=cy

Cyfeirio Disgyblion ar ddatblygu polisïau ar gyfer *Addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion.*[36] Mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion sydd â phlant o oed ysgol gynradd, yr athro/athrawes mewn gofal fydd yn penderfynu a yw'n briodol cynnwys addysg rhyw yn y cwricwlwm. Yn y naill achos a'r llall, rhaid i'r athro/athrawes mewn gofal gael datganiad ysgrifenedig yn nodi polisi'r Uned Cyfeirio Disgyblion ar gynnwys a threfniadaeth addysg rhyw.

Ond, mae gan rieni yr hawl i ofyn bod eu plentyn yn cael ei esgusodi yn rhannol neu yn gyfan gwbl rhag derbyn addysg rhyw yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion, ac eithrio addysg rhyw sydd yn gynwysiedig yn y cwricwlwm cenedlaethol, er enghraifft mewn gwyddoniaeth.

**Materion gwleidyddol**

Rhaid i'r awdurdod lleol a'r athro/athrawes mewn gofal sicrhau nad yw disgyblion dan 12 oed yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol pleidiol tra maent yng ngofal aelod o'r staff, boed hynny ar y safle neu oddi ar y safle. Beth bynnag yw oed y disgyblion, rhaid i'r staff hefyd sicrhau nad yw daliadau gwleidyddol pleidiol yn cael eu hyrwyddo wrth ddysgu unrhyw bwnc, a bod disgyblion yn cael clywed cyfuniad cytbwys o safbwyntiau gwrthgyferbyniol pan godir materion gwleidyddol.[37]

**Addysg bersonol a chymdeithasol**

Tra bod addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)[38] yn ffurfio rhan o'r cwricwlwm sylfaenol i bob disgybl cofrestredig rhwng 7 ac 16 oed mewn ysgolion a gynhelir, dylai Unedau Cyfeirio Disgyblion ystyried defnyddio agweddau o hyn ac integreiddio ABCh i gynlluniau gwersi. Mae ABCh yn paratoi disgyblion i fod yn bersonol ac yn gymdeithasol effeithiol trwy ddarparu profiadau dysgu lle y gallant ddatblygu a defnyddio sgiliau, archwilio agweddau a gwerthoedd personol a chaffael gwybodaeth a dealltwriaeth priodol. Nod ABCh yn benodol yw:

- datblygu hunan barch a synnwyr o gyfrifoldeb personol disgyblion
- hyrwyddo hunan barch, parch tuag at eraill a dathlu amrywiaeth
- arfogi disgyblion i fyw bywydau diogel, iach
- paratoi disgyblion ar gyfer dewisiadau a chyfleoedd dysgu gydol oes
- ymrymuso disgyblion i gymryd rhan yn eu hysgolion a chymunedau fel dinasyddion cyfrifol gweithgar
  yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- meithrin ymagweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth byd-eang
- paratoi disgyblion ar gyfer sialensau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd oedolion.

## 4.6 Arolwg Uned Cyfeirio Disgyblion

Mae'r crynodeb isod yn nodi sut y bydd Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru, Estyn, yn arolygu Unedau Cyfeirio Disgyblion ar gyfer y cylch nesaf o arolygon. Mae gwybodaeth a chanllaw manwl am y broses arolygu ar gael.[39]

[36] http://learning.gov.wales/resources/browse-all/sex-and-relationships-education-in-schools/?skip=1&lang=cy
[37] Dyfyniadau o *Canllaw Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*, Llywodraeth Cymru https://www.gov.wales/inclusion-and-pupil-support-guidance-schools-and-local-authorities
[38] http://learning.gov.wales/resources/browse-all/personal-and-social-education/?skip=1&lang=cy
[39] https://www.estyn.llyw.cymru/arolygu

Mae gan y pwyllgor rheoli rôl bwysig iawn i sicrhau bod yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn darparu addysg o ansawdd da i'r disgyblion. Mae'n rhannu'r cyfrifoldeb hwn gyda'r athro/athrawes mewn gofal, staff a'r ALI. Fe fydd cynllun datblygu'r Uned Cyfeirio Disgyblion a'i adroddiad hunanwerthuso yn helpu'r pwyllgor rheoli i farnu'r cynnydd y mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn ei wneud.

Mae'n bwysig pan fo arfarniadau'n cael eu gwneud am ansawdd a darpariaeth addysg mewn gwahanol Unedau Cyfeirio Disgyblion bod ymagwedd gyson yn cael ei defnyddio tuag at yr arfarniadau hynny a bod yr un meini prawf yn cael eu defnyddio. I ddiwallu'r gofynion hyn, mae Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn yn darparu ymagwedd systematig tuag at arolygon. O dan Adran 28 o Ddeddf Addysg 2005 a rheoliadau perthynol, bydd pob Uned Cyfeirio Disgyblion yn cael ei harolygu o leiaf unwaith bob saith mlynedd gan Estyn.

Cynhelir arolygon gan dîm o arolygwyr, dan arweiniad arolygydd adrodd gydag aelodau eraill o'r tîm, y cyfan o Arolygiaeth Ei Mawrhydi (AEM) neu arolygwyr ychwanegol (gall arolygwyr ychwanegol fod ar secondiad neu ar gontract i'r arolygiaeth). Bydd gan pob tîm arolygydd cymheiriaid hefyd (h.y. aelod o staff o Uned Cyfeirio Disgyblion arall) ac arolygydd lleyg (nad yw wedi bod yn rhan o ddarparu na rheoli addysg ysgol, ac eithrio yn wirfoddol).

Bydd aelodau'r tîm arolygu yn cwblhau cwrs hyfforddi a gwerthuso wedi'i drefnu a'i gymeradwyo gan Estyn. Ni ddylai fod gan y tîm arolygu unrhyw gysylltiad gyda'r Uned Cyfeirio Disgyblion gan y gallai hynny daflu amheuaeth rhesymol dros eu gallu i arolygu ac adrodd yn ddiduedd. Yn ogystal â'r uchod, gwahoddir yr Uned Cyfeirio Disgyblion sydd yn cael ei harolygu i ddewis 'enwebai' (aelod o uwch staff yr Uned Cyfeirio Disgyblion) i weithio gyda'r tîm arolygu. Bydd yr enwebai yn darparu cyswllt cryf rhwng yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'r tîm arolygu.

**Diben arolwg**

Bydd yr arolwg yn delio gyda phob agwedd o ddarpariaeth yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Cyflwynwyd y trefniadau arolygu presennol er mwyn:

- darparu modd o ganfod cryfderau a gwendidau i helpu i godi safonau ac ansawdd
- darparu gwerthusiad annibynnol
- canfod a hybu arfer da a cheisio rhagoriaeth
- gadael i Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd wybod beth sy'n digwydd.

Yn ystod yr arolwg fe fydd yr arolygwyr:

- yn ystyried arolwg yn gadarnhaol i sicrhau ei fod yn brofiad dysgu proffesiynol gorau posibl i'r staff ym mhob darparydd
- yn cymryd ymagwedd wedi'i ganolbwyntio ar y dysgwyr tuag at arolwg
- yn canolbwyntio'n gryf bob amser ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu

- yn chwilio am arferion arloesol wedi'u hystyried yn dda
- yn teilwra gweithgaredd yr arolwg yn ôl yr amgylchiadau ym mhob darparydd trwy fod yn ymatebol ac yn hyblyg a defnyddio'r amrediad cynyddol o offer arolygu a'r dulliau gweithredu sydd ar gael
- yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond adrodd yn unig ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol.

Bydd Unedau Cyfeirio Disgyblion yn derbyn rhybudd o 15 diwrnod cyn arolwg, a bydd yn ofynnol iddynt gyflwyno'r wybodaeth ganlynol:

- gwybodaeth gefndir allweddol am yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- copi o adroddiad hunan werthuso a chynllun datblygu diweddaraf yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- manylion am: (i) amserlen yr Uned Cyfeirio Disgyblion dros gyfnod yr arolwg ac
  (ii) aelodau'r staff a'u cyfrifoldebau.

Yn ystod yr arolwg, fe fydd pump Maes Arolygu yn cael eu harchwilio, fel y nodir yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin:

1. Safonau
Agweddau:
1.1 Safonau a chynnydd cyffredinol
1.2 Safonau a chynnydd grwpiau penodol
1.3 Safonau a chynnydd mewn medrau

2. Lles ac agweddau at ddysgu
Agweddau:
2.1 Lles
2.2 Agweddau at ddysgu

3. Addysgu a phrofiadau dysgu
Agweddau:
3.1 Ansawdd yr addysgu
3.2 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm
3.3 Darpariaeth ar gyfer medrau

4. Gofal, cymorth ac arweiniad
Agweddau:
4.1 Olrhain, monitro a darparu cymorth dysgu
4.2 Datblygiad personol
4.3 Diogelu

5. Arweinyddiaeth a rheolaeth
Agweddau:
5.1 Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr
5.2 Prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant
5.3 Dysgu proffesiynol
5.4 Defnyddio adnoddau

**Adroddiad Hunan Werthuso**

Mae hunan werthusiad yn ganolog i'r broses arolygu. Bydd ffurflen hunanasesiad ysgol yn fan cychwyn i'r arolwg, yn pwysleisio cryfderau a gwendidau a meysydd i'w datblygu. Fel aelod pwyllgor rheoli, mae'n bwysig bod gennych syniad clir o'r hyn sy'n digwydd yn eich Uned Cyfeirio Disgyblion.

 Ydy eich pwyllgor rheoli yn cyflawni ei rôl strategol?

- Ydych chi'n cefnogi a herio'r Uned Cyfeirio Disgyblion trwy ofyn cwestiynau am bob agwedd o'i bywyd a'i gwaith?
- Ydych chi'n gofyn y cwestiynau allweddol ond yn aml syml hynny – Pam? Sut? Ble? Pryd?
- Ydych chi'n monitro a gwerthuso perfformiad a safonau?
- Ydych chi'n chwarae rhan weithredol mewn cynhyrchu ac adolygu cynllun datblygu?
- Oes gan y pwyllgor rheoli weledigaeth glir ar gyfer yr Uned Cyfeirio Disgyblion am y bum mlynedd nesaf?

Mae Estyn wedi cynhyrchu canllaw ar arolygon Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cynnwys templed hunanwerthuso.[40]

**Cyn yr arolwg**

Y man cychwyn ar gyfer arolwg ydy gwerthusiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion o'i pherfformiad ei hun, gyda chefnogaeth tystiolaeth berthnasol a gyflwynir gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion trwy'r Ystafell Arolygu Rhithwir (VIR). Ni fydd arolygwyr yn arolygu pob agwedd o'r gwaith yn drylwyr yn ystod arolwg craidd. Fe fyddan nhw'n dewis tystiolaeth i brofi hunanwerthusiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion o'i gwaith ei hun. Fe fydd yr arolygiaeth hefyd yn cael briff ar yr Uned Cyfeirio Disgyblion gan yr ALl/CRh.

Fe fydd yr arolygydd sydd yn adrodd yn cynhyrchu rhestr o 'gwestiynau sy'n dod i'r amlwg' yn seiliedig ar yr wybodaeth cyn arolwg a dderbyniwyd, a chaiff hyn ei rannu ar ddiwrnod cyntaf yr arolwg.

Rhaid i'r pwyllgor rheoli, ynghyd â'r athro/athrawes mewn gofal ac uwch staff, fod yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

(i) bod rhieni / gofalwyr a rhan ddeiliaid yn gwybod beth yw dyddiad yr arolwg

(ii) bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng yr arolygydd adrodd a rhieni/gofalwyr disgyblion yr Uned Cyfeirio Disgyblion

(iii) bod holiaduron yn cael eu hanfon (ar ran Estyn) at rieni / gofalwyr, a sampl o'r disgyblion, staff ac aelodau'r pwyllgor rheoli. Bydd canlyniadau'r arolygon hyn yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn arolwg

(iv) bod y ddogfennaeth amrywiol y gofynnir amdano'n cael ei anfon at y tîm arolygu

[40] https://www.estyn.llyw.cymru/inspection/inspection-guidance/unedau-cyfeirio-disgyblion

(v) bod yr athro/athrawes mewn gofal, aelodau staff, disgyblion ac enwebai'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn derbyn cefnogaeth i baratoi ar gyfer yr arolwg

(vi) bod cyfarfod yn cael ei drefnu gydag aelod o'r pwyllgor rheoli a'r arolygwyr yn ystod cyfnod yr arolwg. Mae Estyn yn fodlon i hyd at dri aelodau i fynychu'r cyfarfod hwn. Ond, mae'n bwysig nodi nad oes rhaid derbyn y cynnig hwn ac ni ddylid ei gymryd fel safle absenoldeb. Yn ymarferol, y Cadeirydd a aelod arall sydd fel rheol yn cynrychioli'r pwyllgor rheoli yn y cyfarfod yn ystod wythnos arolwg, er mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft lle mae newid diweddar mewn aelodaeth wedi digwydd, mae hyd at dri aelod wedi mynychu'r cyfarfod hwn, yn ogystal â'r cyfarfod adborth yn nes ymlaen yn yr wythnos.

**Yn ystod yr arolwg**

Bydd y tîm arolygu yn:

- arsylwi ar wersi
- gwrando ar ddysgwyr
- cynnal cyfweliadau a thrafodaethau gyda disgyblion a staff
- craffu ar waith disgyblion, dogfennau'r Uned Cyfeirio Disgyblion a thystiolaeth berthnasol arall.

Bydd y tîm arolygu hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion h.y:

1. adolygu gan Estyn
2. gwelliant sylweddol, neu
3. mesurau arbennig.

Fe fydd Estyn yn parhau i rannu arfer eithriadol trwy wahodd darparwyr i ysgrifennu astudiaethau achos arfer effeithiol pan fyddan nhw wedi gweld gwaith ardderchog. Fe fydd hyn hefyd yn cael ei ymestyn i ofyn i ddarparwyr ddarparu astudiaeth achos lle mae arfer mewn maes neilltuol yn gryf, hyd yn oed os ydy'r arfarniad cyffredinol ar gyfer yr arolwg hwnnw yn dda.

**Ar ôl yr arolwg**

(i) Bydd y tîm arolygu yn gwerthuso'r ddarpariaeth ac yn gwneud dau arfarniad crynodeb cyffredinol, yn gysylltiedig gyda'r pump maes arolwg, sydd yn eu tro yn seiliedig ar raddfa 4 pwynt:
   - Rhagorol - perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
   - Da - nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
   - Digonol, ac angen gwelliant - cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella a
   - Anfoddhaol, ac angen gwelliant ar frys - gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau.

   Fe fydd yr arfarniadau crynodeb yn cynnwys arfarniad cyffredinol ar berfformiad cyfredol yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac ar ragolygon yr Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer gwelliant.

(ii) Fe fydd yr arolygydd adrodd yn darparu adborth llafar, ar ganfyddiadau'r arolwg ar ddiwedd y broses arolygu i arweinyddion a rheolwyr, yn cynnwys hyd at dri cynrychiolydd o'r pwyllgor rheoli. Ond, mae'n bwysig nodi nad oes rhaid derbyn y cynnig hwn ac ni ddylid ei gymryd fel safle absenoldeb. Yn ymarferol, y Cadeirydd ac aelod arall fydd yn cynrychioli'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn y cyfarfod. Dylid gwahodd cynrychiolydd o'r ALl i fynychu'r cyfarfod. Bydd hyn yn cyfleu'r prif arfarniadau a'r rhesymau drostynt.

(iii) Fe fydd yr adroddiad arolygu yn parhau i gynnwys yr wybodaeth ganlynol:
- Gwybodaeth am yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- Datganiad cryno
- Barnau
- Argymhellion
- Prif ganfyddiadau.

(iv) Bydd gan yr Uned Cyfeirio Disgyblion bump diwrnod gwaith i ystyried ymateb drafft i wirio am gywirdeb ffeithiol.

(v) Rhaid i'r Arolygydd Adrodd gynhyrchu'r adroddiad arolwg o fewn yr amserlen statudol ar ôl diwedd yr arolwg. Darperir copïau o'r adroddiad am ddim i rieni.

(vi) Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, rhaid i'r pwyllgor rheoli gynhyrchu cynllun gweithredu ôl arolwg (PIAP) o fewn 20 diwrnod gwaith. Rhaid i'r cynllun gweithredu ddangos beth fydd yn cael ei wneud mewn ymateb i argymhellion yr arolwg. Rhaid i'r pwyllgor rheoli sicrhau bod yr argymhellion o'r adroddiad yn cael eu cynnwys yn y cynllun datblygu a'u bod yn cael eu monitro a'u gwerthuso.

## 4.7 Anghenion addysgol arbennig

ALl sydd yn gyfrifol am sicrhau bod gan Unedau Cyfeirio Disgyblion bolisïau Anghenion Addysgol Arbenning (AAA) priodol.

Mae'n rhaid i'r ALl hysbysu'r athro/athrawes mewn gofal, y staff perthnasol a'r pwyllgor rheoli (neu aelod o'r pwyllgor sy'n gyfrifol am ddisgyblion ag AAA) am AAA penodol disgyblion sy'n mynychu'r Uned Cyfeirio Disgyblion er mwyn diwallu eu hanghenion yn effeithiol.

Mae'r *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*[41] yn cynghori y dylid mabwysiadu nifer o strategaethau sydd yn helpu i sicrhau arfer cynhwysol. Mae hefyd yn awgrymu y dylai unrhyw strategaethau a ddefnyddir gydnabod gwahanol gymhlethdodau'r anghenion, y gwahanol gyfrifoldebau i asesu a diwallu'r anghenion hynny, ac amrediad ac amrywiadau cysylltiedig y ddarpariaeth, a fydd yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo orau gydnabyddiaeth gyffredin o'r continwwm AAA. Gallai a dylai AAA mwyafrif plant a phobl ifanc gael eu diwallu'n effeithiol mewn Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a

[41] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/specialeducational-needs/?skip=1&lang=cy

Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy. Mae'r ymateb graddedig a amlinelir yn y cod yn caniatau ar gyfer symudiad ar hyd continwwm cefnogaeth i adlewyrchu anghenion a'r cynnydd a wnaethpwyd.[42]

Lle mae'n ddymunol cydlynu darpariaeth i ddisgyblon sydd ag AAA, dylai pwyllgor rheoli ymgynghori gyda'r ALl ac ysgolion lleol (yn cynnwys ysgolion arbennig) i sicrhau bod darpariaeth effeithiol ar gael i'r holl ddisgyblio o'r fath yn yr ardal.

Er mwyn diwallu anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc mae'n rhaid i asiantaethau statudol fod yn hyblyg. Mae angen iddynt gyfathrebu a chytuno ar bolisïau a phrotocolau sy'n sicrhau gwasanaeth 'di-dor'. Drwy weithio mewn ffordd gefnogol ac mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr ac â'r plant a'r bobl ifanc eu hunain, sicrheir bod pawb yn deall ymatebion y bobl broffesiynol, gan arwain at ddarpariaeth o ansawdd gwell.[43]

Os tybir bod gan blentyn AAA, a bod angen cefnogaeth yn y blynyddoedd cynnar, Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, dylid gwneud cynllun addysg unigol.  Mae'r cynllun addysg unigol, y dylid ei lunio mewn partneriaeth â'r rhieni/gofalwyr a'r plentyn, yn nodi anghenion y plentyn yn fanwl, a'r camau y dylid eu cymryd er mwyn sicrhau cynnydd.  Bydd y cynllun addysg unigol yn cynnwys targedau ar gyfer y dyfodol, ac yn dangos sut a phryd y caiff cynnydd y plentyn ei adolygu.

Er mwyn cynhwysiant effeithiol fe ddylai fod gan Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Awdurdodau Lleol 
gynlluniau cydlynol ar gyfer datblygu cynhwysiant a'r rheini wedi'u cyplysu â strategaethau gwella 
personél allweddol i fwrw ymlaen gynlluniau cynhwysiant a chynlluniau gwella

- cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol sy'n cael ei wahaniaethu i fodloni anghenion pob disgybl, ynghyd â mynediad i weithgareddau all-gwricwlaidd a chydnabyddiaeth iddynt
- targedau a disgwyliadau uchel ar gyfer cynhwysiant
- strategaethau i roi sylw i anghenion hyfforddi a datblygu staff
- strategaethau clir ar gyfer gwrando ar farn plant a phobl ifanc er mwyn bodloni eu hanghenion yn y ffordd orau
- arferion cydweithio rhagweithiol sy'n cynnwys rhieni/gofalwyr ac asiantaethau partner.[53]

## 4.8 Disgyblion a Llesiant

Fel rhan o'u cyfrifoldeb i reoli Unedau Cyfeirio Disgyblion yn dda, mae gan Bwyllgorau Rheoli ddyletswydd i hyrwyddo lles disgyblion a chydlynu cymunedol. Yn yr un modd ag ysgolion, disgwylir i Unedau Cyfeirio Disgyblion gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau lleol drwy gysylltu ag ymddiriedolaethau plant ac ystyried y Cynllun Plant a Phobl Ifanc lleol – er enghraifft wrth wneud penderfyniadau ar drefniadau gofal plant.[54]

Rhaid i bwyllgorau rheoli ac athrawon mewn gofal baratoi polisi ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth a'i adolygu'n rheolaidd.  Dylai hwn ystyried anghenion pob disgybl yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Wrth baratoi neu adolygu ei bolisi gall yr athro/athrawes mewn gofal a'r pwyllgor rheoli nodi:

[42] Tudalen 12 - Dyfyniad o *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru* http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf

[43] Tudalen 35 - Dyfyniad o *Canllaw Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*, Llywodraeth Cymru https://www.llyw.cymru/cynnwys-chynorthwyo-disgyblion-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol?_gl=1*15dteli*_ga*MjA5OTMwMTQ5NC4xNzYxNjU1ODgz*_ga_L1471V4N02*czE3NjE2NTU4ODMkbzEkZzEkdDE3NjE2NTU4ODMkajYwJGwwJGgw

- ethos a gwerthoedd yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'r cod moesol
- ffiniau ymddygiad derbyniol
- rheolau ymddygiad cadarnhaol ac adeiladol
- trefniadau i sicrhau defnydd cyson o wobrau a chosbau.

Dylai'r datganiad hefyd gynnwys egwyddorion atal bwlio.

Wrth lunio ac adolygu'r polisi, rhaid i'r pwyllgor rheoli a'r athro/athrawes mewn gofal ymgynghori gyda'r rhieni/gofalwyr plant yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac ystyried eu barn nhw. Dylai'r polisi gynnwys mesurau i hyrwyddo ymddygiad da, yn ogystal â'r rheolau a'r trefniadau ar gyfer gorfodi.

Rhaid i bolisi ymddygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion gael ei gymeradwyo gan y pwyllgor rheoli yn ogystal â bod yn atebol i adolygiad ffurfiol ar sail blynyddol. Rhaid i'r athro/athrawes mewn gofal sicrhau bod rhieni, athrawon, staff sydd ddim yn dysgu a disgyblion yn ymwybodol o'r polisi a monitro'i weithrediad yn ofalus.

Ni all y pwyllgor rheoli ddirprwyo cyfrifoldeb am ddisgyblu a gwahardd disgyblion i aelod unigol o'r pwyllgor rheoli. Bydd staff sy'n gweithio mewn Uned Cyfeirio Disgyblion yn parhau'n gyfrifol am weithredu cosbau disgyblu, yn unol â pholisi rheoli ymddygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

Rhaid i unrhyw bwyllgor y mae swyddogaethau wedi'u dirprwyo iddo adrodd i'r pwyllgor rheoli mewn perthynas ag unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd neu unrhyw benderfyniad a wnaethpwyd. Gall y pwyllgor rheoli barhau i gyflawni'r swyddogaethau y mae wedi eu dirprwyo; mae hyn yn galluogi'r pwyllgor rheoli i gymryd penderfyniadau ar faterion a drafodir mewn cyfarfodydd ar swyddogaethau a ddirprwywyd.

**Cefnogi disgyblion**

[53] Tudalen 2 - Canllawiau cynnwys a chynorthwyo disgyblion, Llywodraeth Cymru
https://www.llyw.cymru/cynnwys-chynorthwyo-disgyblion-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol?_gl=1*15dteli*_ga*MjA5OTMwMTQ5NC4xNzYxNjU1ODgz*_ga_L1471V4N02*czE3NjE2NTU4ODMkbzEkZzEkdDE3NjE2NTU4ODMkajYwJGwwJGgw [54] *Canllawiau statudol - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014*,
Llywodraeth Cymru
http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/schoolsandpru/management-committees/?skip=1&lang=cy

Fe all disgyblion sydd ddim yn ymateb i bolisi ymddygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion fod mewn perygl o gael eu gwahardd. Dyma'r ateb olaf wrth gwrs ar ôl ystyried pob ymyriad arall.

**Gwaharddiadau - trosolwg**

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio gwaharddiadau, e.e. lle mae disgybl yn fygthiad i'w ddiogelwch neu lesiant ei hun, neu i ddisgyblion neu staff eraill.

Dylai'r Athro/thrawes mewn Gofal hysbysu'r rhieni/gofalwyr a'r ALl ar unwaith am unrhyw benderfyniad i wahardd a rhaid anfon cadarnhad ysgrifenedig o fewn un diwrnod.

Mae yna ddau fath o waharddiad:

- mae gwaharddiad tymor sefydlog am nifer penodol o ddyddiau ac mae'n nodi'r dyddiad y mae'r disgybl yn dychwelyd i'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Ni all yr Athro/Athrawes mewn Gofal

wahardd disgybl am fwy na 45 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn ysgol. Lle caiff dysgwr ei wahardd ar sail tymor sefydlog, mae'n gyfrifoldeb ar yr Uned Cyfeirio Disgyblion i ddarparu addysg gartref. Gall rhieni/gofalwyr wneud cynrychioliadau i bwyllgor disgyblu disgyblion yn erbyn y gwaharddiad o Uned Cyfeirio Disgyblion, yn unol â pholisi ymddygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Fe fydd angen i'r pwyllgor disgyblu disgyblion ystyried cadarnhau y penderfyniad i wahardd y disgybl ai peidio. Lle y byddai disgybl yn colli cyfle i sefyll arholiad tra ar waharddiad, rhaid i'r pwyllgor disgyblu disgyblion ystyried (gellir dirprwyo hyn i Gadeirydd/IsGadeirydd mewn achosion brys) codi'r gwaharddiad ai peidio.

- Mae gwaharddiad parhaol yn golygu bod y disgybl wedi cael ei ddiarddel yn barhaol o'r gofrestr o ddisgyblion sydd wedi ymrestru yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Os ydy ymddygiad disgybl yn golygu na all aros yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac y dylid ei wharadd yn barhaol, efallai bod gan y disgybl AAA ac mae angen datganiad ar gyfer hynny. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe fyddai angen i'r ALI ystyried trefnu asesiad ffurfiol o AAA ai peidio. Gall rhieni apelio i banel annibynnol yn erbyn y gwaharddiad parhaol. Lle mae disgybl yn cael ei waharadd yn barhaol, mae'n ddyletswydd ar yr ALI i wneud darpariaeth arall priodol ar gyfer addysg y disgybl.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghanllaw Llywodraeth Cymru ar *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.*[44]

**Pwyllgor disgyblu disgyblion**

Rhaid i'r pwyllgor rheoli sefydlu pwyllgor disgyblu, yn cynnwys tri neu bump aelod o'r pwyllgor rheoli, yn cynnwys aelodau o gategorïau gwahanol, ond ddim yn cynnwys yr athro/athrawes mewn gofal, gyda chworwm o dri. Rhaid i'r pwyllgor rheoli hefyd benodi clerc a all roi cyngor a delio gyda'r broses weinyddol. Gall y pwyllgor disgyblu disgyblion gyfarwyddo'r Athro/Athrawes mewn Gofal i ailдderbyn y disgybl. Mae pob diwrnod y cyfeirir ato yn ddiwrnod ysgol. Nid yw penwythnosau a gwyliau yn cael eu hystyried.

**Y panel apêl annibynnol**

Pan fo disgybl wedi cael ei wahardd yn barhaol ac mae'r pwyllgor disgyblu'n cynnal y penderfyniad hwnnw, gall y rhieni apelio yn erbyn ei benderfyniad o fewn terfyn amser penodol. Dylai cynrychiolydd o'r pwyllgor disgyblu disgyblion fod yn barod i gyflwyno'r rhesymau dros gefnogi penderfyniad yr Athro/Athrawes mewn Gofal i wahardd wrth y panel apeliadau annibynnol.

Caiff y canlynol gyflwyno'u hachos yn y gwrandawiad, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig: i) y rhiant a'r disgybl ii) yr athro/athrawes mewn gofal iii) aelod pwyllgor rheoli a enwebwyd iv) swyddog ALI a enwebwyd
v) gall yr holl bartïon uchod, yn ogystal â'r pwyllgor rheoli gael eu cynrychioli gan gynrychiolydd cyfreithiol neu arall.

Pan fo'r panel apeliadau annibynnol yn ystyried gadael i ddisgybl ddychwelyd i'r ysgol, rhaid iddo dalu sylw dyledus i fuddiannau disgyblion eraill a staff ac nid buddiannau'r disgybl a waharddwyd yn unig.

Bydd y panel apêl annibynnol yn cynnwys tri i bump aelod yn cynnwys person lleyg, ymarferydd addysg, aelod pwyllgor rheoli (dim o'r Uned Cyfeirio Disgyblion dan sylw) sy'n gorfod cael ei weld i fod yn ddiduedd.

[44] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/exclusion/?skip=1&lang=cy

**Polisi ymddygiad Uned Cyfeirio Disgyblion**

Fel gyda phob polisi, mae'n bwysig bod polisi ymddygiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn cael ei adolygu a'i werthuso o bryd i'w gilydd.  Dyma rai awgrymiadau o sut y gellir cyflawni hyn:

- Mae aelodau pwyllgor rheoli yn derbyn copi o'r polisi presennol, unrhyw ofynion cyfreithiol ac unrhyw ddogfennau neu weithdrefnau eraill sy'n cael eu defnyddio ar y pryd.

- Mae'r pwyllgor rheoli yn cyfarfod ac wedi trafodaeth yn cytuno ar yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i bolisi ymddygiad i'r ysgol. Caiff y rhain eu cofnodi.

- Mae'r pwyllgor rheoli yn cytuno ar broses o ymgynghoriad ar yr egwyddorion: diwrnod gweithdy staff, cofnodion o drafodaethau rhwng grwpiau o ddisgyblion / cynghorau Uned Cyfeirio Disgyblion; cyflwyniadau gan sefydliadau lleol, gweithwyr ieuenctid, heddlu, swyddogion ALI ac arbenigwyr eraill; ymgynghoriad gyda rhieni trwy gyfrwng cyflwyniadau/trafodaethau, mewn nosweithiau rhieni, digwyddiadau cymdeithas rhieni/athrawon ayb.

- Fe ddylai'r monitro a'r gwerthuso o'r polisi ymddygiad cyfredol fwydo i mewn i'r adolygiad. Er enghraifft, asesu effaith y polisi, graddau'r gwobrwyon a ddosberthir a'r sancsiynau a roddir.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol yn berthynol i'r adran hon ar gael yn Adran 3 o Gylchlythyr Rhif: 47/2006 *Cynhwysiant a Chefnogaeth Disgyblion*.[45]

**Presenoldeb disgyblion**

Anogir Unedau Cyfeirio Disgyblion i ddatblygu polisi Uned gyfan ar bresenoldeb. Mae llwyddiant disgybl mewn Uned Cyfeirio Disgyblion yn debygol o fod yn negyddol oherwydd presenoldeb gwael. Efallai na fydd y rhai sydd ddim yn mynychu'n rheolaidd yn gallu cadw'i fyny gyda'u gwaith ac mewn diwrnod prysur gall fod yn anodd i Unedau Cyfeirio Disgyblion gael yr amser ychwanegol i helpu plentyn i ddal i fyny.[46]  Mae presenoldeb rheolaidd felly cyn hanfodol ar gyfer sicrhau dysgu. Mae gwelliant mewn presenoldeb disgyblion yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion o'i gymharu â'r hyn cyn y troslgwyddiad yn ddangosydd allweddol o 'werth ychwanegol' ond ni ddylai ddisodli'r prif nod o gyflawni lefel presenoldeb uchel i bawb.

Rhaid i bwyllgor rheoli'r Uned Cyfeirio Disgyblion sicrhau bod cofrestrau presenoldeb yn cael eu cadw, a bod presenoldeb disgyblion yn cael ei fonitro, fel sy'n digwydd mewn ysgolion eraill.  Mae cyfraddau presenoldeb yn isel iawn mewn rhai Unedau Cyfeirio Disgyblion. Er bod llawer o bobl ifanc yn dod i Unedau Cyfeirio Disgyblion â record flaenorol o bresenoldeb gwael, dylid mynd i'r afael ag absenoldeb heb ganiatâd fel sy'n digwydd mewn ysgolion eraill.

Mae'n gyfrifoldeb cyfreithiol ar bob rhiant / gwarcheidwad i sicrhau bod eu plentyn yn mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion yn rheolaidd.

---

[45] http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/inclusionpupilsupportguidance/?skip=1&lang=cy
[46] Tudalen iii - Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan, Llywodraeth Cymru http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/framework/?skip=1&lang=cy

Pan fo plentyn yn mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion yn rheolaidd, maen nhw'n cymryd cam pwysig tuag at gyrraedd eu llawn botensial, ac yn cael y cyfle mwyaf i ddysgu pethau newydd a datblygu eu sgiliau. Mae'r disgyblion nad ydyn nhw'n mynychu'n rheolaidd yn aml yn dioddef o ran eu gwaith a dydyn nhw ddim yn gwneud cystal mewn arholiadau. Po fwyaf o amser y mae disgyblion yn ei dreulio o amgylch plant eraill, boed yn yr ystafell ddosbarth neu fel rhan o dimau neu glybiau, y mwyaf ydy'r cyfle sydd ganddyn nhw i wneud ffrindiau a theimlo'n gynwysiedig, gan roi hwb i sgiliau cymdeithasol, hyder a hunan barch.

Mae angen parhau i roi blaenoriaeth i bresenoldeb mewn Uned Cyfeirio Disgyblion i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i gyflawni'r hyn sydd o fewn eu cyrraedd. Mae'r cysylltiadau ystadegol rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad yn gryf. Ond mae adroddiadau'n dangos y gall arweinyddiaeth cryf ac effeithiol wneud gwahaniaeth mawr i lefelau presenoldeb ym mhob ardal. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adran 4 o ganllaw Llywodraeth Cymru ar *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*.[47]

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y gallu i ALl gyhoeddi cosbau sefydlog ar gyfer diffyg presenoldeb rheolaidd ym mis Medi 2013. Mae'r canllaw cysylltiedig[48] yn darparu cyngor ac yn nodi'r cyfrifoldebau i awdurdodau lleol, ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r heddlu. Un opsiwn o blith nifer o wahanol ymyriadau sydd ar gael i hybu gwell presenoldeb yn yr ysgol yw hysbysiadau cosb. Mae mynychu'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn hanfodol i wella rhagolygon addysgol plant ac osgoi'r perygl o ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol.

Efallai y bydd y pwyllgor rheoli yn dymuno penodi aelod pwyllgor rheoli gyda chyfrifoldeb penodol dros bresenoldeb disgyblion. Yr aelod presenoldeb disgyblion ydy'r cyswllt rhwng y pwyllgor rheoli a'r Uned Cyfeirio Disgyblion mewn perthynas â phresenoldeb a dylai gyfarfod yn rheolaidd gyda'r arweinydd staff dynodedig, o bosibl bob tymor. Dylai'r aelod pwyllgor rheoli enwebedig helpu'r pwyllgor rheoli i sicrhau ei fod yn diwallu ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â phresenoldeb disgyblion a bod y staff a'r aelodau pwyllgorau rheoli wedi derbyn hyfforddiant priodol.

## 4.9 Diogelu

Mae gan bawb yn y gwasanaeth addysg yr un amcan sef i helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy gyfrannu at:

- greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc
- nodi lle mae pryderon yn codi ynghylch lles plant a mynd i'r afael â hwy, lle y bo yn briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill
- datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gallu plentyn i wrthsefyll drwy'r cwricwlwm.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae angen systemau penodol i:

 atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc
- hyrwyddo arferion diogel a herio arferion gwael sy'n anniogel
- nodi enghreifftiau lle mae sail i bryderu am les plentyn, a chychwyn neu gymryd camau priodol i'w cadw'n ddiogel
- cyfrannu at waith partneriaeth effeithiol rhwng pawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

[47] https://www.llyw.cymru/cynnwys-chynorthwyo-disgyblion-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol?_gl=1*15dteli*_ga*MjA5OTMwMTQ5NC4xNzYxNjU1ODgz*_ga_L1471V4N02*czE3NjE2NTU4ODMkbzEkZzEkdDE3NjE2NTU4ODMkajYwJGwwJGgw

[48] *Hysbysiadau cosb am golli'r ysgol yn rheolaidd*, Llywodraeth Cymru http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/pupilsupport/penalty-notices-for-regular-nonattendance/?skip=1&lang=cy

Mae gan Awdurdodau Lleol, athrawon mewn gofal a staff gyda chyfrifoldeb dynodedig dros amddifyn plant rolau a chyfrifoldebau penodol wrth wneud trefniadau i alluogi pobl yn y gwasanaeth addysg i chwarae eu rhan llawn mewn diogelu plant rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng nghanllaw Llywodraeth Cymru ar *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*.[49]

**Plant sy'n derbyn gofal**

Yn aml, mae gan blant sy'n derbyn gofal anghenion cymhleth, sy'n golygu bod angen cymorth dwys arnynt. Mae adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008[61] yn datgan bod rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir benodi aelod o staff ("y person dynodedig") i fod yn gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol. Mae'r ddyletswydd honno'n berthnasol, os ydynt yn blant sy'n derbyn gofal sydd ar gofrestr yr ysgol neu beidio, gan fod angen i ysgolion fod yn ddigon parod i ymateb yn gyflym i anghenion plant sy'n derbyn gofal y gallent eu derbyn ar fyr rybudd. Er nad yw adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 yn berthnasol i Unedau Cyfeirio Disgyblion, ac felly nid oes dyletswydd gan y pwyllgor rheoli mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion i benodi aelod o staff ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, byddem yn annog Unedau Cyfeirio Disgyblion i ddilyn yr arferion da yn y canllawiau statudol – '*Gwneud gwahaniaeth*' sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo rôl y person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## 4.10 Cyfranogiad disyblion

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac wedi gwneud hyn yn gydnaws gyda'i Nodau Craidd. Dywed Erthygl 12 o'r CCUHP bod gan "Blant a phobl ifanc yr hawl i gael dweud beth maen nhw'n feddwl ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud poenderfyniaidau sydd yn effeithio arnyn nhw a bod eu barn yn cael ei gymryd i ystyriaeth ". Er nad oes unrhyw ofyniad ar Uned Cyfeirio Disgyblion i gael cyngor ysgol, fe fyddai hyn yn ddull da o gyfathrebu gyda'r disgyblion yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Dylai'r pwyllgor rheoli annog cyfranogiad disgyblion mewn cyfarfodydd pwyllgor rheoli fel bod barn disgyblion yn cael ei gynrychioli yn y prosesau gwneud penderfyniadau. Gellid hwyluso hyn trwy'r cyngor dysgyblion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw ar gynghorau ysgol yng Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 42/2006 *Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol*[50] sy'n cynnwys gwybodaeth, cyngor ac enghreifftiau o arfer da.

**Rôl aelodau pwyllgor rheoli**

Mae aelodau pwyllgor rheoli a'r athro/athrawes mewn gofal yn chwarae rôl hanfodol mewn helpu Unedau Cyfeirio Disgyblion i ddatblygu cyfranogiad disgyblion. Lle mae cyfranogiad yn cael ei gymryd o ddifrif, mae'n gallu cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, ac ar yr Uned Cyfeirio Disgyblion cyfan.

I helpu aelodau gyda'r broses hon, mae'n bwysig eu bod yn deall y meysydd canlynol:

---

[49] http://learning.gov.wales/resources/browse-all/keeping-learners-safe/?skip=1&lang=cy [61] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/23/section/20

[50] http://gov.wales/about/foi/publications-catalogue/circular/circulars2006/1552974/?skip=1&lang=cy [63] https://www.llyw.cymru/hawliau-plant

**Beth yw ystyr cyfranogiad disgyblion**
Mae cyfranogiad disgyblion yn golygu bod plant a phobl ifanc yn lleisio barn am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a bod y farn honno'n cael ei chymryd o ddifrif gan y bobl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae hefyd yn golygu bod disgyblion yn dysgu am brosesau democrataidd, dinasyddiaeth a chael y cyfle i gydweithio gydag oedolion i wella amgylchedd yr Uned Cyfeirio Disgyblion a sicrhau eu bod yn derbyn y cyfleoedd addysgol gorau posib. Gall cyfranogiad ddigwydd mewn sawl ffurf ac ar sawl lefel wahanol, er enghraiff, trwy arddull addysgu a dysgu cyfranogol; trwy dosbarth, blwyddyn a Chyngorau Uned Cyfeirio Disgyblion; trwy ymgynghoriad rheolaidd a gweithgareddau sy'n gysylltiedig a mentrau cenedlaethol fel ysgolion iach ac eco-ysgolion.

**Y rhesymau wrth wraidd mwy o gyfranogiad disgyblion**
Trwy gymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gwneud penderfyniadau, mae disgyblion yn datblygu sgiliau personol a chymdeithasol gwerthfawr fel gwrando, cyfathrebu, trafod, blaenoriaethu a gweithio gydag eraill i gyrraedd nod y grŵp. Pan gânt gyfle i gyfranogi, mae disgyblion yn fwy ymrwymedig a chyfrannog, ac mae perthynas rhwng disgyblion ac athrawon yn gwella. Pan fo polisïau'n adlewyrchu anghenion disgyblion ac yn ymgorffori eu syniadau, maen nhw'n dueddol o fod yn well ac yn fwy cadarn. Caiff egni creadigol disgyblion ei sianelu at weithio law yn llaw gydag oedolion er mwyn cyrraedd nod cyffredin.

**Sut all Uned Cyfeirio Disgyblion ddatblygu cyfranogiad disgyblion, yn ôl eu hanghenion ac amgylchiadau**
Ni ellir creu diwylliant cyfranogol dros nos, ac mae'n bwysig bod disgyblion yn cydweithio i benderfynu'r ffordd ymlaen. Mae angen i ddisgyblion a staff ddeall sut i ddatblygu dulliau a strwythurau cyfranogol. I helpu disgyblion, staff ysgol ac aelodau pwyllgor rheoli i gael y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, gwefan Hawliau Plant[63] yn cynnwys gwybodaeth a chyngor am gynghorau ysgol a chyfranogiad ehangach gan ddisgyblion.

Mae cyfranogiad disgyblion yn rhan o ddarlun ehangach yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i sicrhau bod plant a phobl ifanc 0-25 oed yn cael y cyfleoedd gorau posib i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn genedlaethol ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad gweithdrefnau a chyrff all helpu i hwyluso cyfranogiad effeithiol, er enghraifft fforymau ieuenctid lleol a chyrff trydydd sector fel Y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru.[51]

Fodd bynnag, mae cyd-destun yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn hollbwysig. Mae'n un o'r lleoliadau y tu allan i'r cartref ble mae plant a phobl ifanc yn dysgu sut i ryngweithio gydag oedolion y tu allan i'r teulu, a ble maen nhw'n cael cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau ac agweddau angenrheidiol er mwyn dod yn ddinasyddion cyfrifol a gweithgar. Gall aelodau pwyllgor rheoli chwarae rôl hollbwysig wrth sicrhau bod pob Uned Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru'n rhywle ble gall pobl ifanc gaffael sgiliau ac arferion democrataidd.

## 4.11 Llesiant Staff

Mae staff yn adnawdd pwysig yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion ac fe ddylid eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesynol oddi mewn i amgylchedd ddysgu a gofalgar. Gall llesiant staff weithio tuag at welliant personol a phroffesiynol, effeithlonrwydd a chael y gorau o staff. Yr ALl sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros staff mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, ond mae'n bwysig bod y staff yn gweld fod gweithio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn foddhaol yn

[51] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/llawlyfr-ar-gyfer-pwyllgorau-rheoli-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf

broffesiynol a bod yno fecanweithiau cefnogi i gyflawni hyn. Mae angen i'r pwyllgor rheoli sicrhau bod gan yr All y polisïau perthnasol sydd yn berthynol i staff yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

Enghreifftiau o'r cwestiynau y gall y pwyllgor rheoli eu gofyn:

- Ydy'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu disgyblion, ac yn gallu eu defnyddio?
- Ydy'r staff yn derbyn cefnogaeth i reoli ymddygiad disgyblion?
- Ydy'r staff yn gyfarwydd, ac ydyn nhw wedi derbyn hyfforddiant ar ymyrraeth ddiogel ac effeithiol?
- Oes gan y staff ddarpariaeth digonol ar gyfer eu datblygiad proffesiynol?
- Ydyn nhw'n deall eu rôl yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion a'u cyfraniad mewn cyflawni'r blaenoriaethau strategol?
- Ydy'r staff yn cymryd rhan yn hunanwerthusiad yr Uned Cyfeirio Disgyblion?
- Oes yna fecanweithiau i staff godi pryderon?

## 4.12 Darparu cyfleusterau a chymorth

Gall pwyllgorau rheoli, gyda chaniatâd yr ALI, ddarparu gwasanaethau ychwanegol sydd yn diwallu anghenion y gymuned leol os ydyn nhw'n dymuno, er enghraifft:

- penderfynu cynnig gweithgareddau ychwanegol ac ar ba ffurf y dylai rhain fod
- cyflenwi'r gwasanaethau ychwanegol a ddarperir
- sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu cyflenwi
- penderfynu rhoi'r gorau i ddarparu darpariaeth ysgol estynedig
- yn gallu darparu cyngor i ysgolion ac Awdurdodau Lleol.[52]

[52] *Canllawiau statudol - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014*, Llywodraeth Cymru
http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/schoolsandpru/management-committees/?skip=1&lang=cy